City & Guilds

# Cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

## Deunyddiau Dysgu – Cynllun Marcio
## Plant a Phobl Ifanc

**Chwefror 2024**



## Contents

Deunyddiau Dysgu – Cynllun Marcio ........ 1
**Astudiaeth Achos – Kaira** ........ 3
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Kaira** ........ 5
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Kaira** ........ 11
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Kaira** ........ 16
**Astudiaeth Achos – Osian and Gethin** ........ 21
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Osian and Gethin** ........ 23
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Osian and Gethin** ........ 29
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Osian and Gethin** ........ 35
**Astudiaeth Achos – Harri** ........ 41
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Harri** ........ 44
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Harri** ........ 50
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Harri** ........ 56
**Astudiaeth Achos – Lily** ........ 64
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Lily** ........ 66
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Lily** ........ 72
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Lily** ........ 78
**Astudiaeth Achos – Leon** ........ 83
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Leon** ........ 85
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Leon** ........ 90
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Leon** ........ 95
**Astudiaeth Achos – Iwan** ........ 99
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Iwan** ........ 101
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Iwan** ........ 108
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Iwan** ........ 115

# DIWEDDARIAD CHWEFROR 2024

## Deunyddiau Dysgu – Cynllun Marcio

**Diweddarwyd Chwefror 2024:**
Nid yw'y astudiaeth achos hon a'r papurau prawf cysylltiedig bellach yn rhan o'r meini prawf asesu ar gyfer cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd 8040-02.

Mae'r deunyddiau hyn wedi'u darparu i gefnogi canolfannau ac ymgeiswyr at ddibenion asesu ac adolygu ffurfiannol yn unig.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd a diweddariad strategaeth asesu Ionawr 2024, ewch i:[Update] Changes to Level 2 HSCCC Core assessments | Health and Care Learning Wales.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys yr astudiaeth achos a'r cynllun marcio **yn unig.**

Ar gyfer papurau prawf cysylltiedig, lawrlwythwch:

| | | |
|---|---|---|
| Kaira | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 002 a 004 |
| Osian and Gethin | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 002 a 004 |
| Harri | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 002 a 005 |
| Lily | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 002 a 005 |
| Leon | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 002 a 006 |
| Iwan | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 002 a 006 |

# Astudiaeth Achos – Kaira

Rydych chi'n mynd i ddarllen astudiaeth achos am Walnut Street, lleoliad preswyl i bobl ifanc. Byddwch chi'n darllen am y bobl ganlynol fel rhan o'r astudiaeth achos hon:

| | |
|---|---|
| Kaira | Person ifanc yn Walnut Street |
| Catrin | Gweithiwr allweddol Kaira |
| Dyfan | Gweithiwr gofal a chefnogaeth sy'n mynd i gefnogi Catrin |

Dydy'r astudiaeth achos hon ddim yn seiliedig ar sefydliad nac unigolion go iawn.

Mae Kaira yn 13 oed yn symud i Walnut Street, lleoliad preswyl i blant yn Ne Cymru. Roedd hi wedi bod yn byw yn Lloegr gyda'i mam, partner ei mam a'i brodyr 6 ac 8 oed. Fodd bynnag, roedd hi wedi rhedeg i ffwrdd o'i chartref lawer gwaith yn ddiweddar wrth i bryderon gynyddu am ei diogelwch a'i llesiant. Roedd Kaira wedi dechrau cymdeithasu â dynion ifanc yn yr ardal leol ac roedd ei gweithiwr cymdeithasol yn teimlo ei bod hi mewn perygl o gael ei hecsbloetio. Roedd ei hysgol wedi mynegi pryder am allu ei mam i ofalu am Kaira a'i bod hi'n mynd yn dawelach ac yn fwy encilgar, ac yn gwrthod cyfathrebu.

Mae gan fam Kaira hanes o gamddefnyddio sylweddau ac mae ei ffordd o fyw wedi bod yn anodd ei rhagweld ac yn anhrefnus ar adegau. Gadawodd tad Kaira 5 mlynedd yn ôl ac nid yw wedi dangos llawer o ddiddordeb mewn cadw mewn cysylltiad â Kaira na'i brodyr ers hynny. O ganlyniad i absenoldeb eu tad a'r ffaith bod eu mam yn camddefnyddio sylweddau, dydy Kaira a'i brodyr ddim wedi cael gofal diogel a chyson, na ffiniau clir, bob amser. Ar adegau, mae Kaira wedi cymryd cyfrifoldeb dros ofal ei brodyr iau. Mae gan Kaira berthynas wael â phartner ei mam a symudodd i mewn chwe mis yn ôl. Mae brodyr Kaira yn dal i fod gartref ar hyn o bryd, ond mae pryderon yn parhau am eu llesiant.

Roedd gweithiwr cymdeithasol Kaira yn teimlo bod angen ei lleoli hi gryn bellter o ardal ei chartref er mwyn helpu i'w hamddiffyn hi rhag y dynion ifanc roedd hi'n cymdeithasu â nhw. Mae Walnut Street yn gartref i chwech o bobl ifanc o 10 i 18 oed. Mae Kaira yn anhapus iawn am gael ei lleoli mor bell o'i chartref. Mae hi hefyd yn poeni am orfod newid ysgol ac yn bryderus am wneud ffrindiau newydd.

Aeth rheolwr cofrestredig Walnut Street i ymweld â Kaira a'i mam yn eu cartref. Mae hi'n briffio'r gweithwyr gofal a chefnogaeth sy'n mynd i gefnogi Kaira am ei bywyd teuluol, ei sefyllfa gartref a'i chefndir. Catrin fydd gweithiwr allweddol Kaira. Mae ganddi dros 5 mlynedd o brofiad mewn gofal preswyl i blant. Bydd Catrin yn cael ei chefnogi gan Dyfan, sy'n gweithio yn Walnut Street ers rhai misoedd.

Mae'r bobl ifanc eraill sy'n byw yn y lleoliad yn dal i fod yn yr ysgol pan mae Kaira yn cyrraedd gyda'i gweithiwr cymdeithasol. Mae Catrin yn dangos y cartref iddyn nhw, gan gynnwys ystafell wely Kaira. Dydy Kaira ddim yn hoffi'r ffordd mae'r ystafell wely wedi cael ei haddurno ac mae Catrin yn esbonio y bydd hi'n helpu Kaira i ailaddurno'r ystafell yn ei ffordd ei hun. Yna maen nhw'n cyfarfod â Dyfan a gweithiwr cymdeithasol Kaira i fynd drwy'r canllaw pobl ifanc. Mae'r canllaw yn esbonio fod gweithwyr angen cael caniatad cyn mynd i mewn i ystafelloedd oni bai fod pryderon am ddiogelwch.

Mae Catrin wedyn yn esbonio'r gweithgareddau wythnosol yn y cartref, y system wobrau, yr arian poced, yr archwiliadau iechyd a deintyddol a'r lle a'r adnoddau fydd ganddi hi i wneud ei gwaith cartref. Mae hi'n sôn am arferion ac amseroedd gwely'r lleoliad, yn ogystal â'r ymddygiadau a ddisgwylir gan y bobl ifanc. Mae Catrin hefyd yn disgrifio rôl yr eiriolwr sy'n ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Doedd Kaira ddim wedi cael eiriolwr o'r blaen ac mae hi'n meddwl ei fod yn beth da. Mae Kaira yn dweud nad oedd hi erioed wedi cael arian poced rheolaidd. Mae strwythurau ac arferion sylfaenol y cartref hefyd yn wahanol iawn i'w phrofiad o fywyd gartref.

Mae Catrin yn nodi o gynllun gofal a chefnogaeth Kaira bod Kaira yn arlunydd talentog ac mae hi'n gofyn a allai fod gan Kaira ddiddordeb mewn mynychu dosbarthiadau celf i bobl ifanc sydd wedi'u cynnal gan grŵp lleol. Mae Kaira yn cytuno. Mae Catrin yn gofyn iddi hi a hoffai hi gymryd rhan yn rhai o'r gweithgareddau eraill mae'r cartref yn eu cynnig, fel sglefrio iâ, dringo creigiau a theithiau i lan y môr. Dydy Kaira erioed wedi bod i sglefrio iâ o'r blaen a byddai hi'n hoff iawn o fynd, ond mae hi'n poeni am syrthio. Mae Catrin yn ei chysuro ac yn sôn am y cyfarfod tŷ wythnosol lle gall pobl ifanc awgrymu gweithgareddau yr hoffen nhw eu gwneud yn ogystal â thrafod materion eraill. Mae Kaira yn dweud nad ydy hi'n hoffi siarad mewn grwpiau.

Mae trefniadau'n cael eu gwneud i Kaira ymweld â'i mam a'i brodyr yn rheolaidd. Mae Catrin yn cyflwyno Kaira i'r gweithwyr a'r bobl ifanc eraill pan maen nhw'n dod yn ôl o'r ysgol. Mae hi'n trefnu bod Kaira yn cyfarfod â merch arall sy'n mynd i'r un ysgol â Kaira, er mwyn iddi hi allu dysgu am ei hysgol newydd. Mae'n ymddangos bod y cyfarfod a'r wybodaeth mae'r ferch yn ei rhannu â Kaira yn tawelu ei meddwl hi.

Mae llawer o'r plant sy'n byw yn Walnut Street wedi dioddef ecsbloetio rhywiol neu droseddol, neu'n cael eu hystyried mewn perygl o hynny, ac felly mae'r cartref wedi datblygu ymagwedd strwythuredig iawn at y ffordd mae'r bobl ifanc yn cael defnyddio ffonau symudol a'r rhyngrwyd. Mae hyn yn cynnwys nifer o 'gamau' i'r bobl ifanc eu cymryd i ddangos eu bod nhw'n gallu derbyn mwy o gyfrifoldeb.

Dros y misoedd nesaf, mae Kaira yn dechrau teimlo'n fwy cartrefol yn Walnut Street ac mae'n ymddangos ei bod hi'n elwa o fod â llai o gyfrifoldeb dros ei brodyr iau. Mae Catrin wedi mynd â Kaira i ymweld â'i theulu yn rheolaidd fel gwnaeth hi ei addo. Mae ei hiechyd corfforol wedi bod yn dda ond mae hi'n gofidio am ei bod hi wedi datblygu acne. Mae Dyfan yn dangos tabledi iddi hi ar y rhyngrwyd; mae'n meddwl y bydd y rhain yn helpu ac mae'n cynnig cael rhai iddi hi.

Ers i Kaira symud i Walnut Street, mae gofal ei dau frawd iau wedi dirywio eto ac mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi penderfynu dechrau achosion gofal. Mae'n ymddangos bod Kaira wedi gallu ymlacio mwy ers i'w brodyr gael eu symud oddi cartref a'i bod hi'n pryderu llai amdanyn nhw. Mae Catrin wedi parhau i gefnogi Kaira i ymweld â'i brodyr yn rheolaidd.

# Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Kaira

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set A Kaira | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 004: Iechyd a llesiant (plant a phobl ifanc)** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae Kaira yn gallu addurno/personoli ei hystafell ei hun yn Walnut Street<br>• Mae eiriolwr annibynnol ar gael i Kaira<br>• Mae Kaira yn cael dewis mynd i ddosbarth celf<br>• Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn gofyn i Kaira pa weithgareddau yn y lleoliad hoffai hi eu gwneud (e.e. sglefrio iâ)<br>• Mae Catrin yn dweud wrth Kaira y caiff hi gymryd rhan mewn cyfarfodydd tŷ wythnosol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob egwyddor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• Llesiant<br>• Cydgynhyrchu<br>• Gweithio amlasiantaethol | 2 farc |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Deall profiad Kaira o fyw yn y cartref<br>• Deall perthnasoedd o fewn teulu Kaira (e.e. gofalu am ei brodyr, ddim yn cyd-dynnu'n dda â phartner ei mam, effaith ei mam yn camddefnyddio sylweddau)<br>• Cefnogi Kaira i gynnal perthnasoedd â'i theulu (e.e. ymweliadau â'i mam/brodyr)<br>• Canfod beth sy'n bwysig i Kaira, gan gynnwys ei diddordebau (e.e. arlunydd talentog)<br>• Helpu Kaira i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd (e.e. sglefrio iâ) | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cynorthwyo â'r broses barhaus o adolygu/datblygu cynllun personol Kaira<br>• Sicrhau bod anghenion Kaira o ran iechyd a llesiant yn cael eu bodloni<br>• Deall ymddygiad Kaira (e.e. rhedeg i ffwrdd)<br>• Sicrhau bod Kaira yn cael gofal a chefnogaeth gyson / gan weithwyr / asiantaethau eraill<br>• Helpu i gefnogi datblygiad Kaira<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Darllen gwybodaeth gefndir (e.e. cynllun gofal a chefnogaeth)<br>• Gofyn i Kaira (e.e. rhoi opsiynau iddi i ysgrifennu / tynnu llun)<br>• Datblygu perthynas ac ymddiriedaeth â Kaira / ei hannog hi i fod yn agored / cynnal sesiynau un i un<br>• Treulio amser gyda hi / dod i'w hadnabod hi / arsylwi<br>• Rhoi amser / lle i Kaira i siarad<br>• Rhoi sylw i unrhyw rwystrau (e.e. grwpiau o bobl / pobl ifanc eraill sy'n drechol)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob ffactor hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Absenoldeb ei thad a'i ddiffyg ymgysylltiad<br>• Perthynas wael â phartner ei mam<br>• Ei mam yn camddefnyddio sylweddau<br>• Y diffyg strwythur a threfn yn yr amgylchedd cartref<br>• Ei chyfrifoldebau i ofalu am ei dau frawd iau<br>• Potensial o risg / ecsbloetio gan ddynion ifanc<br>• Rhedeg i ffwrdd o'i chartref<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Meddyg Teulu<br>• Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Nyrs yr ysgol<br>• Ysgol / athrawon / SENCO (Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig)<br>• Yr heddlu<br>• Mudiadau gwirfoddol / trydydd sector lleol<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol / Gweithiwr cymdeithasol<br>• Gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig (e.e. lleferydd ac iaith, deieteg)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais sydd wedi'i rhoi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Gallai<br>• Helpu Kaira i fynegi ei hun/ei theimladau/ei safbwyntiau<br>• Ei helpu hi i ymlacio/bod yn therapiwtig<br>• Cynyddu ei hyder<br>• Cynyddu ei hunan-barch<br>• Darparu ymdeimlad o gyflawniad/cynhyrchu rhywbeth mae hi'n falch ohono<br>• Ymestyn ei rhwydweithiau cymdeithasol<br>• Rhoi'r cyfle i rannu ei chelf/arbenigedd â'r bobl ifanc sy'n byw gyda hi<br>• Rhoi'r cyfle iddi hi i fwynhau ei hun/cael hwyl<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Bod yn garedig<br>• Bod yn onest/diffuant<br>• Bod yn gyson fel bod pobl ifanc yn gwybod beth i'w ddisgwyl<br>• Bod yn empathig/dangos dealltwriaeth/cydymdeimlo<br>• Ymddiheuro pan mae'r gweithiwr yn gwneud camgymeriadau<br>• Cyfathrebu'n effeithiol/defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu<br>• Credu yn y person ifanc | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Dangos gwydnwch/aros gyda nhw/peidio â rhoi'r ffidil yn y to<br>• Helpu pobl ifanc i ddeall bod ymddiriedaeth yn cael ei hadeiladu o lawer o bethau bach<br>• Treulio amser gyda phobl ifanc/gwneud gweithgareddau gyda'i gilydd<br>• Defnyddio eiriolwr annibynnol<br>• Trefnu cyfleoedd rheolaidd i siarad (e.e. cyfarfodydd tŷ)<br>• Bod yn fodel rôl cadarnhaol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am sut mae hybu trefnau cadarnhaol yn cefnogi datblygiad pobl ifanc.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â Kaira.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am sut mae hybu trefnau cadarnhaol yn cefnogi datblygiad pobl ifanc.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng hybu trefnau cadarnhaol a datblygiad Kaira.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am sut mae hybu trefnau cadarnhaol yn cefnogi datblygiad pobl ifanc.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu hybu trefnau cadarnhaol ag agweddau ar ddatblygiad Kaira.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am sut mae hybu trefnau cadarnhaol yn cefnogi datblygiad pobl ifanc.<br>Mae'r ymateb yn rhoi enghreifftiau a/neu esboniad clir ynglŷn â sut mae hybu trefnau cadarnhaol wedi cefnogi agweddau ar ddatblygiad Kaira.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys**<br>• Mae amseroedd gwely rheolaidd/mwy o gwsg yn cefnogi iechyd a'r gallu i ganolbwyntio (e.e. ysgol)<br>• Mae arferion rheolaidd eraill (e.e. prydau bwyd rheolaidd) yn cefnogi iechyd/datblygiad cyffredinol/diogelwch<br>• Mae ffiniau sydd wedi'u gosod yn gallu cefnogi ymddygiad cadarnhaol<br>• Mae cyfarfodydd tŷ rheolaidd yn gallu cefnogi amrywiaeth o sgiliau cymdeithasol fel cyfaddawdu, cymryd tro, 'rhoi a derbyn', datrys gwrthdaro | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cyfleoedd i ddysgu'n fwy effeithiol (e.e. lle ac adnoddau i gwblhau gwaith cartref)<br>• Cyfleoedd i ymlacio a gwneud gweithgareddau sy'n briodol i'w hoedran (e.e. yn wahanol i'r amgylchedd gartref lle roedd ganddi hi gyfrifoldebau i ofalu am ei brodyr iau)<br>• Cyfleoedd i ddatblygu ei sgiliau, ei doniau a'i hunanhyder ei hun (e.e. dosbarth celf)<br>• Cyfleoedd i gymdeithasu â phobl ifanc eraill | |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Cynnal asesiadau risg priodol/cymesur<br>• Rhoi gwybodaeth berthnasol am y gweithgareddau i rieni/gwarcheidwaid ac i'r awdurdod lleol a chael cydsyniad<br>• Gwneud yn siŵr bod gan y bobl ifanc ddillad/cyfarpar addas<br>• Gwneud yn siŵr bod y bobl ifanc yn ymwybodol o ffiniau/rhagofalon diogelwch<br>• Sicrhau bod y gweithgareddau wedi'u goruchwylio'n briodol<br>• Hybu dull gweithredu a rennir rhwng partneriaid/y person ifanc i reoli risg<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob canlyniad sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Torri ei ddyletswydd gofal/cod ymddygiad/ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt<br>• Gallai wynebu achos disgyblu<br>• Gallai effeithio ar ei gofrestriad proffesiynol/cael ei ddadgofrestru<br>• Gallai golli ei swydd<br>• Gallai pobl ifanc eraill ddechrau rhoi ceisiadau iddo<br>• Gallai effeithio ar berthynas Kaira â Dyfan (e.e. colli hyder ynddo/mynd yn rhy agos)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 004: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Kaira

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set B Kaira | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc)**<br>**Uned 004: Iechyd a llesiant (Plant a Phobl Ifanc)** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae Kaira wedi symud oddi wrth risg o gael ei hecsbloetio gan ddynion (e.e. symud o Loegr i Gymru)<br>• Mae Kaira wedi cael ei symud o fywyd cartref anhrefnus / anodd ei ragweld (e.e. oddi wrth effaith camddefnyddio sylweddau)/<br>• Mae'r cartref yn darparu gofal diogel a chyson<br>• Mae Catrin a Dyfan/gweithwyr allweddol yn datblygu ymddiriedaeth gyda Kaira<br>• Mae gan Kaira fwy o amser iddi hi ei hun/ dydy hi ddim yn gyfrifol bellach am ofal ei brodyr<br>• Mae gan y lleoliad bolisi cyfryngau cymdeithasol (e.e. strwythur ar gyfer ffonau a'r rhyngrwyd)<br>• Mae eiriolwr ar gael i Kaira os hoffai hi siarad<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob egwyddor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Llais a rheolaeth<br>• Llesiant<br>• Cydgynhyrchu<br>• Gweithio amlasiantaethol | 2 farc |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Deall profiad Kaira o fyw yn y cartref<br>• Deall perthnasoedd o fewn teulu Kaira (e.e. cyd-dynnu â phartner ei mam)<br>• Deall effaith gofalu am frodyr Kaira<br>• Deall effaith mam Kaira yn camddefnyddio sylweddau<br>• Deall y risgiau posibl o gael ei hecsbloetio gan ddynion<br>• Deall pwysigrwydd ffiniau proffesiynol clir | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cefnogi Kaira i gynnal perthnasoedd â'i theulu (e.e. ymweliadau â'i mam/brodyr)<br>• Cynorthwyo â'r broses o ddatblygu cynllun personol Kaira<br>• Sicrhau bod anghenion Kaira yn cael eu bodloni<br>• Deall ymddygiad Kaira (e.e. mae hi wedi rhedeg i ffwrdd)<br>• Sicrhau bod Kaira yn cael gofal a chefnogaeth gyson / gan weithwyr / asiantaethau eraill<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob canlyniad sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br>• Mae'n arwain at golli ymddiriedaeth pobl ifanc<br>• Mae'n dangos modelu rôl gwael<br>• Mae'n dadrymuso'r person ifanc<br>• Mae'n dangos diffyg parch ac urddas<br>• Gallai achosi pryder/ofn<br>• Gallai fod yn achos diogelu<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br>• Cael effaith negyddol ar bresenoldeb Kaira yn yr ysgol<br>• Cael effaith negyddol ar berfformiad Kaira yn yr ysgol<br>• Gallai Kaira redeg i ffwrdd/mae ganddi hanes o hyn<br>• Mae Kaira wedi dangos newidiadau i'w phersonoliaeth/ymddygiad (e.e. encilio/herio)<br>• Gallai Kaira fod yn risg bwlio h.y. gwahaniaethau fel mewn gofal, acen, cefndir teuluol<br>• Gallai newidiadau i'r cwricwlwm/pynciau fod yn heriol/diddorol<br>• Dysgu/dod i gysylltiad ag iaith/diwylliant newydd<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am sut mae dysgu drwy brofiad yn gallu bod o fudd i blant a phobl ifanc.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â Kaira.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am sut mae dysgu drwy brofiad yn gallu bod o fudd i blant a phobl ifanc. | 4 marc |

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Canllaw ateb</th><th>Uchafswm marciau</th></tr>
<tr><td></td><td>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng y math o ddysgu drwy brofiad a sut mae o fudd i Kaira.<br>Dyfarnwch 3 marc am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am sut mae dysgu drwy brofiad yn gallu bod o fudd i blant a phobl ifanc.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu'r math o ddysgu drwy brofiad â sut mae o fudd i Kaira.<br>Rhowch 4 marc am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am sut mae dysgu drwy brofiad yn gallu bod o fudd i blant a phobl ifanc.<br>Mae'r ymateb yn rhoi enghreifftiau a/neu esboniad clir ynglŷn â sut mae'r math o ddysgu drwy brofiad o fudd i Kaira.<br><br>Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:<br><br>• Darparu cyfle i wneud gweithgaredd corfforol<br>• Eu helpu i ddatblygu sgiliau cydsymud<br>• Eu helpu i gynllunio ar gyfer risgiau posibl a'u rheoli<br>• Eu hannog i adfyfyrio ar eu techneg a sut gellid ei gwella<br>• Eu helpu i oresgyn pryder<br>• Darparu cyfle i wneud gweithgaredd cymdeithasol<br>• Eu helpu i weithio mewn partneriaeth ag eraill<br>• Eu helpu i feithrin ymddiriedaeth mewn eraill<br>• Rhoi ymdeimlad o gyrhaeddiad iddynt<br>• Eu cefnogi i ddilyn cyfarwyddiadau<br>• Helpu i fagu hunanhyder</td><td></td></tr>
<tr><td>7.</td><td>Dyfarnwch 1 marc am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Cefnogi Kaira i gadw mewn cysylltiad â'i mam a'i brodyr<br>• Cyflwyno Kaira i blant a phobl ifanc ac aelodau staff eraill yn y cartref<br>• Trefnu bod Kaira yn cyfarfod â pherson ifanc arall yn y cartref sy'n mynd i'r un ysgol<br>• Awgrymu bod Kaira yn mynychu dosbarth celf lleol<br>• Gwrando ar ei phryderon (e.e. ceisio sefydlu ymddiriedaeth)<br>• Sefydlu ffiniau clir (e.e. dweud wrth Kaira am y trefnau dyddiol)<br><br>Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.</td><td>2 farc</td></tr>
<tr><td>8.</td><td>Dyfarnwch 1 marc am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>Mae Catrin a Dyfan</td><td>2 farc</td></tr>
</table>

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
| --- | --- | --- |
| | • yn dangos bod yno oedolion y gall hi ymddiried ynddynt/dibynnu arnynt<br>• datblygu hunan-barch/hyder Kaira (adnabod/datblygu dawn Kaira o ran celf)<br>• darparu cyfleoedd i archwilio gwahanol opsiynau a dewisiadau (e.e. sglefrio iâ/addurno ei hystafell)<br>• darparu cyfleoedd/gweithgareddau i gefnogi gallu Kaira i adnabod risgiau posibl a'u rheoli (e.e. dringo creigiau)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Lle personol i blant yn eu hystafelloedd eu hunain<br>• Lle ffisegol / adnoddau i wneud gweithgareddau gwaith cartref<br>• Cymryd mwy o gyfrifoldeb fesul cam (e.e. rheoli mynediad rhyngrwyd)<br>• Cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a diddordebau (e.e. sglefrio iâ)<br>• Cyfleoedd i wneud dewisiadau (e.e. personoli ei hystafell ei hun)<br>• Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allai gynnwys rhai risgiau (e.e. dringo creigiau)<br>• Y cyfle i reoli ei harian poced ei hun<br>• Cyfleoedd i fod yn rhan o grŵp cyfoedion (e.e. cyfarfodydd tŷ)<br>• Cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol ag oedolion (e.e. perthynas â Dyfan a Catrin)<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob budd sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Mae'n cefnogi gwydnwch / dyfalbarhad<br>• Mae'n cefnogi hyder Kaira<br>• Mae'n hybu annibyniaeth<br>• Mae'n rhoi cyfle i Kaira i adolygu/adfyfyrio<br>• Mae'n caniatáu i Kaira gymryd risgiau/dysgu o gamgymeriadau<br>• Mae'n hybu datrys problemau<br>• Mae'n hybu adfyfyrio<br>• Mae'n annog Kaira i fod yn hunanymwybodol | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae'n helpu Kaira i fod yn ymwybodol o gryfderau/ cyfyngiadau / canlyniadau<br>• Mae'n helpu Kaira i ddatblygu sgiliau sy'n drosglwyddadwy i sefyllfaoedd eraill<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob canlyniad sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Tor-dyletswydd gofal y sefydliad<br>• Gallai fod cwynion gan deulu/gweithiwr cymdeithasol Kaira<br>• Gallai arwain at ymchwiliad diogelu/cyfreitha<br>• Angen hyfforddi staff<br>• Effaith negyddol ar sgorau arolygu<br>• Niwed i enw da Walnut Street<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 004: 20 marc** | **30 marc** |

## Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Kaira

| | | |
|---|---|---|
| **Cynllun Marcio – Cwestiwn Set C Kaira** | | |
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc)**<br>**Uned 004: Iechyd a llesiant (Plant a Phobl Ifanc)** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae gan Walnut Street drefn ddyddiol benodol (e.e. amser gwely)<br>• Mae Walnut Street yn trefnu gofal iechyd (e.e. archwiliadau iechyd ac archwiliadau deintyddol)<br>• Mae Kaira yn cael ei chefnogi i gadw mewn cysylltiad â'i mam/ei brodyr<br>• Mae gan Kaira lai o gyfrifoldeb dros ei brodyr iau<br>• Mae'r gweithwyr yn gwrando ar Kaira/ yn sylweddoli ar ei galluoedd (e.e. ei diddordeb mewn celf)<br>• Mae Kaira yn mynychu'r ysgol/yn ymgartrefu yno<br>• Mae Kaira yn ymgartrefu yn Walnut Street<br>• Mae Kaira yn cael ei hannog/ eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau (e.e. sglefrio iâ, dosbarth celf)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob egwyddor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• Llais a rheolaeth<br>• Cydgynhyrchu<br>• Gweithio amlasiantaethol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mae'n hybu ymarfer plentyn-ganolog<br>• Mae'n grymuso pobl ifanc/gallant wneud dewis<br>• Mae'n annog annibyniaeth<br>• Mae'n dangos parch at urddas/preifatrwydd | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Ceisio cael gwybod gan Kaira beth sy'n ei gwneud hi'n anghyfforddus<br>• Gofyn i Kaira sut mae hi'n hoffi cyfathrebu<br>• Cynnig ffyrdd gwahanol o gyfrannu i Kaira (e.e. anfon negeseuon testun yn y cyfarfod, ysgrifennu nodiadau cyn y cyfarfod)<br>• Gwneud gwaith un i un gyda Kaira i ddatblygu sgiliau (e.e. chwarae rôl)<br>• Rhoi rôl benodol i Kaira yn y cyfarfod (e.e. cymryd nodiadau)<br>• Rhoi atgyfnerthiad cadarnhaol/adborth i unrhyw gyfraniad gallai Kaira ei wneud yn y cyfarfod/mewn sefyllfa grŵp arall<br>• Cyfathrebu â Kaira heb eiriau (e.e. gwenu, cyswllt llygad)<br>• Rheoli'r cyfarfod (e.e. gwneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle i siarad/ mynegi barn)<br>• Rhoi digon o amser i siarad i Kaira / defnyddio dulliau eraill<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob effaith hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gallai Kaira deimlo ei bod yn cael ei gwrthod/nad oes ei heisiau hi/nad oes neb yn gofalu amdani<br>• Mae gan Kaira fwy o gyfrifoldebau (e.e. gofalu am ei mam/ei brodyr)<br>• Gallai hyn fod wedi cyfrannu at ei hesgeuluso (e.e. bywyd cartref anhrefnus ac anodd ei ragweld)<br>• Gallai hyn fod wedi cyfrannu at ei hymddygiad a'i dewisiadau (e.e. rhedeg i ffwrdd)<br>• Gallai hyn fod wedi cyfrannu at ei risg o gael ei hecsbloetio (e.e. cymdeithasu â dynion ifanc)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mislif/misglwyf<br>• Blew'r corff<br>• Newidiadau i siâp y corff (e.e. pwysau, bronnau) | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Newidiadau hormonaidd e.e. chwysu, arogl y corff, gwallt seimllyd<br>• Mwy o ddiddordeb mewn rhyw / mastyrbio<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mae'n darparu rhywun annibynnol i Kaira os hoffai hi siarad<br>• Gall helpu Kaira i ystyried opsiynau gwahanol<br>• Gall helpu Kaira i fynegi ei barn/ dymuniadau<br>• Gall esbonio hawl Kaira<br>• Gweithredu fel llais i Kaira<br>• Cefnogi Kaira i wneud penderfyniadau am y dyfodol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Drwy wneud y canlynol:<br>• darparu strwythur a threfn glir<br>• rhoi cyfle iddi i bersonoli ei hystafell<br>• ei chyflwyno hi i weithwyr eraill a phobl ifanc eraill (e.e. merch yn yr un ysgol)<br>• helpu Kaira i gadw mewn cysylltiad â'i mam a'i brodyr<br>• datblygu ei thalent o ran celf (e.e. awgrymu ei bod hi'n mynychu dosbarth celf)<br>• gosod disgwyliadau / cadarnhau 'y rheolau' / ffiniau<br>• rhoi'r cyfle i Kaira i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp (e.e. mynychu cyfarfodydd tŷ)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am nodweddion amgylchedd cadarnhaol.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â Kaira nac â Walnut Street.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am nodweddion amgylchedd cadarnhaol.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng y nodweddion a Kaira neu Walnut Street.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am nodweddion amgylchedd cadarnhaol. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau â sut mae'r nodweddion o fudd i Kaira / yn cyfrannu at amgylchedd cadarnhaol.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am nodweddion amgylchedd cadarnhaol. Mae'r ymateb yn rhoi enghreifftiau a/neu esboniad clir ynglŷn â sut mae'r nodweddion o fudd i Kaira / yn cyfrannu at amgylchedd cadarnhaol.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br>• Mae trefn benodol yn darparu sicrwydd<br>• Amgylchedd cartrefol (e.e. dim ond chwech o bobl ifanc)<br>• Mae ffiniau clir yn hybu ymddygiad cadarnhaol<br>• Ymagwedd strwythuredig at annibyniaeth/ cymryd mwy o gyfrifoldeb (e.e. polisi rhyngrwyd)<br>• Canllaw pobl ifanc yn grymuso/ yn dryloyw/ mae eu hawliau'n glir<br>• System gweithwyr allweddol effeithiol ar waith i fodloni anghenion unigol<br>• Digon o le i weithgareddau unigol a gweithgareddau grŵp (e.e. lle i wneud gwaith cartref)<br>• Cysylltiadau da ag adnoddau'r gymuned leol (e.e. dosbarth celf)<br>• Cyfle i fynegi hunaniaeth (e.e. addurno ei hystafell)<br>• Mae cael ei harian poced ei hun yn helpu i hybu annibyniaeth<br>• Eiriolwr ar gael pe bai angen cefnogaeth ar Kaira i fynegi ei barn<br>• Ei galluogi hi i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau (e.e. cyfarfod tŷ wythnosol) | |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob budd sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 4 marc.<br>Gellir cael marciau drwy ddarparu naill ai cymysgedd o fuddion emosiynol neu gymdeithasol; neu gellir cael marciau llawn drwy ddarparu dim ond 4 o fuddion emosiynol derbyniol neu 4 cymdeithasol derbyniol.<br><br>**Cymdeithasol**<br>• Cyfle i ymwneud â phlant a phobl ifanc eraill<br>• Cefnogi ei gilydd a chael cefnogaeth<br>• Cymryd cyfarwyddyd gan bobl eraill sy'n brofiadol<br><br>**Emosiynol**<br>• Datblygu hunanhyder<br>• Adeiladu ymdeimlad o feistrolaeth / cyflawniad dros y gweithgaredd<br>• Cael hwyl a mwynhau / ymlacio<br>• Gadael iddi fod yn blentyn | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Goresgyn rhwystredigaeth a phryder (e.e. ofn cwympo/syrthio)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob canlyniad sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Dim ond Dyfan sy'n gwybod / ddim yn monitro sgil effeithiau meddyginiaeth<br>• Risg y gallai Kaira gael gorddos<br>• Risg y gallai Kaira gael gwrtharwyddion/rhyngweithiadau â meddyginiaethau eraill<br>• Posibilrwydd o adwaith alergaidd gan Kaira<br>• Effaith ar hunan-ddelwedd Kaira/<br>• Cyflwr Kaira yn gwaethygu/ gwneud yr acne yn waeth<br>• Colli ymddiriedaeth/ hyder mewn gweithwyr<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 004: 20 marc** | **30 marc** |

## Astudiaeth Achos – Osian and Gethin

Rydych chi'n mynd i ddarllen astudiaeth achos am Osian a Gethin sydd wedi symud i loches gyda'u mam yn ddiweddar.
Dyma'r bobl y byddwch chi'n darllen amdanyn nhw fel rhan o'r astudiaeth achos hon:

| | |
|---|---|
| Osian a Gethin | Dau frawd sy'n derbyn cefnogaeth yn y lloches |
| Alesha | Mam Osian ac Gethin |
| Owain | Tad Osian ac Gethin |
| Seren a Catrin | Gweithwyr Cefnogi Plant a Phobl Ifanc yn y lloches |

Dydy'r astudiaeth achos hon ddim yn seiliedig ar sefydliad nac unigolion go iawn.

Mae Alesha wedi dod i loches gyda'i dau fab, Osian, 4 oed a Gethin, 8 oed, ar ôl gadael ei phartner, Owain, sef tad y plant. Mae'r lloches yn dŷ diogel sy'n gartref preswyl ac mae'n cefnogi menywod a phlant sydd wedi profi cam-drin domestig. Owain oedd yn rheoli'r arian i gyd ac roedd hyn yn gwneud prynu bwyd iach yn anodd. Mae'r plant dros eu pwysau ac mae Alesha yn poeni am effaith y gamdriniaeth ar eu hymddygiad a'u hiechyd corfforol.

Roedd Owain fel arfer yn aros tan oedd y plant o'r golwg cyn cam-drin Alesha yn gorfforol ac yn eiriol ond roedd y ddau blentyn wedi gweld a chlywed hyn yn digwydd. Roedden nhw wedi gweld cleisiau ar freichiau a choesau eu mam er ei bod hi'n ceisio eu cuddio. Gwnaeth Owain fygwth lladd Alesha pe bai hi fyth yn ei adael. Un noson, roedd Gethin yn sychedig ac felly aeth i lawr y grisiau i gael diod. Cerddodd i mewn ar ei dad yn brifo ei fam. Ceisiodd Gethin atal trais ei dad. Er iddyn nhw geisio gadael ar sawl achlysur, y digwyddiad hwn oedd trobwynt Alesha. Symudodd hi a'i phlant i'r lloches ar ôl cael cefnogaeth gan yr heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, ymwelydd iechyd y teulu a sefydliad trydydd sector (gwirfoddol).

Mae Alesha yn parhau i fod â chyfrifoldeb rhiant dros ei phlant yn y lloches. Ar y diwrnod cyntaf, mae Seren a Catrin, Gweithwyr Cefnogi Plant a Phobl Ifanc, yn cyflwyno'u hunain i Osian, Gethin ac Alesha. Mae'r ddwy yn groesawgar ac yn cymryd eu hamser i esbonio eu rolau. Mae Seren yn mynd â'r teulu at yr ystafell chwarae ac mae hi'n sylwi bod Osian a Gethin yn bryderus. Er gwaethaf hyn, mae'n ymddangos bod gan y ddau ddiddordeb mewn mynd i mewn i'r ystafell chwarae, sy'n gynnes, yn lân ac yn olau. Mae'r lloches wedi ymrwymo i'r Cynnig Rhagweithiol felly mae arwyddion dwyieithog ac amrywiaeth o lyfrau darllen Cymraeg a Saesneg. Mae lluniau ar y waliau ac amrywiaeth o deganau. Mae lle i storio offer fel sgwteri a pheli pêl-droed, yn ogystal â man tawel wrth ymyl ar gyfer darllen, gorffwys ac ymlacio. Mae'r plant eraill yn gyfeillgar tuag atyn nhw.

Mae Osian a Gethin yn cael gweld man lle gallan nhw beintio a lluniadu. Mae Osian yn dal yn dynn yn ei fam ac yn dechrau gofidio os yw hi'n gadael ei ochr, hyd yn oed am gyfnod byr. Mae Alesha'n mynd yn rhwystredig ac yn dweud wrth Seren "Mae e wastad fel hyn". Yna, mae Osian yn dal yn Gethin, sy'n colli ei dymer ac yn dynwared ei dad drwy ddweud wrth Osian am roi'r gorau i grio fel babi ac am 'ymddwyn fel dyn'. Mae Gethin yn gwthio Osian yn ymosodol ac yn rhedeg allan o'r ystafell chwarae. Mae hyn yn ychwanegu at ofid Osian. Mae Catrin yn aros gydag Alesha ac Osian tra bod Seren yn mynd i chwilio am Gethin. Mae Alesha yn dechrau crïo ac yn dweud ei bod hi'n poeni am y plant yn ymgartrefu mewn lloches. Mae hi wastad wedi cael trafferth sefydlu trefn gyson.

Mae Catrin yn cysuro Alesha ac yn ei hannog i gymryd rhan mewn gweithgaredd chwarae creadigol ar y cyd drwy awgrymu ei bod hi'n peintio llun gydag Osian. Mae Alesha yn gadael i Osian ddewis beth i'w beintio a pha liwiau i'w defnyddio. Mae Osian yn peintio llun ohono ef, Gethin ac Alesha ond dydy e ddim yn cynnwys ei dad.  Mae'r ddau yn mwynhau'r profiad o beintio. Yn ystod y gweithgaredd hwn, mae Catrin yn manteisio ar y cyfle i siarad ag Osian ac Alesha am pam ei fod wedi cynhyrfu. Maen nhw'n trafod camau bach y gallan nhw eu cymryd i gefnogi Osian i chwarae gyda phlant eraill heb i’w fam a Gethin fod yno. Mae Catrin yn gofyn i Osian ac Alesha sut bydden nhw'n teimlo petai Osian yn treulio pum munud yn yr ystafell chwarae heb ei fam. Mae Osian ac Alesha'n cytuno y byddan nhw'n rhoi cynnig ar hyn y diwrnod canlynol. Ar ôl y gweithgaredd, mae Alesha a Catrin yn trafod sut i roi trefn gyson ar waith fel amser bwyta penodol, amser codi, amser gwely ac amser yn ystafell y teulu i orffwys a chael amser tawel.

Mae Seren yn dod o hyd i Gethin ac mae e'n crio ac yn taro ei ben yn erbyn wal yr ardd.  Mae Seren yn gofyn yn ddigynnwrf ac yn dawel i Gethin beidio â tharo ei ben yn erbyn y wal. Mae hi'n rhoi cyfle iddo siarad am y rheswm pam ei fod wedi gwthio ei frawd yn yr ystafell chwarae. Mae Gethin yn dweud bod un o'r plant yn yr ystafell chwarae wedi galw enw cas arno a bod hynny wedi'i gynhyrfu. Mae'n dweud bod hyn yn digwydd yn aml yn yr ysgol yn enwedig yn y gwersi Addysg Gorfforol. Mae'n credu bod hyn oherwydd ei fod dros bwysau a dydy e ddim yn hoffi sut mae hyn yn gwneud iddo deimlo. Mae Seren yn cysuro Gethin drwy ddweud y bydd hi'n siarad â'r plentyn am alw enw cas arno oherwydd mae'n bwysig bod pawb yn parchu ei gilydd ac yn bod yn garedig gyda'i gilydd a ddim yn brifo ei gilydd. Mae Gethin yn cynhyrfu ac yn crïo. Mae'n dweud ei fod yn casáu pan oedd ei dad yn brifo ei fam ond doedd e ddim yn gwybod sut i'w atal. Yr unig dro wnaeth e geisio ei atal, gadawodd ei fam gyda nhw a nawr efallai fydd e byth yn gweld ei dad eto. Mae'n dweud mai ei fai ef yw popeth.

Mae Seren yn defnyddio iaith sy'n briodol i oedran i ddweud wrth Gethin nad ef sydd ar fai. Dydy'r ffaith bod ei dad yn dreisgar ddim yn golygu y bydd ef hefyd. Gall Gethin ddewis pwy mae e eisiau bod a sut mae e'n trin pobl eraill. Mae Seren yn ei gysuro drwy ddweud ei fod yn ddiogel a gall y lloches a'i fam ei helpu â'r hyn sy'n ei boeni. Yna mae hi'n gofyn iddo beth mae e'n hoffi ei wneud. Mae'n dweud ei fod yn hoffi chwarae tu allan a’i fod yn mwynhau pêl-droed a chwarae ar ei sgwter. Maen nhw'n trafod syniadau chwarae corfforol ac amgylcheddol eraill fel trampolinio a mynd i'r parc cyfagos. Mae Seren yn esbonio y bydd y lloches ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda Gethin a'i fam i gynnwys gweithgareddau sy'n ystyrlon iddo yn ei gynllun personol. Gallan nhw hefyd archwilio cefnogaeth o ran bwyta'n iach os mai dyna fyddai Gethin yn ei hoffi.

Maen nhw'n eistedd y tu allan am gyfnod tan fod Gethin yn teimlo'i fod yn gallu dychwelyd i'r ystafell chwarae. Bydd Seren a Catrin yn cofnodi'r hyn a wnaethon nhw ei arsylwi am ddatblygiad Osian a Gethin yn ystod y sesiwn chwarae.

# Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Osian and Gethin

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set A Osian and Gethin | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 004: Iechyd a llesiant (plant a phobl ifanc)** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae Gethin wedi'i symud oddi wrth gam-drin domestig<br>• Mae Seren a Gethin yn sôn am fwyta'n fwy iach<br>• Mae Seren a Gethin yn trafod syniadau am weithgareddau corfforol/ymarfer corff<br>• Bydd y lloches/asiantaethau yn datblygu/cytuno ar gynllun personol i fodloni anghenion Gethin<br>• Mae'r lloches yn cynnig cefnogaeth o ran trefn gyson/amser bwyd/amser gwely/strwythur<br>• Mae Seren yn ymyrryd pan mae Gethin yn hunan-niweidio/gofyn iddo beidio â tharo ei ben yn erbyn y wal<br>• Mae Seren yn cysuro Gethin drwy ddweud y bydd hi'n siarad â'r plentyn a alwodd enw cas arno/oedd yn ei fwlio<br>• Mae Seren yn siarad â Gethin am sut mae'n ymddwyn â phlant eraill<br>• Mae Seren yn helpu Gethin i gydnabod y gall e dyfu i fod yn wahanol i'w dad<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Rhowch 1 marc** am bob egwyddor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Llais a rheolaeth<br>• Llesiant<br>• Cydgynhyrchu<br>• Gweithio amlasiantaethol | 2 farc |
| 3. | **Rhowch 1 marc** am bob agwedd hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Ble maen nhw'n byw/os gallan nhw adael y wlad<br>• Sut maen nhw'n cael eu haddysgu<br>• Eu cysylltiadau â theulu a ffrindiau<br>• Gofal iechyd brys a rheolaidd<br>• Triniaeth a llawfeddygaeth feddygol<br>• Eu crefydd, os o gwbl<br>• Sut bydd y gofal a'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Iechyd a llesiant<br>• Diogelwch<br><br>**Gellir derbyn atebion sy'n benodol i gyfrifoldebau yn y lloches hefyd**<br>• Canlyniadau datganedig Osian a Gethin ar gyfer eu cynllun personol<br>• Dewisiadau Osian a Gethin<br>• Gofal a chymorth sydd ei angen ar Osian a Gethin<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Hybu arferion plentyn-ganolog<br>• Hybu hawliau Gethin ac Osian<br>• Hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (e.e. mae Seren yn dweud y bydd hi'n siarad â'r plentyn am alw enwau)<br>• Parchu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac ymateb yn briodol (e.e. sgwrs Seren yn yr ardd)<br>• Nodi gweithgareddau sy'n ystyrlon ac yn hwyl iddyn nhw er mwyn hybu datblygiad corfforol/cymdeithasol/emosiynol (e.e. Osian yn peintio llun o'i deulu)<br>• Galluogi mynediad at ymyrraeth gynnar i ddarparu gofal a chymorth priodol<br>• Cefnogi dewis, llais a rheolaeth (e.e. trafodaeth ag Osian o ran aros yn yr ystafell chwarae heb Alesha a Gethin)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 5. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae gweithwyr gofal a chymorth yn rhoi cyngor ac arweiniad ar ddeiet da/bwyta'n iach/maeth/hydradu<br>• Mae gweithwyr gofal a chymorth yn siarad â Gethin am weithgareddau corfforol y byddai'n hoffi eu gwneud (e.e. trampolinio)<br>• Mae'r amgylchedd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol/sgwteri a pheli pêl-droed yn yr ystafell chwarae<br>• Mae gweithwyr gofal a chymorth yn annog chwarae/cymryd rhan mewn datblygiad creadigol (e.e. peintio) | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae'r amgylchedd yn rhoi cyfle i gael amseroedd tawel/ymlacio<br>• Mae'r lleoliad yn cefnogi o ran amser bwyta penodol/bwyta'n iach<br>• Mae'r lleoliad yn cefnogi o ran amser gwely penodol/trefn cysgu dda<br>• Mae'r lleoliad yn cefnogi o ran trefn codi yn y bore/gofal personol<br>• Mae'r lleoliad yn cyfeirio at wasanaethau gofal iechyd<br>• Mae cefnogaeth gan ymwelydd gofal iechyd<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 6. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Helpu Alesha i chwarae rhan ganolog yn iechyd a llesiant ei phlant<br>• Gallai gynyddu hunanhyder Alesha yn ei rôl fel rhiant.<br>• Annog Alesha a'r plant i feithrin llais a rheolaeth<br>• Hybu ymlyniad diogel a bondio rhwng rhiant a phlentyn<br>• Cynyddu gwydnwch y teulu<br>• Hybu dull person-ganolog/plentyn-ganolog<br>• Hybu hawliau'r plentyn a'r rhiant<br>• Cefnogi datblygiad hunaniaeth fel 'teulu'<br>• Cefnogi dull cydgynhyrchu<br>• Hybu perthynas gadarnhaol rhwng y plant ac Alesha/canmoliaeth gadarnhaol/hunan-barch<br>• Hybu datblygiad/cyfathrebu/iaith/ymddygiad y plant<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 7. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Hybu iechyd a llesiant emosiynol/corfforol/seicolegol<br>• Helpu Osian i fynegi ei emosiynau (e.e. peidio â chynnwys dad yn y llun)<br>• Helpu Osian i brosesu/gwneud synnwyr o'i sefyllfa<br>• Cynyddu hunan-barch<br>• Hybu archwilio hunaniaeth<br>• Annog datblygu'r sgiliau echddygol manwl/cydsymud llaw a llygaid<br>• Gallai leddfu pryderon Osian/hybu ymlacio/tawelu<br>• Annog datblygiad cymdeithasol<br>• Datblygu galluoedd a thalentau/sgìl artistig<br>• Hybu dewis/gallu dewis pa liwiau i'w defnyddio<br>• Helpu Osian i fwynhau ei le ei hun/bod ar ei ben ei hun/ hybu ei annibyniaeth | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mae'n caniatáu arsylwi cychwynnol/casglu gwybodaeth o gyfnodau datblygu/cerrig milltir allweddol/iaith/ymddygiad<br>• Helpu i nodi anghenion/ yr ymyriadau/partneriaethau sydd eu hangen yn gynnar<br>• Llywio'r broses o gynllunio personol<br>• Cyfiawnhau'r camau a gymerwyd o ganlyniad i arsylwadau, cofnodi<br>• Cefnogi diogelu Osian a Gethin<br>• Mae'n rhan o rôl a chyfrifoldebau Seren a Catrin/bodloni safonau proffesiynol<br>• Hybu cysondeb o ran gofal/rhannu gwybodaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 9. | **Rhowch 1 marc** am bob nodwedd hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae'n dŷ/lleoliad diogel/lleoliad heb ei ddatgelu<br>• Mae gweithwyr yn y lloches/ darparu gweithwyr cefnogi/24 awr<br>• Mae'r gweithwyr/plant eraill yn gyfeillgar<br>• Mae'n agos at gyfleusterau lleol (e.e. parc cyfagos)<br>• Mae gardd yno<br>• Cynnes, glân a llachar (e.e. teganau)<br>• Man ar gyfer gweithgareddau (e.e. peintio)<br>• Mannau ar gyfer amser tawel/darllen/ysgrifennu/ymlacio<br>• Lluniau ar y wal<br>• Arwyddion dwyieithog/Cynnig Rhagweithiol<br>• Amrywiaeth o offer chwarae ar gyfer oedrannau/anghenion/diddordebau e.e. sgwteri/llyfrau<br>• Amrywiaeth o lyfrau Cymraeg a Saesneg<br>• Mae gan Alesha a'r teulu eu hystafell eu hunain<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am sut mae hybu trefnau cadarnhaol yn cefnogi datblygiad pobl ifanc.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â Kaira.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am sut mae hybu trefnau cadarnhaol yn cefnogi datblygiad pobl ifanc.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng hybu trefnau cadarnhaol a datblygiad Kaira.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am sut mae hybu trefnau cadarnhaol yn cefnogi datblygiad pobl ifanc.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu hybu trefnau cadarnhaol ag agweddau ar ddatblygiad Kaira.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am sut mae hybu trefnau cadarnhaol yn cefnogi datblygiad pobl ifanc.<br>Mae'r ymateb yn rhoi enghreifftiau a/neu esboniad clir ynglŷn â sut mae hybu trefnau cadarnhaol wedi cefnogi agweddau ar ddatblygiad Kaira.<br><br>Mae'r atebion yn debygol o gynnwys<br>• Mae amseroedd gwely rheolaidd/mwy o gwsg yn cefnogi iechyd a'r gallu i ganolbwyntio (e.e. ysgol)<br>• Mae arferion rheolaidd eraill (e.e. prydau bwyd rheolaidd) yn cefnogi iechyd/datblygiad cyffredinol/diogelwch<br>• Mae ffiniau sydd wedi'u gosod yn gallu cefnogi ymddygiad cadarnhaol<br>• Mae cyfarfodydd tŷ rheolaidd yn gallu cefnogi amrywiaeth o sgiliau cymdeithasol fel cyfaddawdu, cymryd tro, 'rhoi a derbyn', datrys gwrthdaro<br>• Cyfleoedd i ddysgu'n fwy effeithiol (e.e. lle ac adnoddau i gwblhau gwaith cartref)<br>• Cyfleoedd i ymlacio a gwneud gweithgareddau sy'n briodol i'w hoedran (e.e. yn wahanol i'r amgylchedd gartref lle roedd ganddi hi gyfrifoldebau i ofalu am ei brodyr iau)<br>• Cyfleoedd i ddatblygu ei sgiliau, ei doniau a'i hunanhyder ei hun (e.e. dosbarth celf)<br>• Cyfleoedd i gymdeithasu â phobl ifanc eraill<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob canlyniad sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc. | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Torri ei ddyletswydd gofal/cod ymddygiad/ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt<br>• Gallai wynebu achos disgyblu<br>• Gallai effeithio ar ei gofrestriad proffesiynol/cael ei ddadgofrestru<br>• Gallai golli ei swydd<br>• Gallai pobl ifanc eraill ddechrau rhoi ceisiadau iddo<br>• Gallai effeithio ar berthynas Kaira â Dyfan (e.e. colli hyder ynddo/mynd yn rhy agos)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 004: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Osian and Gethin

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set B Osian and Gethin | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 004: Iechyd a llesiant (plant a phobl ifanc)** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae Gethin mewn amgylchedd diogel/oddi wrth gam-drin domestig/diogelu<br>• Cefnogaeth o ran llesiant corfforol (e.e. mae Seren a Gethin yn sôn am drampolinio/mynd i'r parc)<br>• Cefnogaeth o ran deiet/bwyta'n iach<br>• Mae Seren yn deall pryderon Gethin o ran ei dad/yn dweud wrth Gethin y gall pethau fod yn wahanol (e.e. Seren yn siarad â Gethin am ymddwyn fel ei dad)<br>• Mae Seren yn annog Gethin i fynegi emosiynau mewn ffordd ddiogel (e.e. mae Gethin yn datgelu'r achos o alw enwau)<br>• Mae Seren a Gethin yn cael sgwrs ar eu pen eu hunain/mewn man tawel/parch at breifatrwydd<br>• Mae Seren yn parchu'r hyn sy'n bwysig i Gethin/ymatebion priodol (e.e. mae Gethin yn beio'i hun am y teulu'n gadael eu cartref)<br>• Mae Seren yn mynd i'r afael â phryderon Gethin am ei hunan-barch/ei bwysau/hunanddelwedd (e.e. maen nhw'n sôn am ymarfer corff/bwyta'n iach)<br>• Mae cynllun personol i fodloni anghenion Gethin/anghenion cyfannol<br>• Mae Seren yn holi Gethin am yr hyn mae e'n hoffi ei wneud/ei hoffterau<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Rhowch 1 marc** am bob egwyddor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Llais a rheolaeth<br>• Atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• Cydgynhyrchu<br>• Gweithio amlasiantaethol | 2 farc |
| 3. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Hybu hawliau dynol Gethin, h.y. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)/egwyddor llais a rheolaeth<br>• Dangos ei werth i Gethin a'i fewnbwn<br>• Gosod Gethin yng nghanol ei ofal a'i gymorth/arfer plentyn-ganolog<br>• Nodi'r hyn sy'n bwysig i Gethin/ gallu mynegi ei syniadau, ei safbwyntiau a'i brofiadau<br>• Galluogi datblygu/darparu ymatebion/gofal a chymorth priodol<br>• Hybu perchenogaeth Gethin o'r canlyniadau arfaethedig/yr hyn y mae e eisiau i ddigwydd<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Gofyn i'r teulu/gofalwr<br>• Gofyn i'r plentyn ei hun<br>• Cynnig dewis o weithgareddau ar gyfer mynegi eu hunain h.y. lluniadu/chwarae rôl<br>• Arsylwi sut mae plant yn ymateb i Gymraeg neu Saesneg<br>• Arsylwi pa iaith/dulliau cyfathrebu mae plant yn eu defnyddio gyda'i gilydd/gweithwyr<br>• Arsylwi a yw plant yn defnyddio llyfrau Cymraeg neu Saesneg<br>• Arsylwi ym mha iaith mae plant yn ysgrifennu<br>• Arsylwi sut mae plant yn mynegi syniadau h.y. ysgrifennu/celf/actio ymatebion<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 5. | **Rhowch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad emosiynol.<br>Nid yw'r ymateb yn gwneud cysylltiadau penodol rhwng profiad Osian a Gethin o gam-drin domestig a'u datblygiad emosiynol.<br>**Rhowch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad emosiynol.<br>Mae'r ymateb yn ceisio gwneud cysylltiadau rhwng profiad Osian a Gethin o gam-drin domestig a'u datblygiad emosiynol.<br>**Rhowch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad emosiynol.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau â sut gallai profiad Osian a Gethin o gam-drin domestig effeithio ar eu datblygiad emosiynol. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | **Rhowch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddatblygiad emosiynol.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau clir a manwl â sut gallai profiad Osian a Gethin o gam-drin domestig effeithio ar eu datblygiad emosiynol.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Mae dod i gysylltiad ag iaith y tad (e.e. ymddwyn fel dyn) wedi arwain at ddysgu ymddygiad/iaith ymosodol<br>• Mae ymddygiad ymosodol Gethin o wthio ei frawd yn ganlyniad i'w ddealltwriaeth o fodelau rôl gwrywaidd/ei dad<br>• Mae Osian wedi profi amgylchedd cartref anniogel/ effaith negyddol ar ei allu i ffurfio ymlyniadau diogel/wedi arwain ato ddim eisiau chwarae yn annibynnol<br>• Mae Osian a Gethin wedi profi newid yn symud i mewn i'r lloches sy'n debygol o achosi pryder<br>• Mae Gethin yn teimlo'n euog am iddo geisio helpu ei fam/atal ei dad/meddwl bod ei dad yn ddig wrtho<br>• Mae diffyg sicrwydd ynglŷn â'r dyfodol yn golygu bod Gethin yn gweld colli ei dad/nid yw'n gwybod os bydd yn ei weld eto.<br>• Mae teimladau Gethin am ei bwysau/hunan-barch isel yn deillio o ddeiet gwael o ganlyniad i reolaeth ei dad dros arian y teulu<br>• Mae Osian yn gallu mynegi ei emosiynau trwy gelf (e.e. peidio â pheintio ei dad yn y llun)<br>• Mae'r plant wedi dangos rhywfaint o wydnwch tuag at y sefyllfa/symud i'r lloches (e.e. cytunodd Osian i fod ar ei ben ei hun yn yr ystafell chwarae/nododd Gethin beth mae e'n hoffi ei wneud)<br>• Dydy Gethin ddim yn mynegi ei emosiynau mewn ffordd ddiogel gan nad yw'n teimlo ei fod wedi gallu rheoli'r hyn sydd wedi digwydd yn ei fywyd<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 6. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Helpu i leihau effaith niwed ar iechyd/llesiant/datblygiad/ atal risgiau/dirywiad pellach<br>• Lleihau'r ffactorau risg sy'n gallu bygwth datblygiad plentyn a pharhau i'w bywyd fel oedolyn, h.y. problemau iechyd meddwl a chorfforol, troseddu, camddefnyddio sylweddau neu ailadrodd patrymau camdriniaeth a niwed. | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Teilwra gofal a chymorth<br>• Rhoi dewis, llais a rheolaeth i'r teulu o ran y ffordd mae ymyrryd/gweithio mewn partneriaeth yn mynd i gael eu cyflwyno<br>• Sicrhau bod y teulu'n mynediad at ofal a chymorth cyn gynted â phosibl<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc<br><br>• Rhoi teimladau o ddiogelwch a sicrwydd<br>• Rhoi ymdeimlad o sefydlogrwydd<br>• Mae Osian yn teimlo'n hyderus y bydd ei anghenion yn cael eu bodloni h.y. gallan nhw adael ac yna dychwelyd i fan diogel a chysurlon<br>• Gallu helpu i feithrin bond cryf â'u rhiant/gofalwr<br>• Cefnogi datblygu deallusrwydd emosiynol<br>• Cefnogi meithrin sgiliau cymdeithasol/wynebu sefyllfaoedd cymdeithasol newydd yn annibynnol.<br>• Cefnogi'r plentyn i fod yn wydn yn wyneb anawsterau<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 8. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc<br><br>• Mae Seren a Catrin yn cyflwyno'u hunain i Alesha/y plant<br>• Mae Seren a Catrin yn esbonio eu rolau<br>• Mae Catrin yn cysuro Alesha ynglŷn ag Osian yn cynhyrfu<br>• Mae Catrin yn ymateb i bryder/diffyg trefn Alesha<br>• Mae Catrin yn annog Alesha i gymryd rhan mewn chwarae creadigol<br>• Mae Seren yn rhoi lle i Gethin fynegi ei hun/mae e'n rhedeg allan o'r ystafell chwarae<br>• Mae Seren yn cysuro Gethin drwy ddweud y bydd e'n ddiogel/nad yw e ar fai<br>• Mae Seren yn cysuro Gethin drwy ddweud bod ganddo ddewisiadau/gall e fod yn wahanol i'w dad<br>• Mae Seren yn cysuro Gethin drwy ddweud y bydd hi'n siarad â'r plentyn am alw enwau<br>• Mae'r ddau weithiwr yn gweithio fel tîm h.y. mae Catrin yn cefnogi Osian ac Alesha/mae Seren yn cefnogi Gethin<br>• Mae Seren yn cymryd diddordeb yn hoff bethau/cas bethau Gethin/ yn gofyn iddo beth mae e'n hoffi ei wneud | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae Catrin yn siarad ag Osian ac Alesha am gamau bach y gallan nhw eu cymryd (e.e. Osian yn ceisio chwarae ar ei ben ei hun)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Helpu Osian a Gethin i deimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi<br>• Parchu nodweddion wedi'u diogelu/unigol/unigryw Osian a Gethin<br>• Helpu i gynyddu hunan-barch Osian a Gethin<br>• Helpu Osian a Gethin i deimlo wedi eu meithrin/eu bod yn derbyn gofal (e.e. teimlo'n ddiogel)<br>• Hybu teimlad o ddiogelwch (e.e. lle diogel ar ôl trawma ac aflonyddwch)<br>• Bodloni anghenion iechyd a llesiant (e.e. cefnogaeth o ran bwyta'n iach)<br>• Hybu llesiant emosiynol (e.e. mynd i'r afael â'r achos o alw enwau)<br>• Hybu arferion plentyn-ganolog/ ennyn diddordeb plant<br>• Gallai leihau'r tebygolrwydd y byddan nhw eisiau gadael/rhedeg i ffwrdd.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 10. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Cefnogi iechyd seicolegol a meddyliol (e.e. strwythur i'r diwrnod)<br>• Cefnogi bondio rhwng rhiant a phlentyn (e.e. amser teulu)<br>• Gosod disgwyliadau (e.e. pryd maen nhw'n mynd i'r gwely/brwsio dannedd)<br>• Creu amgylchedd diogel/lleihau ansicrwydd<br>• Hybu datblygiad/ymddygiad (e.e. amseroedd gwely a chysgu)<br>• Cefnogi hunan-barch a hyder<br>• Hybu annibyniaeth/gwneud pethau drostyn nhw eu hunain (e.e. codi yn y bore)<br>• Hybu ymlyniadau diogel/meithrin perthynas deuluol o ansawdd<br>• Hybu dealltwriaeth Osian a Gethin o rôl/cyfrifoldeb rhiant eu mam | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 11. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Cefnogi datblygiad deallusol h.y. sgiliau datrys problemau/gwneud penderfyniadau/rhesymu (gwybyddol)<br>• Cefnogi datblygiad corfforol, h.y. stamina/cydbwysedd/ cydsymud.<br>• Cefnogi datblygiad cymdeithasol, h.y. dysgu sut i ddatrys gwrthdaro/rhannu a chyfleu barn/cyd-drafod<br>• Gosod rheolau/disgwyliadau<br>• Cefnogi datblygiad emosiynol, h.y. archwilio a mynegi emosiwn/ meithrin empathi/ mynegi ofnau a phryder<br>• Cefnogi sgiliau lleferydd/iaith/cyfathrebu<br>• Datblygu dealltwriaeth plentyn o'r byd o'i gwmpas/chwarae rôl/sefyllfaoedd 'actio'<br>• Hybu mwynhad o wahanol amgylcheddau a gweithgareddau/(e.e. chwarae yn yr awyr agored a dan do)<br>• Paratoi ar gyfer amgylchedd yr ysgol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 004: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Osian and Gethin

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set C Osian and Gethin | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 004: Iechyd a llesiant (plant a phobl ifanc)** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc. Gellir ennill marciau drwy roi naill ai cymysgedd o enghreifftiau ar gyfer Osian neu Alesha; neu gellir ennill marciau llawn drwy roi naill ai 3 enghraifft ar gyfer Osian neu 3 enghraifft ar gyfer Alesha.<br><br>• Mae gan Osian ddewis o weithgareddau ystyrlon a llawn mwynhad (e.e. peintio)<br>• Mae gan yr ystafell chwarae amrywiaeth o deganau i Osian ddewis ohonyn nhw<br>• Mae Osian yn mynegi ei farn/yn cael ei gynnwys yn y drafodaeth o ran problemau ymlyniad/pryd bydd yn aros yn yr ystafell chwarae heb Alesha a Gethin<br>• Mae Osian yn mynegi ei hun drwy beintio llun o'i deulu/nid yw'n cynnwys ei dad<br>• Mae'r ystafell chwarae yn cynnig dewis o ddeunyddiau darllen Cymraeg a Saesneg<br>• Mae Alesha yn parhau i fod â chyfrifoldeb rhiant/yn gyfrifol am y plant/mae Catrin yn ymateb i bryderon Alesha o ran diffyg trefn gyson/mae Catrin yn ymateb i bryderon Alesha o ran ymgartrefu yn y lloches<br>• Mae byw yn y lloches/gadael cam-drin domestig yn enghraifft o lais a rheolaeth i Alesha<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Rhowch 1 marc** am bob egwyddor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• Llesiant<br>• Cydgynhyrchu<br>• Gweithio amlasiantaethol | 2 farc |
| 3. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Hybu hawl Alesha fel rhiant<br>• Parch at eu hunaniaeth fel teulu<br>• Sefydlu ffiniau gyda'r plant | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cysondeb gofal a chymorth/mae gan Alesha wybodaeth am eu trefn ddyddiol (e.e. amser gwely, amser bwyta).<br>• Alesha sydd â chyfrifoldeb cyffredinol a thymor hir dros eu hiechyd a'u llesiant<br>• Gall gwybodaeth/profiad Alesha fod yn sail i'r broses cynllunio personol<br>• Atgyfnerthu rôl Alesha fel rhiant<br>• Helpu i feithrin hyder/hunan-barch Alesha<br>• Hybu annibyniaeth Alesha<br>• Annog parch gan y plant tuag at Alesha/modelu rôl cadarnhaol/ei gweld hi fel y prif riant<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Cael trafferth ymateb i emosiynau pobl eraill/mae ei fam a Gethin yn mynd yn rhwystredig gydag ef yn yr ystafell chwarae<br>• Cael trafferth gwrando ar eraill/mae Alesha wedi cael trafferth sefydlu trefn gyson<br>• Cael trafferth cyfathrebu ag oedolion<br>• Gwneud ati/ mynegi rhwystredigaeth drwy ymddygiadau (e.e. dal yn dynn yn Alesha<br>• Defnyddio celf i brosesu/mynegi ei ddealltwriaeth/profiadau (e.e. peidio â pheintio ei dad)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 5. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Symud y plant oddi wrth niwed a chamdriniaeth/eu helpu nhw i deimlo'n ddiogel<br>• Datblygu trefn gyson/darparu diogelwch a strwythur<br>• Rhoi dewis, llais a rheolaeth iddyn nhw (e.e. gweithgareddau i gefnogi eu llesiant)<br>• Dysgu/cefnogi gwahanol ffyrdd o fynegi teimladau<br>• Cryfhau bond/perthynas rhwng plentyn a rhiant<br>• Meithrin hunan-barch/hyder/annibyniaeth<br>• Cefnogaeth o ran bwyta'n iach/helpu Gethin i deimlo'n well amdano'i hun<br>• Lleddfu pryder/am sefyllfa/ ansicrwydd<br>• Mae gan y teulu gyfle i feithrin perthnasoedd newydd gyda phreswylwyr | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae gan y teulu gyfle i sefydlu/ailafael mewn perthnasoedd gyda theulu/ffrindiau sydd wedi ymbellhau<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 6. | **Rhowch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o ymlyniad a'i bwysigrwydd wrth feithrin a ffurfio perthnasoedd.<br>Nid yw'r ymateb yn gwneud cysylltiadau penodol rhwng profiad Osian a Gethin o gam-drin domestig a'u perthnasoedd.<br>**Rhowch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ymlyniad a'i bwysigrwydd wrth feithrin a ffurfio perthnasoedd.<br>Mae'r ymateb yn ceisio gwneud cysylltiadau rhwng profiad Osian a Gethin o gam-drin domestig a'u perthnasoedd.<br>**Rhowch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ymlyniad a'i bwysigrwydd wrth feithrin a ffurfio perthnasoedd.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau â sut gallai profiad Osian a Gethin o gam-drin domestig effeithio ar eu gallu i feithrin perthnasoedd.<br>**Rhowch 4 marc am** ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ymlyniad a'i bwysigrwydd wrth feithrin a ffurfio perthnasoedd.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau clir a manwl â sut gallai profiad Osian a Gethin o gam-drin domestig effeithio ar eu gallu i ffurfio perthnasoedd<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Mae'n ymddangos bod Osian yn ofni cael ei adael/ofni ynghylch diogelwch ei fam gan arwain at anawsterau o ran cymdeithasu heb ei fam<br>• Mae symud yn sydyn i'r lloches yn debygol o fod wedi cynyddu pryder Osian (e.e. Osian yn crïo a ddim eisiau gadael ei fam/brawd)<br>• Osian a Gethin yn dystion i'r cam-drin domestig/cleisiau ar y fam wedi chwalu ymddiriedaeth/y gallu i ymddiried mewn eraill<br>• Gallai natur anrhagweladwy ymddygiad eu tad achosi pryder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol newydd<br>• Gallai dynwared/dysgu ymddygiadau (e.e. Gethin yn gwthio Osian) arwain at analluu i ddatrys gwrthdaro yn gyfeillgar | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Gallai dynwared iaith ei dad (e.e. ymddwyn fel dyn) arwain at anallu i ffurfio/cynnal cyfeillgarwch<br>• Gallai anhawster i drafod/cyfathrebu ag eraill arwain at anallu i ddelio â sefyllfaoedd heriol (e.e. Gethin yn rhedeg allan o'r ystafell chwarae)<br>• Gallai fod hunan-barch isel Gethin (e.e. dydy e ddim yn hoffi sut mae'n teimlo amdano'i hun) wedi arwain at ei ymateb o redeg allan o'r ystafell chwarae/osgoi pan gafodd ei fwlio (e.e. plentyn arall yn ei alw'n enw cas)<br>• Mae'r modd y mae Seren yn cysuro Gethin drwy ddweud nad oes rhaid iddo dyfu i fod fel ei dad yn hybu ffyrdd eraill o ymddwyn mewn ffordd gadarnhaol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Rhowch 1 marc** am bob asiantaeth hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Gwasanaethau cwnsela'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)<br>• Nyrs yr ysgol<br>• Meddyg teulu (GP)<br>• Nyrs meddygfa<br>• Gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol<br>• Staff ysgol ac addysg<br>• Gwasanaethau chwaraeon a hamdden yr awdurdodau lleol<br>• Sefydliadau plant a phobl ifanc trydydd sector (gwirfoddol)/sefydliadau i gefnogi bwyta'n iach<br>• Gwasanaethau eirioli plant a phobl ifanc<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 8. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Cefnogi Gethin i archwilio a mynegi emosiynau/ofnau a phryder<br>• Cefnogi Gethin i feithrin sgiliau cymdeithasol<br>• Darparu ffyrdd eraill i Gethin fynegi emosiynau/dewisiadau eraill yn lle ymddygiad ymosodol<br>• Cefnogi Gethin i feithrin empathi (e.e. mae Gethin yn dweud ei fod yn casáu pan oedd ei dad yn brifo ei fam)<br>• Gwneud i Gethin deimlo'n fwy cadarnhaol am ei hun/gallai gynyddu hunan-barch<br>• Rhoi dewis, llais a rheolaeth i Gethin/gall e ddewis pa weithgaredd i gymryd rhan ynddo | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Hybu urddas a pharch (e.e. mae'r gweithwyr yn gyfeillgar/yn cyflwyno eu hunain)<br>• Hybu'r cynnig rhagweithiol/ darganfod yr hyn sy'n well gan y plant o ran dull cyfathrebu ac iaith.<br>• Darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ar gyfer arddulliau dysgu gwahanol<br>• Gwrando ar yr hyn sy'n bwysig i blentyn ac ymateb yn briodol (e.e. gofid Gethin)<br>• Darparu gweithgareddau ystyrlon a llawn mwynhad sy'n hybu datblygiad corfforol/cymdeithasol/emosiynol (e.e. Osian yn peintio gyda'i fam)<br>• Argaeledd offer/teganau a llyfrau i'r plant chwarae gyda nhw/ rhoi dewis iddyn nhw<br>• Darparu amgylchedd diogel i'r plant chwarae/mynegi eu hunain (e.e. Seren yn atal Gethin rhag brifo ei ben)<br>• Helpu/annog plant i fynegi barn, pryderon/cwynion (e.e. mae Osian yn peintio llun o'i deulu)<br>• Rhoi mynediad at wasanaethau eirioli<br>• Annog plant i drin ei gilydd â pharch (e.e. mae Seren yn dweud y bydd hi'n mynd i'r afael â'r achos o alw enwau)<br>• Dull seiliedig ar gryfder/ canolbwyntio ar yr hyn y mae plentyn yn gallu ei wneud yn hytrach na'r hyn dydy e ddim yn gallu ei wneud (e.e. annog Osian i gymryd camau bach i fod yn fwy annibynnol)<br>• Dathlu llwyddiannau plant<br>• Cydnabod hunaniaeth bersonol/ddiwylliannol plant/ dathlu penblwyddi/gwyliau<br>• Ehangu diddordebau plant<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 10. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Cefnogi llesiant meddyliol/emosiynol (e.e. rhoi amser i blentyn neu berson ifanc fyfyrio ar yr hyn sy'n digwydd/wedi digwydd<br>• Rhoi cyfle i ddysgu arall (e.e. darllen)<br>• Rhoi'r cyfle am ymwybyddiaeth ofalgar/cyfnodau o lonyddwch/lleihau straen a phryder<br>• Annog amser ymlacio cyn cysgu/cefnogi ymddygiad cadarnhaol/trefn o ran cysgu<br>• Cefnogi gorffwys ar ôl ymarfer corfforol/chwarae | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cefnogi twf a datblygiad cyhyrau ac esgyrn<br>• Cefnogi Osian a Gethin i fwynhau bod ar eu pen eu hunain yn eu cwmni eu hunain yn ogystal â gydag eraill/ cefnogi ymlyniad/cymdeithasu<br>• Dangos parch a gwerth am breifatrwydd.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 11. | **Rhowch 1 marc** am bob mantais hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Meithrin hunanhyder<br>• Cyfle i brofi syniadau/defnyddio dychymyg/datrys problemau<br>• Lleihau gordewdra/risg o ordewdra<br>• Cryfhau cyhyrau ac esgyrn<br>• Eu helpu i ddatblygu cydsymud<br>• Cefnogi iechyd meddwl da<br>• Cefnogi cwsg<br>• Cefnogi cymryd risgiau mewn ffordd gadarnhaol<br>• Cyfle i chwarae gyda'i gilydd/gyda phlant eraill/meithrin perthnasoedd/sgiliau cymdeithasol<br>• Cyfle i chwarae ar eu pen eu hunain/datblygu gallu i ganolbwyntio/datblygu annibyniaeth<br>• Cyfle i brofi'r elfennau naturiol<br>• Cefnogi mynegi teimladau<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 004: 20 marc** | **30 marc** |

# Astudiaeth Achos – Harri

Rydych chi'n mynd i ddarllen astudiaeth achos am Harri sydd ar fin symud i mewn i leoliad preswyl dros dro o'r enw Hazel Grove.

Byddwch chi'n darllen am y bobl ganlynol fel rhan o'r astudiaeth achos hon:

| | |
|---|---|
| Harri | Y person ifanc sydd ar fin symud i mewn i Hazel Grove |
| Rhoswen | Mam Harri |
| Lowri | Gweithiwr allweddol yn Hazel Grove |
| Morgan | Gweithiwr allweddol yn Hazel Grove |
| Philip | Rheolwr cofrestredig yn Hazel Grove |

Dydy'r astudiaeth achos hon ddim yn seiliedig ar sefydliad nac unigolion go iawn.

Mae Harri yn 15 oed ac yn unig blentyn. Bu farw ei dad ddwy flynedd yn ôl ar ôl dos gormodol o gyffuriau. Mae ei fam, Rhoswen, wedi cael diagnosis o ganser ac yn mynd i'r ysbyty i gael llawdriniaeth fawr. Cymraeg yw iaith gyntaf Rhoswen, ac mae Harri yn ddwyieithog. Does dim aelodau teulu eraill fyddai'n gallu gofalu am Harri, felly mae'r teulu wedi cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gweithiwr cymdeithasol wedi cyfarfod â Rhoswen a Harri ac wedi llunio cynllun gofal a chefnogaeth sy'n cynnwys lleoliad dros dro yn Hazel Grove, lleoliad preswyl sy'n darparu gofal tymor byr i bobl ifanc â golwg ar eu dychwelyd adref neu eu paratoi am ofal maeth neu breswyl tymor hir.

Mae Rhoswen yn anhapus am Harri yn byw mewn cartref plant ar ôl darllen erthyglau newyddion am ofal gwael mewn cartref arall. Fodd bynnag, does dim lleoliadau maeth addas ar gael ac felly mae hi'n cytuno'n gyndyn i adael i Harri symud i Hazel Grove. Dydy Harri ddim eisiau bod 'mewn gofal' ond byddai'n well ganddo fod mewn lleoliad preswyl na gyda theulu arall. Mae rheolwr Hazel Grove yn ymweld â Harri a Rhoswen yn eu cartref. Maen nhw'n cytuno y bydd y lleoliad yn addas i anghenion Harri. Bydd anghenion Harri a'i opsiynau ar gyfer y dyfodol yn parhau i gael eu hasesu yn ystod ei gyfnod yn Hazel Grove. Bydd hefyd yn cael ei gefnogi i fynychu ei ysgol uwchradd sydd o fewn pellter teithio i'r lleoliad.

Mae ysgol Harri'n ffynhonnell bwysig o sefydlogrwydd yn ei fywyd. Mae ei athrawon yn gadarnhaol am ei agwedd at waith ysgol a'i siawns o lwyddo yn arholiadau'r flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, maen nhw'n dweud ei fod wedi bod yn eithaf encilgar ar ôl marwolaeth ei dad.

I sicrhau bod symudiad Harri i Hazel Grove yn digwydd mor esmwyth â phosibl, mae'r gweithiwr cymdeithasol yn trefnu mynd â Harri a Rhoswen i ymweld â Hazel Grove i edrych o gwmpas a gweld ei ystafell.

Yn Hazel Grove, mae'r gweithwyr allweddol Morgan a Lowri wedi cael eu dyrannu i weithio gyda Harri. Mae Lowri wedi dechrau gweithio yn y lleoliad yn ddiweddar ac wedi cwblhau'r rhaglen ymsefydlu. Hon yw swydd gyntaf Lowri mewn gofal preswyl felly bydd yn cysgodi Morgan ac yn gweithio ochr yn ochr ag ef; mae Morgan wedi gweithio yn y lleoliad ers pum mlynedd ac ef fydd gweithiwr allweddol Harri. Mae Lowri'n ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Mae Morgan wrthi'n dysgu Cymraeg a dim ond ychydig bach mae'n ei siarad ar hyn o bryd.

Mae'r ymweliad â Hazel Grove wedi'i drefnu ar ddiwrnod pan fydd Lowri a hefyd Morgan yn gweithio shifft. Yn anffodus, oherwydd ei salwch, dydy Rhoswen ddim yn gallu mynd. Ar ôl darllen nodiadau'r ymweliad cartref, mae Morgan a Lowri'n croesawu Harri a'i weithiwr cymdeithasol i'r cartref. Maen nhw'n cyflwyno eu hunain, yn dangos y lle i Harri a'i weithiwr cymdeithasol ac yn eu cyflwyno nhw i'r bobl ifanc a'r gweithwyr eraill. Mae Lowri'n sylwi bod Harri'n ymddangos yn anghyfforddus ac nad yw'n rhyngweithio â'r bobl ifanc sy'n bresennol.

Mae Lowri a Morgan yn dangos ystafell Harri iddo ac yn cymryd y cyfle i ddod i'w adnabod ychydig yn well. Maen nhw'n darganfod bod Harri'n poeni am iechyd ei fam ac mae Morgan yn gofyn i Harri a hoffai i Lowri fynd gydag ef i ymweld â hi'n rheolaidd tra ei bod hi yn yr ysbyty. Mae Harri'n dweud "hoffwn". Mae Harri hefyd yn poeni y bydd y bobl ifanc eraill yn y cartref yn gwybod sut gwnaeth ei dad farw. Yn y gorffennol, mae wedi cael ei fwlio oherwydd hyn. Mae Morgan yn tawelu meddwl Harri na fyddai'r staff byth yn rhannu gwybodaeth bersonol â phobl ifanc eraill. Mae Morgan yn dweud wrth Harri ei fod yn gwybod y byddai colli ei dad wedi bod yn anodd. Mae Harri'n nodio ac yn edrych i lawr ar y llawr. Mae Morgan yn rhoi ei law ar ysgwydd Harri ac yn tawelu ei feddwl y bydd holl staff Hazel Grove yn gweithio gyda'i fam, ei weithiwr cymdeithasol a'i ysgol i wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel ac yn cael gofal da.

Mae Lowri'n gofyn i Harri beth mae'n hoffi ei wneud y tu allan i'r ysgol. Mae Harri'n dweud ei fod yn chwarae pêl-droed gyda'i dîm lleol. Mae Lowri'n dweud ei bod hi hefyd yn chwarae pêl-droed ac yn gofyn a fyddai'n hoffi iddi ei helpu i fynd i sesiynau hyfforddi a gemau pan fydd yn Hazel Grove. Mae Harri'n falch iawn ei fod yn cael parhau i chwarae. Mae Lowri'n gofyn a hoffai help i ddod â mwy o eiddo o'i gartref ac i bersonoli ei ystafell. Mae ef yn falch ac yn cytuno.

Mae Morgan yn esbonio i Harri, pan fydd yn symud i Hazel Grove, y bydd yn gweithio gydag ef a gweithwyr eraill i ddatblygu cynllun personol. Mae Morgan yn awgrymu bod Lowri'n gwneud cofnod o'r arsylwadau a thrafodaethau allweddol o ymweliad Harri . Mae'n cynghori y bydd hyn yn ei helpu hi i gefnogi Harri a datblygu ei gynllun personol.

Yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw ar ôl i Morgan a Lowri adael, mae Rhoswen yn ffonio'r lleoliad i weld sut aeth yr ymweliad. Er bod y ffôn yn cael ei ateb yn Gymraeg mae'r atebwr yn esbonio nad oes siaradwr Cymraeg rhugl ar shifft, felly mae Rhoswen yn ymdrechu i barhau â'r sgwrs yn Saesneg. Mae hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnod dyddiol ac mae Lowri'n gweld hwn y diwrnod wedyn.

Mae Lowri'n cyfarfod â Philip, y rheolwr cofrestredig, i gael goruchwyliaeth. Mae hi'n sôn am yr ymweliad ddoe ac yn dweud ei bod hi'n pryderu bod Harri'n dawel ac yn encilgar iawn. Mae hi wedi bod yn meddwl am sut mae wedi ymdopi â marwolaeth ei dad a'i fod yn siŵr o fod yn bryderus am iechyd ei fam. Mae Philip wedi cadarnhau y byddai'n trafod y pryderon hyn gyda gweithiwr cymdeithasol Harri.

Mae Lowri'n sôn am y ffaith nad oedd siaradwr Cymraeg ar gael pan ffoniodd Rhoswen y lleoliad. Mae Lowri'n gofyn a fyddai'n ddefnyddiol rhoi gwybod i fam Harri pryd mae hi ar shifft.

Mae Philip yn helpu Lowri i adfyfyrio ar y camau sydd wedi cael eu cymryd i helpu Harri i deimlo'n fwy diogel, er enghraifft, drwy wneud yn siŵr ei fod yn gallu parhau i fynychu'r un ysgol, parhau i chwarae i'w dîm pêl-droed lleol ac ymweld â'i fam yn yr ysbyty. Cadarnhaodd Philip y byddai'n trafod y pryderon hyn â gweithiwr cymdeithasol Harri ac awgrymodd y byddai o gymorth pe bai'n cyfarfod â Lowri a Morgan gyda'i gilydd yn rheolaidd er mwyn

adolygu cynnydd Harri. Awgrymodd hefyd fod Lowri'n darllen am brofiadau pobl ifanc o brofedigaeth ac mae'n bwcio lle ar gwrs iddi.

# Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Harri

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set A Harri | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 005: Ymarfer Proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob peth a roddir hyd at uchafswm o 3 marc.<br>• Gwneud yn siŵr bod cofnodion personol pobl ifanc yn y lleoliad yn cael eu cadw'n ddiogel / yn unol â GDPR / Deddf Diogelu Data (2018)<br>• Peidio trafod Harri na'i deulu mewn mannau cyhoeddus<br>• Peidio trafod Harri na'i deulu ym mhresenoldeb pobl ifanc eraill yn y lleoliad<br>• Dilyn eu dyletswydd gofal (e.e. cod ymarfer proffesiynol a pholisïau'r sefydliad) mewn perthynas â chyfrinachedd<br>• Esbonio dyletswydd gofal i Harri a Rhoswen o ran rhannu gwybodaeth<br>• Rhoi gwybod i weithwyr uwch/rheolwr llinell am unrhyw ofynion cyfreithiol fel pryderon diogelu<br>• Ceisio cydsyniad gan Harri a Rhoswen cyn rhannu gwybodaeth bersonol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br>• I helpu Lowri i adnabod ei chryfderau ei hun/i gefnogi ymarfer da parhaus (e.e. gwneud awgrymiadau ynglŷn â Rhoswen yn galw ar adegau penodol)<br>• I ganfod meysydd lle mae angen gwella<br>• I'w chefnogi hi i ganfod ei hanghenion dysgu ei hun. (e.e. darllen/bwcio lle ar gwrs ynglŷn ag effeithiau profedigaeth ar blant)<br>• I ganfod meysydd gwella parhaus. I ganfod beth sydd wedi'i ddysgu o brofiadau.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais sydd wedi'i rhoi hyd at uchafswm o 2 farc.<br>• Dod â gwahanol sgiliau a gwybodaeth at ei gilydd i gefnogi llesiant a datblygiad parhaus Harri (e.e. ysgol/ Hazel Grove/ gweithiwr cymdeithasol/ gweithwyr iechyd proffesiynol)<br>• Rhannu gwybodaeth i wneud yn siŵr bod Harri yn cael ei ddiogelu'n effeithiol (e.e. monitro Harri mewn perthynas â phryderon ei fod yn encilio)<br>• Monitro cynnydd Harri i weld a allai fod angen cymorth arbenigol arno (e.e. mewn perthynas â phrofedigaeth neu bryderon am iechyd ei fam)<br>• Darparu gwasanaeth integredig / bodloni anghenion ar amser / osgoi oediadau cyn darparu cefnogaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob peth a roddir hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Gwrando ar bryderon Rhoswen/canfod beth ydyn nhw<br>• Cyfathrebu â Rhoswen yn yr iaith o'i dewis (e.e. mae Lowri yn siarad Cymraeg)<br>• Cynnwys Rhoswen wrth ddatblygu ac adolygu cynllun personol Harri<br>• Cynnwys Rhoswen wrth wneud penderfyniadau / ceisio cydsyniad pan fo angen<br>• Rhoi diweddariadau rheolaidd am gynnydd Harri<br>• Cefnogi Harri i weld ei fam yn rheolaidd<br>• Esbonio sut mae'r gwasanaeth yn monitro ansawdd y gofal mae pobl ifanc yn ei gael / Arolygiaeth Gofal Cymru<br>• Esbonio'r hawl i eiriolaeth a sut gellir cael eiriolwyr<br>• Esbonio'r hawl i gwyno/sut i wneud hyn<br>Cydnabod sut mae marwolaeth y tad a salwch Rhoswen wedi effeithio ar Rhoswen a Harri<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc<br><br>Lowri | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cefnogi Morgan gydag anghenion Cymraeg y teulu (e.e. siaradwr Cymraeg)<br>• Mae'n gallu rhannu ei sgiliau/gwybodaeth (e.e. pêl-droed, profiad o waith ieuenctid)<br>• Cysgodi/gweithio gyda Morgan (e.e. siarad â Harri am bêl-droed)<br>• Cyflwyno Harri i aelodau staff eraill yn ystod ei ymweliad â Hazel Grove<br>• Cofnodi'r ymweliad<br>• Gwneud awgrym i Philip am gyfathrebu â Rhoswen ar adegau penodol<br>• Dilyn gweithdrefnau/ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt<br>• Gweithio/cyfathrebu â gweithiwr cymdeithasol yn ystod ymweliad Harri<br>• Darllen nodiadau'r ymweliad cartref, cyn cyfarch Harri<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chysgodi.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â Lowri nac â datblygu ymarfer.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chysgodi. Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng y cysgodi a Lowri neu wella ymarfer.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chysgodi. Mae'r ymateb yn rhoi rhai cysylltiadau ar gyfer sut gall cysgodi wella ymarfer Lowri.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â chysgodi.<br>Mae'r ymateb yn rhoi enghreifftiau a/neu esboniad clir ynglŷn â sut gall cysgodi wella ymarfer Lowri.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys**<br>• Enghreifftiau o welliant: Gallai ei helpu i wneud y canlynol:<br>o Ymateb yn sensitif i anghenion pobl ifanc (e.e. darllen am brofedigaeth)<br>o Deall pryd gallai fod yn briodol cyffwrdd (h.y. cwtsh) â phobl<br>o Cyfleu agwedd broffesiynol<br>o Nodi pryderon am ymarfer a rhoi gwybod amdanynt<br>o Deall sut i sicrhau bod pobl ifanc yn ymgyfarwyddo â'r lleoliad | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | ○ Deall rôl gweithiwr allweddol<br>○ Deall disgwyliadau ynglŷn â chadw cofnodion<br>○ Rheoli perthnasoedd â theuluoedd/gofalwyr<br><br>• Egwyddorion/ymarfer gorau cysgodi<br>○ arsylwi ymarfer gorau<br>○ arsylwi llwyddiannau/canlyniad<br>○ siarad am ymarferion gorau<br>○ adfyfyrio ynglŷn â lle mae angen gwelliannau<br>○ gofyn cwestiynau<br>○ gweithio ochr yn ochr<br>mentora/ derbyn arweiniad gan gydweithiwr profiadol | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc.<br>• Darllen ac ysgrifennu nodiadau dyddiol yn ffeil Harri<br>• Diweddaru/defnyddio llyfr cyfathrebu dyddiol/cofnod trosglwyddo/ cofnodion dyddiol<br>• Llenwi taflenni gweithgareddau dyddiol<br>• Diweddaru cynlluniau personol<br>• Cwblhau/diweddaru asesiadau risg<br>• Cwblhau unrhyw gofnodion meddyginiaeth<br>• Cwblhau unrhyw gofnodion digwyddiadau/damweiniau<br>• Cyfathrebu ysgrifenedig â gweithiwr cymdeithasol, ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br>• Edrych ar gynllun gofal a chefnogaeth Harri sydd wedi'i ddarparu gan yr awdurdod lleol sy'n ei leoli<br>• Edrych ar gynllun personol Harri sydd wedi'i ddatblygu gan ei weithiwr allweddol<br>• Annog Harri i siarad am sut mae'n teimlo (e.e. mae'n sôn am fwlio ar ôl i'w dad farw/pryderon am iechyd ei fam)<br>• Annog Harri i siarad am ei ddymuniadau/dyheadau ar gyfer y dyfodol<br>• Gofyn i Harri sut hoffai gael ei gefnogi<br>• Gofyn i Harri am ei ddewisiadau personol<br>• Annog Harri i siarad am yr ysgol/gweithgareddau'r ysgol<br>• Annog Harri i siarad am ei ddiddordebau y tu allan i'r ysgol | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | **Llais a rheolaeth**<br>o Beth sy'n bwysig i Audrey (e.e. Siarad ag Audrey am ei hen ddiddordebau)<br>o Cynnig dewis (e.e. prydau bwyd a gweithgareddau)<br>o Defnyddio eiriolwr annibynnol (e.e. Penderfynu symud i Harbour House)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt am 1 marc yn unig.<br><br>• Cofnodi gofal Harri a'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi<br>• Cofnodi gwybodaeth bersonol Harri (teulu, manylion cyswllt, meddyg teulu ac ati)<br>• Cofnodi ei gwybodaeth gefndir<br>• Cofnodi unrhyw bryderon/materion<br>• Monitro llesiant corfforol a meddyliol Harri<br>• Bod yn ddogfen blentyn-ganolog<br>• Bod yn ddogfen weithio - gellir ei newid/adolygu<br>• Sicrhau cofnod parhaol i'r holl staff ei ddilyn er mwyn cysondeb gofal a chefnogaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 1 marc |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br>• I ddeall beth mae Harri ei eisiau<br>• I gyflawni pethau/cwblhau tasgau<br>• I ddeall dymuniadau/anghenion/teimladau Harri<br>• I hybu ymddiriedaeth<br>• I rannu gwybodaeth bwysig<br>• I barchu urddas Harri<br>• I barchu hawliau Harri<br>• I fod yn blentyn-ganolog<br>• I gefnogi/hwyluso cyfranogiad gweithredol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob effaith hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Colli rhiant/ffigur pwysig yn ei fywyd<br>• Mynd drwy'r cylch galaru/proses galaru | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Encilio oddi wrth ffrindiau/teimlo ei fod yn cael ei gamddeall/yn unig (e.e. yr ysgol yn nodi ei fod yn encilio)<br>• Efallai bydd Harri<br>○ yn teimlo'n bryderus am stigma camddefnyddio sylweddau (e.e. bwlio gan bobl eraill)<br>○ yn teimlo dicter tuag at ei dad a fu farw o ganlyniad i ddos gormodol<br>○ yn pryderu am ei ddyfodol mwy hirdymor<br>○ yn pryderu am sut i gefnogi ei fam<br>○ yn bryderus am iechyd ei fam/yn ofni y gallai hithau farw<br>○ yn pryderu y gallai hyn darfu ar ei addysg<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 005: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Harri

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set B Harri | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc)**<br>**Uned 005: Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br>• Mae gan Lowri ddyletswydd gofal i roi gwybod am hyn<br>• Mae gan Lowri ddyletswydd gofal i sicrhau bod llesiant Harri yn cael ei gynnal<br>• Mae Lowri'n atebol am yr hyn mae hi ei hun yn ei wneud<br>• Mae Lowri'n rhannu cyfrifoldeb Hazel Grove dros fonitro Iechyd a Llesiant Harri<br>• Mae angen i Lowri wneud yn siŵr bod Harri'n cael y gefnogaeth gywir<br>• Mae'n ffordd o weithio y cytunwyd arni h.y. dilyn polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad, cod ymarfer proffesiynol<br>• Mae Lowri'n cydnabod mater(ion) perthnasol sy'n destun pryder/yn gwybod bod rhaid iddi ofyn am gyngor<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br>Mae'n helpu gweithwyr i wneud y canlynol<br>• Canfod eu cryfderau / beth ddylent barhau i'w wneud<br>• Magu hyder yn eu rôl bresennol<br>• Datblygu dealltwriaeth o rôl gweithiwr allweddol<br>• Nodi meysydd lle gallant wella eu hymarfer<br>• Nodi eu hanghenion dysgu/bylchau gwybodaeth<br>• Nodi ble/sut gallant gael cyfleoedd i ddysgu | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Gwneud yn siŵr/cydnabod bod adfyfyrio'n dod yn ffordd naturiol o weithio<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob budd hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gellir rhannu gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i Harri a'i fam<br>• Gellir rhannu adnoddau neu gael mynediad atynt<br>• Gellir datblygu cyd-ddealltwriaeth o wahanol rolau/cyfrifoldebau/ffiniau'r gweithwyr proffesiynol dan sylw<br>• Cefnogi diogelu Harri (e.e. atal bwlio)<br>• Gellir bodloni anghenion/llesiant Harri<br>• Rhannu cyfrifoldeb am reoli risgiau<br>• Bydd yn creu cyfleoedd am wybodaeth arbenigol/arbenigedd<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth ynglŷn â chroesi ffiniau proffesiynol a rhannu gwybodaeth.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol ag ymarfer Lowri.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chroesi ffiniau proffesiynol a rhannu gwybodaeth.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng y rhain ac ymarfer Lowri.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chroesi ffiniau proffesiynol a rhannu gwybodaeth.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau â sut mae ymarfer Lowri yn cefnogi ei pherthynas â Harri.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chroesi ffiniau proffesiynol a rhannu gwybodaeth.<br>Mae'r ymateb yn rhoi cysylltiadau cryf ac esboniad clir ynglŷn â sut mae ymarfer Lowri yn cefnogi ei pherthynas â Harri.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys** | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Gall gormod o fanylion personol (e.e. cyfeiriad) beryglu diogelwch gweithwyr<br>• I atal camddealltwriaeth, mae'n bwysig cynnal rôl fel gweithiwr proffesiynol/ nid fel ffrind<br>• Gall helpu Harri i osgoi dibynnu gormod ar Lowri<br>• Mae ffurfio cyfeillgarwch dros ddiddordeb a rennir yn gallu bod yn arwydd o feithrin perthynas amhriodol / ymddygiad drwgweithredwr / Creu amgylchedd saff a diogel i weithwyr<br>• Cydnabod y pŵer sy'n dod gyda rôl gweithiwr / peidio â chamddefnyddio'r pŵer hwn / diogelu Harri<br>• Gallai peidio â dilyn cod ymarfer proffesiynol arwain at broblemau'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer<br>• Gall helpu i wneud yn siŵr bod yr holl bobl ifanc yn Hazel Grove yn cael eu trin yn deg / dim ffefrynnau | |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob tîm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Uned y teulu h.y. Harri a Rhoswen<br>• Rhwydweithiau cymunedol (e.e. tîm pêl-droed Harri a'i ffrindiau)<br>• Ysgol Harri<br>• Y tîm gwaith cymdeithasol<br>• Staff gofal iechyd sy'n gofalu am Rhoswen<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Cefnogi Harri i gael cyswllt/ymweliadau rheolaidd â'i fam tra ei bod hi yn yr ysbyty<br>• Gwneud yn siŵr bod Hazel Grove yn cyfathrebu â Rhoswen yn yr iaith o'i dewis/Cymraeg.<br>• Rhoi gwybodaeth i Rhoswen am gyfleusterau'r cartref/trefn ddyddiol y cartref/gweithrediadau'r cartref (e.e. mae gan y plant eu hystafelloedd eu hunain)<br>• Gwneud yn siŵr bod gan Rhoswen gopïau o drefnau cwynion a phryderon Hazel Grove<br>• Rhoi gwybodaeth i Rhoswen am ansawdd y ddarpariaeth yn Hazel Grove (e.e. adroddiadau, polisïau a gweithdrefnau Arolygiaeth Gofal Cymru) | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cynnwys Rhoswen wrth gynllunio gofal Harri o ddydd i ddydd<br>• Rhoi diweddariadau rheolaidd i Rhoswen am gynnydd Harri<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Helpu Lowri i ddeall yr effaith ar lesiant emosiynol Harri<br>• Helpu Lowri i ddeall sut gallai profedigaeth effeithio ar ymddygiad Harri<br>• Helpu Lowri i ddeall y ffordd orau o ymateb i Harri/cyfathrebu ag ef<br>• Hybu empathi<br>• Codi ymwybyddiaeth Lowri o ba gefnogaeth/adnoddau allai fod ar gael i Harri<br>• Rhoi sail gwybodaeth i ymarfer Lowri yn y dyfodol/ cefnogi pobl ifanc â phrofiad tebyg<br>• Hybu datblygiad proffesiynol Lowri<br>• Annog dysgu hunangyfeiriedig<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Mae Lowri'n ddwyieithog/ gallu cyfathrebu yn yr iaith o ddewis Harri a Rhoswen<br>• Mae Lowri a Morgan yn groesawgar ac yn eu cyflwyno eu hunain/gweithwyr eraill i Harri a'r gweithiwr cymdeithasol<br>• Mae Lowri a Morgan yn gwneud yn siŵr bod Harri yn gyfarwydd â'r cartref (e.e. dangos y lle iddo)<br>• Mae Lowri'n rhoi gwybod i'w rheolwr bod Harri'n anghyfforddus ac nad yw'n rhyngweithio yn ystod yr ymweliad<br>• Mae Lowri a Morgan yn treulio amser yn dysgu mwy am sefyllfa deuluol Harri<br>• Mae Lowri'n gofyn am ei ddiddordebau/y diddordeb mewn pêl-droed maen nhw'n ei rannu | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae Morgan yn tawelu meddwl Harri na fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu<br>• Mae Morgan yn dangos empathi (e.e. rhoi ei law ar ysgwydd Harri/ cydnabod bod colli ei dad yn anodd i Harri)<br>• Mae Morgan yn tawelu meddwl Harri y bydd y staff yn gweithio gyda'i fam ac eraill i wneud yn siŵr ei fod yn iach ac yn cael gofal da<br>• Mae Morgan a Lowri'n siarad â Harri am sut maen nhw'n mynd i'w gefnogi (e.e. drwy ddefnyddio cynllun personol)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>Mae'n helpu Lowri i wneud y canlynol:<br>• dod i adnabod Harri yn well<br>• ei drin fel unigolyn<br>• datblygu ymddiriedaeth yn eu perthynas<br>• canfod diddordeb cyffredin (e.e. pêl-droed)<br>• darganfod beth sy'n bwysig i Harri<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae Lowri a Morgan yn darllen nodiadau Harri cyn eu cyfarfod cychwynnol ag ef<br>• Mae Lowri a Morgan yn cyflwyno Harri a'i weithiwr cymdeithasol i staff a phobl ifanc eraill<br>• Mae Lowri a Morgan yn ymateb i bryderon Harri am afiechyd ei fam (e.e. cynnig mynd ag ef i ymweld â'i fam)<br>• Mae Lowri a Morgan yn tawelu meddwl Harri na fydd gweithwyr yn rhoi ei wybodaeth bersonol i bobl ifanc eraill<br>• Mae Morgan yn cydnabod bod colli ei dad yn anodd i Harri<br>• Mae Lowri a Morgan yn tawelu meddwl Harri y byddant yn ei gefnogi i fynychu'r un ysgol | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Gofynnodd Lowri i Harri am ei ddiddordebau y tu allan i'r ysgol (e.e. cynnig ei gefnogi i fynd i hyfforddiant a gemau pêl-droed)<br>• Mae Lowri'n trefnu ei bod yn helpu Harri i ddod â mwy o'i eiddo o'i gartref/ personoli ei ystafell<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob newid sydd wedi'i roi am 1 marc yn unig.<br><br>• Afiechyd ei fam/ei fam yn gorfod mynd i'r ysbyty/gwahanu â hi<br>• Gadael ei gartref ei hun/mynd i fyw mewn cartref plant<br>• 'Derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol<br>• Newidiadau i berthnasoedd grŵp cyfoedion<br>• Pryder am y dyfodol<br>• Gorfod gwneud dewisiadau am astudiaethau/hyfforddiant/gwaith yn y dyfodol (e.e. bydd yn sefyll arholiadau TGAU)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 1 marc |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 005: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Harri

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set C Harri | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc)**<br>**Uned 005: Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol** | |

| **Cwestiwn** | **Canllaw ateb** | **Uchafswm marciau** |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mae Lowri'n rhannu ei phryderon â'i rheolwr am Harri/ yn adfyfyrio ar ymweliad Harri<br>• Mae Lowri'n cofnodi'r cyfarfod cychwynnol â Harri yn ei ffeil bersonol/ mae Morgan yn gofyn i Lowri gymryd nodiadau<br>• Mae Lowri a Morgan yn gwneud yn siŵr eu bod yn eu cyflwyno eu hunain i'r gweithiwr cymdeithasol<br>• Mae Lowri'n canfod bwlch yn ei datblygiad proffesiynol (e.e. bwcio lle iddi ar gwrs profedigaeth)<br>• Mae Morgan yn arwain y cyfarfod cychwynnol â Harri (e.e. gofyn i Lowri gymryd nodiadau)<br>• Mae Morgan yn cael ei gysgodi gan Lowri h.y. gweithredu fel model rôl ar gyfer Lowri<br>• Mae Morgan yn sôn am y ffaith y bydd angen datblygu cynllun personol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mae gan Lowri ddyletswydd gofal mewn perthynas â lles Harri<br>• Mae angen i Lowri wneud yn siŵr bod Harri'n cael ei amddiffyn rhag niwed posibl<br>• Mae Lowri'n dilyn ffyrdd o weithio mae gweithwyr wedi cytuno arnynt/ sail angen gwybod/ protocolau | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae Lowri'n gyfrifol am y pethau mae hi'n eu gwneud/ peidio anghofio dim byd<br>• Mae ar Lowri angen/eisiau arweiniad gan ei rheolwr<br>• Mae angen i reolwr Lowri fod yn ymwybodol o bob agwedd ar ei gwaith h.y. llinellau atebolrwydd<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mae gan Philip gyfrifoldeb i wneud yn siŵr y gellir adolygu cynlluniau gofal a chefnogaeth yn ôl yr angen h.y. gallai fod angen mwy o wasanaethau<br>• Mae gan Philip gyfrifoldeb i rannu gwybodaeth allai beri goblygiadau i lesiant Harri<br>• Mae gan Philip gyfrifoldeb i addasu cynllun personol Harri yn ôl yr angen<br>• Mae angen i Philip hybu gwaith ar y cyd parhaus â sefydliadau a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal Harri h.y. gwaith amlasiantaethol<br>• Mae'n rhaid i Philip fodloni ei ofyniad cyfreithiol/rheoleiddiol i roi gwybod/rhannu fel y rheolwr cofrestredig<br>• Mae gan Philip ddyletswydd gofal i rannu/ diogelu / dilyn polisïau a gweithdrefnau, a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt.<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• I ddangos parch at iaith a threftadaeth ddiwylliannol Harri a Rhoswen<br>• I fodloni'r gofynion a amlinellir yn "Mwy na geiriau"/Cynnig Rhagweithiol<br>• I helpu Rhoswen i ddatblygu ymddiriedaeth yn y gwasanaeth<br>• I wneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn bodloni anghenion Rhoswen fel gofalwr Harri / yn dangos tosturi | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • I wneud yn siŵr bod Rhoswen yn teimlo'n gyfforddus ac yn dawel ei meddwl ynglŷn â'r newidiadau sy'n digwydd/i leihau unrhyw bosibilrwydd o deimlo rhwystredigaeth<br>• I wneud yn siŵr bod Rhoswen yn gallu mynegi ei barn yn glir / gofyn cwestiynau yn yr iaith o'i dewis<br>• I wneud yn siŵr bod Rhoswen yn gallu deall popeth sy'n cael ei ddweud ac yn cael cyfle i ofyn cwestiynau pellach<br>• I atal camddealltwriaeth (e.e. camddehongli, gwahaniaethau tôn)<br>Oherwydd gallai fod yn anoddach i Rhoswen siarad Saesneg dros y ffôn nag wyneb yn wyneb<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob budd sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Gallai deimlo bod pawb yn gweithio tuag at nod cyffredin.<br>• Gallai hybu cyfathrebu effeithiol/rhannu gwybodaeth/cofnodi/rhoi gwybod<br>• Gellir rhannu baich/beichiau gwaith<br>• Gellir rhannu atebolrwydd/cyfrifoldebau<br>• Mae'n gyfle i rannu ymarfer gorau<br>• Mae'n gyfle i ddysgu gan aelodau eraill o'r tîm<br>• Rhywun ar gael i siarad / rhannu pryderon / canfod datrysiadau<br>• Gallai hybu diwylliant gwaith cadarnhaol / morâl da<br>• Mae'n darparu cyswllt cymdeithasol â phobl eraill / osgoi teimlo'n unig<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth am sut mae rôl goruchwyliaeth yn cefnogi pobl ifanc / Harri.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu rôl goruchwyliaeth â chefnogi llesiant unigolion.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am sut mae rôl goruchwyliaeth yn cefnogi pobl ifanc / Harri. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | Mae'r ymateb yn creu rhai cysylltiadau â rôl goruchwyliaeth a sut mae'n cefnogi llesiant unigolion.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am sut mae rôl goruchwyliaeth yn cefnogi pobl ifanc / Harri.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu gwerth goruchwyliaeth effeithiol â sut mae'n cefnogi llesiant unigolion.<br>**Rhowch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am sut mae rôl goruchwyliaeth yn cefnogi pobl ifanc / Harri.<br>Mae'r ymateb yn rhoi cysylltiadau cryf ac esboniad clir ynglŷn â gwerth goruchwyliaeth effeithiol o ran cefnogi llesiant unigolion.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys**<br><br>• Nodi bylchau mewn gwybodaeth sy'n gallu arwain at well dealltwriaeth o sefyllfa pobl ifanc (e.e. effeithiau profedigaeth)<br>• Hybu trafodaeth am anghenion y person ifanc gan arwain at well gofal plentyn-ganolog (e.e. pryder Harri am iechyd ei fam)<br>• Annog gweithwyr i ddeall effaith gadarnhaol eu hymarfer (e.e. sut mae Morgan a Lowri eisoes wedi cefnogi Harri i barhau i chwarae pêl-droed)<br>• Annog gweithwyr i adfyfyrio ar eu hymarfer er mwyn deall sut i wella ffyrdd o weithio (e.e. a ddylai Lowri fod yn brif gyswllt sy'n siarad Cymraeg i Rhoswen)<br>• Annog gweithwyr a goruchwylwyr i drafod/ canfod gwelliannau i'r gwasanaeth cyffredinol (e.e. gwneud newidiadau ar ôl cydnabod nad oedd neb i gyfathrebu â Rhoswen yn y Gymraeg)<br>• Canfod meysydd ar gyfer datblygiad personol a chyfleoedd dysgu perthnasol gan arwain at well dealltwriaeth a sgiliau (e.e. bwcio lle i Lowri ar gwrs profedigaeth)<br>• Hybu datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau'n gyfredol ac yn gyson h.y. yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth/polisïau a gweithdrefnau diweddaraf<br>• Codi ymwybyddiaeth o linellau atebolrwydd a chyfyngiadau ei chyfrifoldeb ei hun, sy'n gallu diogelu'r gweithiwr a hefyd y person ifanc (e.e. Lowri wedi rhoi gwybod i'w rheolwr am ei phryderon) | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Rhoi cyfle i weithwyr drafod eu cynnydd a'u profiadau eu hunain/mae pryderon am ddatblygiad yn y dyfodol yn cyfrannu at dîm brwdfrydig/medrus/deallus<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob budd sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Bydd Lowri'n gyfarwydd â rôl/cyfrifoldebau gweithiwr allweddol (e.e. mae Morgan wedi bod yn gweithio yn Hazel Grove am 5 mlynedd)<br>• Bydd Lowri'n ymgyfarwyddo â pholisïau a gweithdrefnau Hazel Grove<br>• Bydd Lowri'n gweld sut mae polisïau a gweithdrefnau/gweithgareddau'n cael eu rhoi ar waith (e.e. mae hi'n gweld y diwrnod ymsefydlu/cyflwyno ar waith)<br>• Mae gan Lowri bwynt cyswllt i gael cyngor a chefnogaeth<br>• Mae Lowri'n cael cyfle i ennill profiad cyn gweithio ar ei phen ei hun (e.e. mae hi'n siarad â Harri yn ystod ei ymweliad)<br>• Mae gan Lowri gyfle i arsylwi ymarfer gorau (e.e. mae hi'n gweld Morgan yn tawelu meddwl Harri)<br>• Mae Lowri'n cael cyfle i ymarfer gyda chefnogaeth h.y. cael ei harsylwi / peidio gweithio ar ei phen ei hun / gall hi ofyn cwestiynau wrth weithio (e.e. mae hi'n cymryd nodiadau yn ystod ymweliad Harri)<br>• Gall Morgan ddarparu arweiniad/ adborth/ atgyfnerthiad ar unwaith wrth i Lowri weithio (e.e. mae Morgan yn esbonio y bydd nodiadau Lowri'n helpu i roi sail i gynllun personol Harri)<br>• Mae'n gyfle dysgu a datblygu y gall Lowri adfyfyrio arno yn ystod ei goruchwyliaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Gallai helpu | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • I adeiladu perthynas Lowri a Harri h.y. mae ganddyn nhw rywbeth yn gyffredin<br>• I adeiladu ymddiriedaeth â Harri<br>• Mae'n helpu Harri i deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i barchu<br>• Harri i gymryd rhan yn y gweithgaredd ac yn mwynhau/cyfranogiad gweithredol<br>• Harri i gael sgwrs â rhywun/tir cyffredin<br>• Harri i ddysgu / gwella ei sgiliau pêl-droed<br>• Harri i allu/cael ei annog i/cael ei gefnogi i barhau â'i hobi (e.e. gall Lowri fynd ag ef i ymarfer)<br>• I hybu llesiant corfforol Harri h.y. cael ymarfer corff / ei gefnogi i fod yn iach<br>• I hybu llesiant meddyliol Harri h.y. beth sy'n bwysig iddo / ei gefnogi i fod yn hapus<br>• Mae Morgan yn tawelu meddwl Harri y bydd y staff yn gweithio gyda'i fam ac eraill i wneud yn siŵr ei fod yn iach ac yn cael gofal da<br>• Mae Morgan a Lowri'n siarad â Harri am sut maen nhw'n mynd i'w gefnogi (e.e. drwy ddefnyddio cynllun personol)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Maen nhw'n cyflwyno eu hunain i Harri a'i weithiwr cymdeithasol<br>• Maen nhw'n cyflwyno Harri a'i weithiwr cymdeithasol i'r bobl ifanc a'r staff eraill<br>• Maen nhw'n gofyn i Harri am ei ddiddordebau / hoff ddewisiadau (e.e. beth mae'n hoffi ei wneud y tu allan i'r ysgol)<br>• Maen nhw'n cydnabod pryderon Harri am ei wybodaeth bersonol/ yn esbonio na wnawn nhw rannu ei wybodaeth bersonol â phobl ifanc eraill<br>• Maen nhw'n esbonio y bydd Harri'n cymryd rhan yn y broses o ddatblygu ei gynllun personol.<br>• Maen nhw'n ymateb yn sensitif/â thosturi i dristwch Harri am farwolaeth ei dad/afiechyd ei fam (e.e. Morgan yn ei gyffwrdd ar ei ysgwydd | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob effaith hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae'n parchu dymuniadau Harri<br>• Mae'n llai tebygol o darfu ar addysg Harri / gall barhau yn yr un ysgol<br>• Gall Harri gynnal ei berthnasoedd teuluol (e.e. gallu ymweld â'i fam)<br>• Gall Harri gadw ymdeimlad o gymuned/perthyn (e.e. gall ddal i fynd i chwarae pêl-droed)/atal ynysigrwydd cymdeithasol<br>• Mae'n cadw Harri'n ddiogel/bydd rhywun yn gofalu amdano<br>• Cyfle i wneud ffrindiau newydd â phobl ifanc eraill (e.e. cyfleoedd newydd am wahanol weithgareddau/teithiau)<br>• Gallai Harri gyfarfod â phobl ifanc eraill mewn amgylchiadau tebyg neu ddysgu ganddynt (e.e. dod i adnabod plant eraill sy'n derbyn gofal yn y lleoliad)<br>• Mae yma gyfle i Harri ddatblygu perthynas â gweithwyr eraill / ehangu enghreifftiau o fodelau rôl cadarnhaol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am roi unrhyw un o'r rhesymau am 1 marc yn unig.<br><br>• Efallai na fydd Lowri'n gallu ateb y ffôn / neu y bydd hi'n brysur yn gwneud rhywbeth arall<br>• Nid yw'n ymarfer gorau i ddibynnu ar un unigolyn fel hyn/'methiant un pwynt'<br>• Efallai na fydd rhai sgyrsiau'n briodol i Lowri fel aelod staff newydd/ (e.e. efallai y bydd angen aelod staff uwch)<br>• Efallai y bydd eu hacenion Cymraeg yn wahanol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 1 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 005: 20 marc** | **30 marc** |

## Astudiaeth Achos – Lily

Rydych chi'n mynd i ddarllen astudiaeth achos am Lily sydd â chyflwr o'r enw Syndrom Tourette (neu Tourette's) ac mae hi mewn gofal maeth tymor byr.

Dyma'r bobl y byddwch chi'n darllen amdanyn nhw fel rhan o'r astudiaeth achos hon:

| | |
|---|---|
| Lily | Y plentyn sydd mewn gofal maeth tymor byr |
| Bethan | Gweithiwr cefnogi yn y sefydliad maethu |

Ceir cyfeiriad hefyd at oruchwyliwr Bethan sydd ddim yn cael ei enwi.

Dydy'r astudiaeth achos hon ddim yn seiliedig ar sefydliad nac unigolion go iawn.

Mae Bethan wedi cael ei chyflogi gan sefydliad maethu fel gweithiwr cefnogi dros y 12 mis diwethaf. Mae hi'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn eu hannog nhw i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn eu cymuned. Ei phrif rôl yw eu cefnogi nhw i feithrin perthnasoedd cadarnhaol a meithrin ymdeimlad o ymddiriedaeth a diogelwch. Mae Bethan yn frwdfrydig iawn ac yn ymroddedig i'w rôl ac mae hi eisiau gwneud ei gorau glas. Gwnaeth hi fwynhau ei Fframwaith Sefydlu Cymru (AWIF) a'i helpodd i ddeall y safonau; gwerthoedd; ymddygiadau; gofynion cyfreithiol; diogelu; y Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sydd i'w disgwyl ganddi.

Un o'r plant mae Bethan yn gweithio gyda nhw yw Lily. Mae Lily yn 8 oed ac mewn gofal maeth tymor byr. Cymraeg yw dewis iaith Lily ac mae hi fel arfer yn byw gyda'i mam sydd wedi cael argyfwng iechyd meddwl yn ddiweddar ac sy'n aros mewn uned iechyd meddwl. Mae Lily'n cael cyswllt rheolaidd â'i mam ac yn cael ei chefnogi'n briodol i ddeall argyfwng iechyd meddwl ei mam. Nid Cymraeg yw iaith gyntaf Bethan ond mae hi'n dysgu ac yn defnyddio'r geiriau Cymraeg mae hi'n eu gwybod yn ystod eu sgyrsiau. Mae Lily yn byw gyda chyflwr o'r enw Syndrom Tourette. Mae ganddi arwyddion corfforol sy'n cynnwys amrantu (*blinking*) dro ar ôl tro a gwneud synau annisgwyl. Mae Lily yn falch o fod yn mynd i'r un ysgol. Mae'r ysgol yn adrodd bod Lily yn cymryd llai o ddiddordeb mewn bywyd ysgol yn ddiweddar ac mae arwyddion ei Tourette's wedi dwysáu.

Mae Bethan yn gweithio'n agos gyda gofalwyr maeth Lily, Anna a James, a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill fel y gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwylio a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae Lily wedi cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu ei chynllun personol sy'n seiliedig ar ei hanghenion, ei diddordebau a'i hoffterau. Mae'r cynllun yn disgrifio sut mae Lily wastad wedi mwynhau nofio ac mae hi'n hoffi mynd yn rheolaidd. Un o dasgau Bethan yw mynd â Lily i nofio bob wythnos yn ogystal ag annog Lily i fynd i gaffi lleol ar ôl y gweithgaredd. Mae hyn er mwyn helpu Lily i feithrin hyder a delio â sefyllfaoedd cymdeithasol a allai fod yn anodd. Mae'r cynllun yn nodi bod Lily eisiau cael ei holi o ran sut i ymateb mewn sefyllfaoedd lle mae hi'n teimlo'n anghyfforddus.

Yn unol â'r cynllun personol, mae Bethan yn codi Lily o'r ysgol ac maen nhw'n mynd i'r ganolfan hamdden ar gyfer y sesiwn nofio wythnosol. Mae gan Bethan a Lily giwbicl newid yr un ochr yn ochr â'i gilydd, fel bod Bethan yn agos os oes eisiau help ar Lily. Yn y pwll, mae llawer o sŵn ac mae peiriant tonnau. Mae Bethan a Lily yn mwynhau eu hunain. Mae Bethan yn gweld Lily yn chwerthin ac yn sblasio yn y pwll ac yn chwarae gyda phlant eraill.
Ar ôl bod yn nofio ac ar ôl iddyn nhw wisgo, mae Bethan yn cymryd yn ganiataol y bydd Lily'n hoffi diod a byrbryd yn y caffi fel arfer. Mae'n brysur iawn yn y caffi ac mae dau o blant ar eu pen eu hunain yn syllu ar Lily ac yn ei dynwared hi. Mae Bethan yn gwylltio o ganlyniad i'r ymddygiad hwn ac mae hi eisiau gwarchod Lily rhag brifo ei theimladau. Mae hi'n gwybod y

bydd anwybyddu'r ymddygiad hwn yr un peth â'i dderbyn. Mae hi'n cofio ei hyfforddiant sefydlu ac yn meddwl am ei dyletswydd gofal a'i chyfrifoldebau diogelu tuag at Lily.

Yr eiliad honno mae tad y plant yn cerdded yn ôl i mewn i'r caffi i ymuno â'i blant. Mae Bethan yn mynd i siarad ag ef am ymddygiad y plant ac yn gofyn iddo roi stop arno. Mae e'n teimlo cywilydd ac yn ymddiheuro i Bethan. Yna mae'n dweud wrth ei blant am ymddiheuro i Lily.
Mae'r plant yn ymddiheuro i Lily ac erbyn hyn mae llawer o bobl yn eu gwylio nhw. Mae Lily'n teimlo cywilydd ac yn ofidus. Ar y daith adref mae Bethan yn ceisio siarad â Lily ond dydy Lily ddim yn siarad â hi. Pan maen nhw'n cyrraedd, mae Bethan yn dweud wrth Anna a James beth ddigwyddodd yn y caffi.

Ar ôl dychwelyd i'r swyddfa, mae Bethan yn cofnodi'r ffeithiau yn nodiadau ffeil Lily ac mae hi'n eu storio ar system TGCh y sefydliad gan sicrhau eu bod nhw'n ddiogel.

Nes ymlaen, mae James yn ffonio Bethan ac yn esbonio bod Lily wedi dweud na ofynnwyd iddi a oedd hi eisiau mynd i'r caffi ar ôl bod yn nofio. Dywedodd hi hefyd nad oedd hi eisiau i Bethan siarad â'r rhiant yn y caffi. Dywedodd James wrth Bethan ei fod wedi esbonio wrth Lily bod ganddi hawl i wneud cwyn am nad oedd Bethan wedi ymgynghori â hi. Gofynnodd i Lily hefyd a oedd hi eisiau siarad ag eiriolwr annibynnol. Roedd Lily wedi gwrthod y ddau awgrym.

Mae Bethan yn ymateb drwy ymddiheuro am unrhyw ofid a achosodd ac mae'n parchu'r ffaith bod gan James ddyletswydd gofal tuag at Lily. Fodd bynnag, teimlai ei bod hi'n iawn i herio'r digwyddiad yn y caffi. Mae hi'n dweud wrth James y bydd hi'n trafod hyn â'i goruchwyliwr. Mae hi'n ychwanegu'r sgwrs gyda James at nodiadau Lily.

Yn dilyn yr alwad ffôn gyda James, mae Bethan yn trefnu i gwrdd â'i goruchwyliwr. Mae'r goruchwyliwr yn annog Bethan i fyfyrio ar ei hymarfer ac i feddwl am yr hyn a ddigwyddodd a sut gwnaeth i Lily deimlo. Mae Bethan yn dweud ei bod hi'n credu bod gan Lily yr hawl i deimlo'n rhan o gymdeithas lle bynnag mae hi'n mynd. Mae'n cofio sut roedd hi'n teimlo fel plentyn ifanc pan brofodd hithau ymatebion cas i'w hatal dweud. Mae ei goruchwyliwr yn annog Bethan i fyfyrio ar sut effeithiodd ei phrofiadau hi ei hun ar sut gwnaeth hi ymateb.

Mae'r goruchwyliwr yn atgoffa Bethan bod gwybodaeth yn y cynllun personol o ran sut i ddelio â sefyllfaoedd fel hyn. Mae Bethan yn dweud nad ydy hi'n gallu cofio gweld hyn yn y cynllun ac yn meddwl tybed a yw hi wedi darllen y cynllun yn iawn.

Maen nhw'n trafod bod gan weithwyr bŵer a sut gellir ei ddefnyddio'n sensitif i fodloni anghenion plant a phobl ifanc. Mae goruchwyliwr Bethan yn gofyn iddi sut gallai hi wneud pethau'n wahanol mewn sefyllfa debyg yn y dyfodol.

Mae arfarniad Bethan cyn bo hir. Cyn hyn mae Bethan yn cytuno i ddarllen cynllun personol Lily i wneud yn siŵr ei bod hi'n deall yn llwyr beth i'w wneud mewn sefyllfaoedd tebyg er mwyn cefnogi Lily i gael llais. Maen nhw hefyd yn cytuno y bydd Bethan yn ymchwilio i bŵer a rheolaeth mewn perthynas â chefnogi plant a phobl ifanc.

Bydd yr arfarniad yn nodi cyfleoedd dysgu posibl eraill megis mentora, cysgodi a hyfforddi.

Cytunir y bydd Bethan yn rhannu gwybodaeth am y digwyddiad yn y caffi yn y cyfarfod tîm amlasiantaethol nesaf er mwyn adolygu cynnydd ar gynllun personol Lily.

# Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Lily

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set A Lily | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 005: Ymarfer Proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Mae Bethan yn defnyddio geiriau Cymraeg y mae hi'n eu gwybod yn ystod sgyrsiau gyda Lily/Parch tuag at iaith a diwylliant Cymraeg Lily<br>• Mae Bethan yn aros i Lily wisgo ar ei phen ei hun yn y ciwbicl newid yn y ganolfan hamdden/Parch at urddas a phreifatrwydd<br>• Cefnogi cynhwysiant a herio gwahaniaethu/ymddygiad annerbyniol (e.e. mae Bethan yn cael trafodaeth gyda rhiant yn y caffi)<br>• Mae Bethan yn rhoi gwybod i Anna a James am yr hyn a ddigwyddodd yn y caffi/bod yn agored ac yn onest<br>• Parodrwydd Bethan i ymddiheuro i Lily/gostyngeiddrwydd<br>• Empathi Bethan (e.e. deall sut gallai Lily/hi ei hun fod yn teimlo)<br>• Canolbwyntio ar/ymateb i ddiddordebau Lily (e.e. nofio)<br>• Dilyn polisïau a gweithdrefnau (e.e. diogelu)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 2. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Meithrin a chefnogi perthnasoedd cadarnhaol rhwng Bethan a Lily<br>• Cefnogi ymddiriedaeth a chysylltiad/annog bod yn agored h.y. yn fwy tebygol o ddatgelu<br>• Lleihau camddealltwriaeth<br>• Annog Lily i gael llais/mynegi barn<br>• Hybu gwerthoedd (e.e. urddas a pharch)<br>• Hybu teimladau o ddiogelwch/gallai leihau straen (e.e. lleihau'r risg o arwyddion yn cynyddu)<br>• Galluogi gweithiwr i ddarllen/deall ciwiau di-eiriau<br>• Galluogi Lily i arfer dewis, llais a rheolaeth | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 3. | **Rhowch 1 marc** am bob ffactor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Profiad cadarnhaol mewn gofal maeth dros dro (e.e. James yn eirioli dros Lily yn yr alwad ffôn)<br>• Gall Lily gynnal ymdeimlad o gymuned/perthyn (e.e. mae hi'n parhau i nofio/mynd i'r un ysgol)<br>• Ymweliadau rheolaidd/cyswllt â mam<br>• Cyfathrebu yn Gymraeg pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.<br>• Cynllun personol sy'n ymgorffori cefndir a hoffterau Lily<br>• Dealltwriaeth o sut mae Syndrom Tourette Lily yn effeithio arni/ ymateb yn briodol<br>• Cefnogaeth emosiynol i Lily/ ei galluogi hi i ddod i delerau ag argyfwng iechyd meddwl ei mam<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 4. | **Rhowch 1 marc** am unrhyw enghraifft am 1 marc yn unig.<br><br>• Sicrhau bod Bethan/gweithwyr eraill yn defnyddio ymadroddion allweddol, e.e. cyfarch yn Gymraeg<br>• Cefnogi Bethan/gweithwyr i ddysgu Cymraeg/mynd i ddosbarthiadau<br>• Gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol' h.y. bod gwybodaeth fel cynllun personol ar gael yn Gymraeg/Lily ddim yn gorfod<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 1 marc |
| 5. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Trefnu i fynd â Lily i nofio/ codi/gollwng Lily/ Amseru<br>• Talu am docynnau/loceri yn y pwll nofio/ gwirio newid/ gwirio bod y pris cywir wedi'i godi<br>• Cyllidebu/gweithio allan faint o arian sydd ei angen i dalu am ddiodydd a byrbrydau/gwneud yn siŵr bod yr arian sy'n cael ei wario o fewn y gwariant a ganiateir<br>• Cofnodi/prosesu derbynebau<br>• Hawlio treuliau<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 6. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc. | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae Bethan a'r gofalwyr maeth yn cyfathrebu i wneud trefniadau (e.e. mae Anna a James yn bresennol pan mae Lily'n dychwelyd o nofio)<br>• Mae Bethan yn cyfathrebu/adrodd am y digwyddiad yn y caffi<br>• Mae James yn cysylltu â Bethan i drafod pryderon Lily/ eirioli dros Lily<br>• Mae Bethan yn rhoi gwybod i James y bydd hi'n trafod y digwyddiad gyda'i goruchwyliwr/mae James a Bethan yn cytuno ar gamau gweithredu<br>• Mae James yn hybu hawliau Lily (e.e. mae James yn siarad â Lily am ei hawl i wneud cwyn/eiriolwr annibynnol ar ôl y digwyddiad yn y caffi)<br>• Mae Bethan a'r gofalwyr maeth yn rhannu gwybodaeth am iechyd a llesiant Lily/ dilyn protocolau y cytunwyd arnyn nhw ar gyfrinachedd/rhannu gwybodaeth<br>• Mae Bethan a'r gofalwyr maeth yn gweithio gyda Lily/pobl eraill i fonitro ac adolygu'r cynllun personol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Oherwydd bod gan Bethan ddyletswydd i adrodd pan fydd pethau'n mynd o chwith/ mae ganddi ddyletswydd gonestrwydd<br>• Fel bod Bethan yn dilyn gweithdrefnau adrodd a chofnodi<br>• Oherwydd bod Lily'n ofidus o ganlyniad i'r hyn a ddigwyddodd<br>• Fel bod James ac Anna yn gallu cefnogi Lily<br>• Fel bod James ac Anna yn gallu cynghori Lily am ei hawliau<br>• Fel bod James ac Anna yn gallu cynghori/helpu Lily o ran sefyllfaoedd tebyg/yn y dyfodol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 8. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Diogelu/parchu urddas a phreifatrwydd Lily pan oedd hi'n newid<br>• Defnyddio geiriau Cymraeg/dangos parch at iaith a diwylliant Bethan<br>• Siarad â thad y plant/herio'r ymddygiad digroeso/dynwared | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
| --- | --- | --- |
| | • Cydnabod yr angen i ymddiheuro i Lily am beidio ag ymgynghori â hi<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Rhowch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o ymarfer myfyriol.<br>Nid yw'r ymateb yn gwneud cysylltiadau penodol rhwng myfyrio ac ymarfer Bethan neu wella ymarfer.<br>**Rhowch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ymarfer myfyriol.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng myfyrio ac ymarfer Bethan neu wella ymarfer.<br>**Rhowch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ymarfer myfyriol.<br>Mae'r ymateb yn rhoi rhai cysylltiadau o ran sut gall myfyrio wella ymarfer Bethan.<br>**Rhowch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ymarfer myfyriol.<br>Mae'r ymateb yn rhoi enghreifftiau a/neu esboniad clir o ran sut gall adborth wella ymarfer Bethan.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys**<br><br>• Gellir ei ddefnyddio fel rhan o'r broses adrodd i drafod beth ddigwyddodd, gan gynnwys pwy oedd yn rhan o'r digwyddiad<br>• Gall fod yn gyfle i sôn am/gwerthuso sut cafodd eraill eu heffeithio gan weithredoedd Bethan<br>• Gall Bethan siarad am ei meddyliau a'i theimladau ar y pryd i ddeall sut ymatebodd hi ac os oedd unrhyw beth wrth wraidd hyn (e.e. profiadau bywyd blaenorol) a sbardunodd yr ymateb hwnnw<br>• Cyfle i ddysgu o ôl-ddoethineb/meddwl yn ôl ar y sefyllfa a chymharu â sut mae hyn yn gwneud iddi deimlo nawr<br>• Gall Bethan ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn y gallai ei reoli a’r hyn na allai/yr hyn y gallai ei ddylanwadu a'r pŵer sydd ganddi<br>• Mae gallu nodi pwyntiau dysgu allweddol o'r profiad yn helpu i wella ymarfer yn y dyfodol/ beth fyddai'n cael ei wneud yn wahanol pe byddai’r sefyllfa’n codi eto<br>• Gallu helpu i leihau straen Bethan os yw hi'n gofidio am ei gweithredoedd ei hun/ymddygiadau ei hun yn ystod ei hymarfer | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 10. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Sicrhau bod ymarfer yn cydymffurfio â deddfwriaeth, h.y. Deddf Diogelu Data 2018/ Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)<br>• Sicrhau bod gwybodaeth a gedwir gan TGCh wedi ei diogelu gan gyfrinair/ wedi ei hamgryptio<br>• Sicrhau bod ymarfer yn bodloni gofynion Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol<br>• Cadw gwybodaeth yn ei meddiant drwy'r amser os yw'n gadael y swyddfa/yn mynd i gyfarfod<br>• Gwneud yn siŵr mai dim ond staff awdurdodedig sy'n gallu cael mynediad at nodiadau ffeil<br>• Dim ond rhannu nodiadau ffeil Lily yn unol â phrotocolau a gytunwyd o ran rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau<br>Peidio â thrafod y nodiadau gydag unrhyw un heblaw am y rhai sydd ag awdurdod/ peidio â thrafod â theulu/ffrindiau<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 11. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Deall/cydnabod gwerthoedd a chredoau ei gilydd<br>• Bod yn agored ac yn onest<br>• Cydnabod mai Lily yw canolbwynt eu perthynas/glynu wrth arferion plentyn-ganolog<br>• Parchu ei gilydd/gwrando ar safbwyntiau ei gilydd/gadael i'w gilydd siarad/peidio â siarad ar draws ei gilydd.<br>• Deall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd/parchu ffiniau<br>• Rhannu arbenigedd/sgiliau i ddarparu gofal a chymorth effeithiol/dysgu oddi wrth ei gilydd<br>• Rhannu gwybodaeth/dilyn protocolau a gytunwyd ar gyfer rhannu gwybodaeth<br>• Bod â barn gyffredin am yr hyn y mae angen ei gyflawni/cynllun personol<br>• Bod yn ddibynadwy/mynychu cyfarfodydd/o ran trefniadau ymarferol/bod yn brydlon<br>• Cyflawni'r hyn y maen nhw'n dweud y byddan nhw'n ei wneud<br>• Parchu ei gilydd/peidio â beio ei gilydd/peidio â gwneud unrhyw anghytuno'n bersonol<br>• Datrys gwahaniaethau yn gadarnhaol | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 005: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Lily

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set B Lily | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 005: Ymarfer Proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Parchu urddas a phreifatrwydd Lily pan mae hi'n newid (e.e. ciwbiclau wrth ymyl ei gilydd)<br>• Peidio â ffurfio perthynas amhriodol â Lily/ei gofalwyr maeth/cydnabod ffiniau proffesiynol<br>• Bod yn barod i ymddiheuro i Lily am gymryd yn ganiataol ei bod hi eisiau mynd i'r caffi/cydnabod camgymeriadau<br>• Gwneud yn siŵr bod nodiadau Lily wedi eu storio'n ddiogel/ cynnal diogelwch data (gan gynnal rheoliadau GDPR)/ gwybodaeth yn ddiogel ac wedi ei storio'n ddiogel<br>• Peidio ag esgusodi/derbyn/ gwahaniaethu (e.e. herio ymddygiad annerbyniol yn y caffi)<br>• Cynnal enw da/safonau/cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol/cynrychioli'r proffesiwn gofal cymdeithasol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Anghenion gofal a chymorth/canlyniadau cadarnhaol Lily<br>• Dymuniadau/hoffterau Lily<br>• Anghenion iechyd Lily<br>• Gweithgareddau hamdden<br>• Trefniadau cyswllt gyda theulu a ffrindiau<br>• Rolau/cyfrifoldebau gofalwyr maeth/gweithwyr cefnogi unigol/ eraill/ gweithwyr proffesiynol<br>• Camau gweithredu sy'n cynnwys gweithio amlasiantaethol/gweithio mewn partneriaeth<br>• Amserlenni y dylid cymryd camau o fewn iddyn nhw<br>• Dangosyddion i fesur cynnydd/ nodau penodol<br>• Dyddiad adolygu ar gyfer y cynllun personol<br>• Camau gweithredu diwygiedig yn dilyn adolygiad o'r cynllun personol | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Gwybodaeth o ran addysg h.y. ysgol/unrhyw gefnogaeth ychwanegol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 3. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Parch at ddiwylliant Lily (e.e. ceisio defnyddio'r Gymraeg gymaint â phosibl)<br>• Parchu preifatrwydd ac urddas Lily (e.e. yn yr ystafelloedd newid)<br>• Empathi tuag at Lily (e.e. ymatebwyd yn annerbyniol i atal dweud Bethan/mae ganddi rywfaint o ddealltwriaeth o brofiadau Lily fel plentyn sy'n byw gyda Syndrom Tourette<br>• Eirioli dros Lily/ei hamddiffyn (e.e. herio'r ymddygiad annerbyniol/gwahaniaethu)<br>• Gonest/agored i adrodd am/cofnodi'r digwyddiad<br>• Credu mewn cynhwysiant – peidio â thynnu Lily o'r caffi yn ystod y digwyddiad<br>• Parodrwydd i ddysgu/gwella (e.e. myfyrio ar ei hymarfer ei hun)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 4. | **Rhowch 1 marc** am unrhyw enghraifft am 1 marc yn unig.<br><br>• Does dim llawer o gyfle i Lily gyfathrebu yn Gymraeg/ei dewis iaith<br>• Mae Lily'n bryderus am gyfathrebu/ymwybodol o arwyddion ei Syndrom Tourette<br>• Dydy Lily ddim yn siarad â Bethan ar ôl y digwyddiad yn y caffi/Lily'n colli ymddiriedaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 1 marc |
| 5. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Helpu Bethan i wneud synnwyr o'r hyn sydd wedi digwydd<br>• Cynyddu hunanymwybyddiaeth emosiynol Bethan (e.e. ei hymatebion emosiynol i'r digwyddiad yn y caffi – gwylltio)<br>• Helpu Bethan i gydnabod/deall sut mae ei phrofiad ei hun yn dylanwadu ar sut mae hi'n ymateb | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Helpu Bethan i adnabod ei chryfderau personol a phroffesiynol<br>• Helpu Bethan i gydnabod/gwella'r heriau personol a phroffesiynol y dylid mynd i'r afael â nhw o fewn ei hymarfer<br>• Galluogi Bethan a'i goruchwyliwr i nodi cyfleoedd dysgu ffurfiol/anffurfiol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 6. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Bethan<br>• Herio ymddygiad y plant yn y caffi<br>• Adrodd am beth aeth o chwith wrth ofalwyr maeth Lily<br>• Siarad â James am ei chamau nesaf i wella canlyniadau i Lily.<br>• Adrodd am wybodaeth bwysig wrth ei goruchwyliwr (e.e. digwyddiad yn y caffi yn ystod goruchwyliaeth)<br>• Cymryd rhan mewn goruchwyliaeth/ymateb i adborth)<br>• Rhannu gwybodaeth â phartneriaid amlasiantaethol<br>• Sicrhau ei bod hi'n dilyn polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w rôl/gwella ei hymarfer<br>• Bodlon ymddiheuro i Lily am beidio ag ymgynghori â hi<br>• Cofnodi nodiadau o'r digwyddiad a'u storio'n ddiogel<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 7. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gwybodaeth am Syndrom Tourette/sut mae Tourette's yn effeithio ar blant/pobl ifanc/ ffyrdd o gefnogi plentyn neu berson ifanc sydd â Tourette's<br>• Pwysigrwydd darllen cynlluniau personol<br>• Pwysigrwydd cynnwys y plentyn/person ifanc yn y broses o gynllunio personol/gwneud penderfyniadau<br>• Gweithio amlasiantaethol/partneriaeth/cyfathrebu wrth gynllunio<br>• Ymgynghori â phlentyn/person ifanc a pham mae hyn yn bwysig/canlyniadau posibl peidio â gwneud hynny<br>• Hawl plentyn/person ifanc i wneud cwyn<br>• Hawl plentyn/person ifanc i gael eiriolwr annibynnol<br>• Ymarfer myfyriol<br>• Cyfyng-gyngor sy'n gysylltiedig â gweithio gyda phlant/pobl ifanc<br>• Dyletswydd gonestrwydd/angen bod yn agored ac yn onest yn cynnwys pan fydd pethau'n mynd o chwith | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Rheoli ei hemosiynau ei hun/deall sut gall emosiynau effeithio ar ymateb i sefyllfaoedd<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gwneud yn siŵr bod Lily'n gallu cael mynediad at ofal a chymorth mewn ffordd ddi-dor/nad oes bylchau mewn gwasanaethau<br>• Gwneud yn siŵr bod gan Lily fynediad at ofal a chymorth mewn modd amserol/ y gall asiantaethau/gweithwyr proffesiynol drefnu pwy fydd yn darparu eu gwasanaeth a phryd/osgoi gwrthdaro o ran amseru'r broses o ddarparu gwasanaethau<br>• Cael gwared ar yr angen i Lily ailadrodd gwybodaeth wrth wahanol asiantaethau<br>• Darparu gwasanaeth mwy cyfannol/ymatebol/nid oes un gweithiwr proffesiynol/sefydliad yn debygol o fod â'r darlun llawn o fywyd Lily<br>• Rhannu gwybodaeth i gefnogi Lily/ei chanlyniadau.<br>• Rhannu cyfrifoldeb/arbenigedd rhwng asiantaethau/gweithwyr proffesiynol er mwyn goresgyn unrhyw heriau i Lily<br>• Rhannu adnoddau rhwng asiantaethau/gweithwyr proffesiynol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 9. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>Er mwyn deall<br>• Effaith/effeithiau ei hymddygiad ei hun<br>• Ffyrdd gwahanol o ddefnyddio ei phŵer<br>• Pwysigrwydd hybu hawliau'r plentyn<br>• Pwysigrwydd llais a rheolaeth<br>• Lle mae grym a rheolaeth yn ffitio i mewn i rôl Bethan fel gweithiwr gofal a chymorth<br>• Sut i ddefnyddio pŵer a rheolaeth yn gyfrifol/sensitif<br>• Rhaid peidio â defnyddio pŵer mewn ffyrdd sy'n cam-drin eraill<br>• Sut gallai plant dan amgylchiadau Lily deimlo wedi'u dadrymuso h.y. derbyn gofal/wedi'u gwahanu oddi wrth eu mam<br>• Y ffyrdd y gellir grymuso Lily (e.e. mynediad at wasanaeth eirioli)<br>• Anghenion plant â Tourette/anabledd | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 10. | **Rhowch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o ran cysgodi.<br>Nid yw'r ymateb yn gwneud cysylltiadau penodol rhwng cysgodi a Bethan neu wella ymarfer.<br>**Rhowch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ran cysgodi.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng cysgodi a Bethan neu wella ymarfer.<br>**Rhowch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ran cysgodi.<br>Mae'r ymateb yn rhoi rhai cysylltiadau o ran sut gall cysgodi wella ymarfer Bethan.<br>**Rhowch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ran cysgodi.<br>Mae'r ymateb yn rhoi enghreifftiau a/neu esboniad clir o ran sut gall cysgodi wella ymarfer Bethan.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br>• Gall arsylwi'r gwahanol ffyrdd mae gweithwyr yn cyfathrebu helpu Bethan i ddeall/rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o drafod/annog plant i ymuno mewn gweithgareddau<br>• Gallai gweld sut mae gweithwyr eraill yn cael cydsyniad roi dulliau gwahanol i Bethan roi cynnig arnyn nhw er mwyn ymgynghori/cael cydsyniad<br>• Bydd gweld gweithwyr eraill yn cysuro plant sy'n teimlo'n anghyfforddus/dangos pryder yn helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth Bethan o iaith y corff<br>• Gallai gweld gweithwyr eraill yn rheoli ymddygiad plant helpu Bethan i dawelu ymddygiad heriol<br>• Gallai arsylwi eraill roi cyfle i Bethan ddysgu o gamgymeriadau pobl eraill/nodi gwelliannau<br>• Cyfle i siarad am arferion gorau gyda gweithiwr arall/gofyn cwestiynau am feysydd/materion penodol<br>• Cyfle i weithio ochr yn ochr â gweithwyr mwy profiadol, gallu helpu Bethan i fagu hyder yn ei rôl/rhoi cynnig ar/ymarfer gwahanol ddulliau â chanllawiau/cefnogaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 11. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Bethan<br>• Gweithio'n agos gyda'r gofalwyr maeth<br>• Adrodd wrth y tîm amlasiantaethol<br>• Cael goruchwyliaeth gyda'i goruchwyliwr<br>• Bydd hi'n cysgodi cydweithwyr mwy profiadol<br>• Codi Lily o'r ysgol<br>• Cofnodi yn y cynllun personol<br>• Dilyn y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 005: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Lily

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set C Lily | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 005: Ymarfer Proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Rhowch 1 marc** am unrhyw enghraifft am 1 marc yn unig.<br><br>• Mae Lily wedi cymryd rhan yn y broses o ddatblygu ei chynllun personol<br>• Mae Lily'n gallu mynegi ei dymuniadau (e.e. mynd i nofio)<br>• Mae James yn dweud wrth Lily bod ganddi'r hawl i wneud cwyn am Bethan ddim yn ymgynghori â hi<br>• Mae James yn dweud wrth Lily bod ganddi hawl i gael eiriolwr annibynnol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 1 marc |
| 2. | **Rhowch 1 marc** am bob newid hyd at uchafswm o 2 farc<br>• Profiad o argyfwng iechyd meddwl ei mam<br>• Wedi ei gwahanu oddi wrth ei mam/ei mam mewn uned iechyd meddwl<br>• Gadael cartref y teulu/ symud oddi wrth ffrindiau/teulu<br>• Symud i ofal maeth dros dro/cyfarfod â gofalwyr maeth<br>• Newidiadau posibl/tebygol i'r drefn ddyddiol<br>• Newid yn yr amgylchedd lleol<br>• Dod yn blentyn sy'n derbyn gofal<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 3. | **Rhowch 1 marc** am bob sgìl hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Defnyddio cymaint o eiriau Cymraeg â phosibl/dangos parch at iaith a diwylliant Lily<br>• Rhoi amser/lle i Lily siarad<br>• Ymateb i/deall iaith y corff a chyfathrebu di-eiriau<br>• Bod yn ymwybodol o/ymateb i iaith y corff a chyfathrebu di-eiriau<br>• Defnyddio tôn y llais/lefel sain priodol<br>• Defnyddio cyswllt llygad | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Meddwl am agosrwydd at Lily/safle eistedd<br>• Defnyddio dull cwestiynu agored/dysgu beth mae Lily yn ei feddwl/eisiau<br>• Rhoi ymatebion nad ydynt yn feirniadol<br>• Cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n briodol i'r plentyn/defnyddio iaith y gall Lily ei deall<br>• Myfyrio/gwirio bod Lily wedi deall<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Parchu/bodloni ymrwymiadau gwaith/ dibynadwy (e.e. codi a gollwng Lily)<br>• Dweud wrth James ac Anna beth ddigwyddodd yn y caffi/ cyfathrebu mewn ffyrdd agored/cyflawni dyletswydd gonestrwydd<br>• Gonestrwydd yn ystod goruchwyliaeth/cymryd rhan mewn ymarfer myfyriol<br>• Dweud wrth ei goruchwyliwr beth ddigwyddodd<br>• Parchu gwybodaeth gyfrinachol/storio nodiadau ffeil Lily yn ddiogel<br>• Cynnal safonau proffesiynol (e.e. cwblhau tasgau fel nodiadau ffeil yn ôl y gofyn/mynychu goruchwyliaeth)<br>• Eirioli dros Lily (e.e. y caffi)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 5. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae'n bodloni gofynion y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol/angen bod yn agored ac yn onest, yn cynnwys pan fydd pethau'n mynd o chwith<br>• Mae'n cefnogi'r ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol/mae'n rhaid i Bethan drosglwyddo gwybodaeth bwysig i'w rheolwr, h.y. pan fydd pethau'n mynd o chwith.<br>• Dilyn arferion plentyn-ganolog/ blaenoriaethu buddiannau Lily<br>• Hybu hawliau dynol Lily/hawl Lily i adolygiad o driniaeth mewn gofal<br>• Hybu llais a rheolaeth Lily<br>• Mae'n cefnogi egwyddorion diogelu ac arferion diogel<br>• Mae'n rhoi cyfle i Bethan ddysgu o'r profiad<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 6. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Cadw gwybodaeth bersonol Lily yn gyfrinachol<br>• Dangos parch at urddas/preifatrwydd Lily (e.e. dim rhannu gwybodaeth breifat yn ddiangen)<br>• Dim ond pobl y mae angen iddyn nhw wybod sy'n gallu cael mynediad atyn nhw<br>• Atal niwed i lesiant Lily/ colli ymddiriedaeth<br>• Cynnal hawliau Lily<br>• Gwneud yn siŵr bod parhad o ran gofal a chymorth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 7. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Eu helpu nhw i fynegi teimladau/dymuniadau<br>• Rhoi cyngor/gwybodaeth ddiduedd i blentyn/ eu helpu nhw i wneud penderfyniad deallus<br>• Helpu i'w paratoi ar gyfer cyfarfodydd<br>• Mynychu cyfarfodydd lle gwneir penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau/mynychu ar ran y plentyn<br>• Gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael eu trin yn deg/ cynnal eu hawliau<br>• Eu cefnogi nhw o ran pryder neu gŵyn<br>• Trafod â gweithwyr proffesiynol eraill ar eu rhan/cynrychioli eu dymuniadau<br>• Gofyn cwestiynau/siarad ar eu rhan os mai dyna yw eu dymuniad<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 8. | **Rhowch 1 marc** am bob mantais hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Rhannu cyfrifoldeb/atebolrwydd am ofal a chymorth Lily/ heb fod yn ynysig<br>• Gweithio tuag at nod cyffredin<br>• Hybu cyfathrebu effeithiol<br>• Rhannu llwythi gwaith<br>• Cyfle i ddysgu gan aelodau eraill o'r tîm<br>• Cyfle i rannu arfer gorau<br>• Rhywun i siarad â nhw/rhannu pryderon/canfod datrysiadau<br>• Hybu diwylliant gwaith da/ morâl cadarnhaol<br>• Rhoi cyswllt cymdeithasol â phobl eraill / osgoi teimlo'n unig | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Rhowch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd dysgu o adborth.<br>Nid yw'r ymateb yn gwneud cysylltiad penodol rhwng adborth a Bethan neu wella ymarfer.<br>**Rhowch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd dysgu o adborth.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng adborth a Bethan neu wella ymarfer.<br>**Rhowch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd dysgu o adborth.<br>Mae'r ymateb yn rhoi rhai cysylltiadau o ran sut gall adborth wella ymarfer Bethan.<br>**Rhowch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o bwysigrwydd dysgu o adborth.<br>Mae'r ymateb yn rhoi enghreifftiau a/neu esboniad clir o ran sut gall adborth wella ymarfer Bethan.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Mae Bethan yn dysgu na wnaeth hi roi llais, dewis a rheolaeth i Lily drwy gymryd yn ganiataol ei bod hi eisiau mynd i'r caffi ar ôl nofio<br>• Mae Bethan yn dysgu pa mor bwysig yw ymgynghori â phlentyn/person ifanc yn ddyddiol, gan gynnwys canlyniadau posibl peidio â gwneud hyn<br>• Mae Bethan yn dysgu pa mor bwysig yw darllen cynllun personol yn ofalus er mwyn sicrhau bod ganddi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arni i roi cefnogaeth effeithiol<br>• Mae Bethan yn dysgu y gall ei methiant i ymgynghori arwain at gŵyn yn erbyn ei hymddygiad fel gweithiwr cefnogi<br>• Mae Bethan yn cydnabod ei bod hi'n bwysig ymddiheuro pan mae'n gwneud rhywbeth o chwith<br>• Mae goruchwyliwr Bethan yn ei chefnogi hi i ddysgu am ei chryfderau a meysydd i'w datblygu ymhellach fel gweithiwr cefnogi/ yr hyn y byddai'n ei ailadrodd a'r hyn y gallai ei wneud yn wahanol pe bai'n wynebu'r un sefyllfa<br>• Mae Bethan yn archwilio/deall yr heriau wrth fynd i'r afael ag ymddygiad anodd<br>• Mae Bethan yn dysgu am ddulliau i fynd i'r afael â sefyllfaoedd anodd<br>• Mae Bethan yn dysgu pa mor bwysig yw cydnabod/rheoli emosiynau wrth ddelio â sefyllfaoedd tebyg | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 10. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Cynnal ei dyletswydd gofal ei hun<br>• Cynnal urddas Lily/dangos parch<br>• Diogelu hawliau Lily fel plentyn<br>• Hybu cynhwysiant Lily/gwneud iddi deimlo'n saff/diogel/sicr yn y caffi<br>• Dilyn y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol/diogelu Lily rhag camdriniaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 11. | **Rhowch 1 marc** am bob mantais hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Galluogi Bethan i wneud y canlynol:<br>• Rhoi adroddiad/diweddariad ar lafar am p'un a fodlonwyd amcanion/nodau ar gyfer gofal Lily<br>• Trafod cynnydd mewn perthynas â chynllun personol Lily/gosod targedau newydd i Bethan o ran llesiant Lily.<br>• Trafod materion sy'n peri pryder (e.e. digwyddiad yn y caffi)<br>• Trafod unrhyw faterion o ran perthnasoedd proffesiynol sy'n gysylltiedig â rôl Bethan<br>• Trafod/cytuno ar ffyrdd o gefnogi llesiant/canlyniadau Lily yn fwy effeithiol<br>• Rhannu materion personol a allai effeithio ar waith Bethan gyda Lily<br>• Nodi anghenion o ran datblygiad proffesiynol/hyfforddi (e.e. darllen cynllun personol/ymchwilio i bŵer)<br>• Gwneud yn siŵr bod Bethan yn cael ei dwyn i gyfrif am ei gwaith gyda Lily<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 005: 20 marc** | **30 marc** |

## Astudiaeth Achos – Leon

Rydych chi'n mynd i ddarllen am berson ifanc sydd ag anableddau dysgu ac yn mynychu canolfan seibiant byr o'r enw Bryn Tywyll.

Yr unigolion yw:

| | |
|---|---|
| Leon | person ifanc 13 oed sydd ag anableddau dysgu |
| Mary | ei fam |
| Erik | gweithiwr gofal a chymorth Bryn Tywyll |
| Anna | rheolwr Bryn Tywyll |
| Martin | ffrind i fam Leon |
| Gweithiwr Cymdeithasol | |

Dydy'r astudiaeth achos hon ddim yn seiliedig ar sefydliad nac unigolion go iawn.

Mae Bryn Tywyll yn ganolfan seibiant byr ar gyfer pobol ifanc sydd ag anableddau dysgu/anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Mae pobol ifanc yn defnyddio'r ganolfan yn y nosweithiau ac ar y penwythnosau. Mae gan y ganolfan 6 gwely a gall pobol ifanc aros hyd at bythefnos.

Mae Leon yn 13 blwydd oed. Mae ganddo anableddau dysgu ac mae e ar y sbectrwm awtistig. Mae Leon yn mwynhau mynychu'r ganolfan ac wedi creu nifer o ffrindiau yno.

Mae Leon yn cael ei adnabod gan dìm gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol ac ar y gofrestr amddiffyn plant, categori esgeulustod.

Nid yw mam Leon bob amser yn gallu cyrraedd ei anghenion yn llawn. Mae hi ar adegau wedi anghofio i roi meddyginiaeth iddo am ei ffitiau. Mae Leon yn aml yn llwglyd ac yn gwisgo dillad sydd ddim bob tro yn ffitio'n dda.

Mae mam Leon wedi cael perthynas gyda dyn roedd yn euogfarnedig o gam-drin plant, Nid yw teulu estynedig Leon yn byw yn lleol ac yn prin iawn yn rhan o'i fagwraeth.

O ganlyniad i bryderon diogelu mae gan Leon pecyn gofal yn y ganolfan. Mae hwn ar gyfer 1 noson yr wythnos, 1 penwythnos y mis a phedwar wythnos y flwyddyn.

Mae Erik wedi bod yn weithiwr allweddol ers iddo ddechrau mynychu'r ganolfan ac yn gyfrifol am ddiweddaru ei gynllun personol. Hefyd, mae Leon wedi creu perthnasau positif gyda gweithwyr eraill, mae hwn wedi darparu cysondeb gofal ac mae hwn yn gysur i Leon.

Mae Leon yn gallu cyfathrebu ar lafar, ond yn hoffi defnyddio Makaton pan mae'n bryderus. Mae Leon yn ymateb orau pan mae gwybodaeth mewn iaith glir. Mae Erik a staff eraill wedi dysgu ffordd orau Leon o gyfathrebu ac wedi mynychu hyfforddiant Makaton i sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol gyda Leon.
Mae Leon ar fin derbyn gwyliau byr wythnos o hyd yn Bryn Tywyll. Mae'n wyliau ysgol felly dylai ei fam dod ag e i'r ganolfan cyn 5pm yn hytrach na'r tacsi arferol yn syth o'r ysgol.

Am 5.30pm mae Leon dal heb gyrraedd ac mae Erik yn dechrau teimlo'n bryderus. Mae'n ceisio ffonio mam Leon ond does dim ateb. Yn fuan wedyn mae Leon yn cyrraedd y ganolfan. Yn ystod gwyliau haf byddai Leon yn cyrraedd gyda'i fam, a byddai hi'n aros gyda fe am dipyn

bach o amser. Y tro hwn, mae Leon ar ben ei hun, a gyda nifer bach o eiddo. Gwelodd gweithiwr Leon yn cyrraedd, a'r car yn gadael. Dywedodd y gweithiwr wrth y rheolwr, Anna sydd yn ceisio ffonio mam Leon ond does dim ymateb.

Yn y cyfamser, mae Erik yn mynd â Leon i'r ystafell fwyta ac yn cynnig diod a bwyd iddo ac yn eistedd gyda fe tra ei fod yn bwyta'r bwyd. Mae Erik yn sylwi bod Leon yn arogli'n gryf o arogl y corff. Mae Erik yn gofyn i Leon pam doedd ei fam ddim gydag e a pwy wnaeth dod ag e. Dywedodd Leon ei bod hi yn y gwely. Mae Erik yn ceisio cael rhagor o fanylion gan Leon ond mae'n rhoi ei fysedd at ei wefusau ac yn dweud dim byd heblaw am 'cyfrinach'. Mae Erik yn dweud wrth Leon bod cyfrinachau gallu cael eu rhannu os gallan nhw helpu rhywun, ond mae Leon yn dweud dim byd heblaw 'cyfrinach'.

Mae Erik yn dangos i Leon ei ystafell ac yn helpu iddo ddadbacio ei fag, ac yn sylwi bod llai o ddillad nac arfer a'u bod nhw gyd yn frwnt. Mae Erik yn awgrymu i Leon eu bod nhw'n glanhau'r dillad gyda'i gilydd. Mae Erik yn mynd â Leon i ddewis dillad glan o'r casgliad sbar sy'n cael eu cadw yn y ganolfan. Mae Erik yn annog Leon i ymolchi, a chyn gadael yr ystafell mae Leon yn tynnu ei grys ac mae Erik yn sylwi bod cleisiau newydd ar ei frest ac ar ran uchaf ei freichiau. Mae'n gofyn i Leon sut ddigwyddodd hyn ac mae Leon eto yn rhoi ei fysedd at ei wefusau a dweud 'cyfrinach'.

Mae Erik yn pryderu'n fawr am Leon ac yn rhannu ei bryderon gyda Anna. Mae Anna yn cytuno ac yn cofnodi'r mater gyda'r tìm gwaith cymdeithasol ar ddyletswydd y tu allan i oriau. Maen nhw'n cytuno y bydd y gweithiwr cymdeithasol sydd wedi ei ddyrannu i Leon yn ymweld ag e'r bore canlynol. Mae Anna yn atgoffa Erik i gwblhau cofnod personol Leon a'r llyfr cyfathrebu staff.

Yn hwyrach yn y nos mae Erik yn annog Leon i gael yn barod i fynd i'r gwely, mae Leon yn dechrau dweud wrth Erik am ei gyfrinach. Mae Leon yn dechrau gwneud yr arwydd am 'adref' ac yn ymddangos yn bryderus. Mae Erik yn cysuro Leon wrth ddweud ei fod mewn lle diogel ac yn esbonio bod rhai cyfrinachau angen eu rhannu i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel.

Mae Leon yn dweud wrth Erik iddo ddod i'r ganolfan gyda ffrind newydd ei fam - Martin. Mae Leon yn dweud nag yw'n hoff iawn ohono. Mae Leon yn dweud bod Martin yn treulio llawer o amser yn eu ty ac yn dweud bod Martin yn gweiddi arno ac mae ei fam yn ei alw'n twpsyn ac yn chwerthin arno. Mae Leon yn dweud bod Martin wedi gwneud iddo grio ac mae wedi gweld ei fam yn crio hefyd. Mae Leon yn dweud doedd ei fam ddim yn teimlo'n dda iawn felly wedi aros adref yn y gwely. Mae'n debyg bod Martin wedi dweud wrth Leon i gadw pob peth sy'n digwydd adref fel cyfrinach a byddai'n bwrw Leon os mae'n clywed ei fod wedi siarad ag unrhyw un.

Mae Erik yn dweud wrth Leon ei fod yn ddewr iawn am ddweud a bydd y wybodaeth angen cael ei rannu gyda Anna a'i weithiwr cymdeithasol. Mae Leon yn pendwmpian ac yn ymddangos yn hapus gyda hyn.
Unwaith mae Leon yn gysurus, mae Erik yn siarad â Anna. Mae Anna yn cynorthwyo Erik i gwblhau adroddiad diogelu, cyn cyfathrebu â gweithwyr eraill am eu pryderon. Gallan nhw alw'r tìm diogelu am ragor o arweiniad a chefnogaeth.

Mae Erik yn bryderus iddo beidio â delio â'r sefyllfa yn dda iawn ac efallai angen rhagor o hyfforddiant. Mae Anna yn awgrymu eu bod yn trafod hwn mewn cyfarfod ôl-drafodaeth yn y bore. Yn yr ôl-drafodaeth mae Anna yn cynghori Erik i ddarllen adolygiadau i mewn i fethianau difrifol i amddiffyn plant achos y gallan nhw ddarparu dysgu gwerthfawr

## Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Leon

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set A Leon | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 006: Diogelu unigolion** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Hanes teuluol o esgeulustod<br>• Y fam ddim yn iach<br>• Anabledd (anabledd dysgu ac anhwylder ar y sbectrwm awtistig)<br>• Cyfathrebu cyfyngedig<br>• Hanes cydnabyddedig o berthnasau teuluol anniogel<br>• Diffyg cefnogaeth teuluol lleol<br>• Defnydd o ganolfan seibiant byr<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Wedi dweud i gadw pethau'n gyfrinachol<br>• Ofn cael cosb gan Martin<br>• Ofn bydd eraill yn dweud y drefn<br>• Tybio bydd neb yn ei gredu<br>• Ofn bydd Martin yn brifo ei fam<br>• Ofn o gael ei symud o'r cartref<br>• Ddim yn deall ei fod yn cael ei gam drin<br>• Ddim yn deall beth fydd yn digwydd<br>• Ddim yn gwybod sut i godi ei bryderon<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob peth a roddir hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Darparu cyfleoedd i Leon i siarad<br>• Bod yn gyson ac yn ddibynadwy/cael perthynas da<br>• Osgoi cwestiynu gormodol i Leon am beth ddigwyddodd<br>• Cysuro Leon ei fod mewn lle diogel<br>• Cysuro Leon ei fod yn gwneud y peth iawn | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Yn onest am y camau nesaf<br>• Cyflawni hyfforddiant Makaton i gefnogi cyfathrebu<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig sydd yn dangos ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd adeiladu ffydd a chydberthynas.<br>Dyw'r ymateb ddim yn gyswllt penodol o wybodaeth/dealltwriaeth a dangoswyd gyda Leon.<br>**Dyfarnwch 2 marc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd adeiladu ffydd a chydberthynas.<br>Mae'r ymateb yn ceisio gwneud y cyswllt gyda Leon.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd adeiladu ffydd a chydberthynas.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu gwybodaeth/dealltwriaeth gyda ffydd/cydberthynas a sut gall adeiladu ar hyn gyda Leon.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ac yn deall pwysigrwydd adeiladu ffydd a chydberthynas.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu'n glir gwybodaeth/dealltwriaeth a sut mae ffydd/cydberthynas gallu cael eu hadeiladu gyda Leon/gweithwyr<br><br>**Mae atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• I helpu Leon i deimlo'n ddiogel<br>• I oresgyn diffyg ffydd efallai sydd gan Leon yn dilyn ei hanes o esgeuluso<br>• I gefnogi anghenion cyfathrebu Leon<br>• I gefnogi anghenion lles cyfredol Leon (y mwyaf o ffydd sydd yn y berthynas, y hawsaf i ddehongli ymddygiad a chyfathrebu)<br>• I helpu Leon i deimlo'n hyderus am y gefnogaeth mae'n derbyn<br>• I helpu Leon i deimlo'r gallu i ddatgelu unrhyw gam drin posib<br>• I gallu siarad â Leon am beth mae e eisiau<br>• I roi grym i Leon i ofyn am beth mae eisiau/angen<br>• I sicrhau bod gan Leon llais (wrth weithredu fel eiriolwr anffurfiol)<br>• I hyrwyddo hawliau Leon<br>• Y gallu i ddatblygu cynllun personol gyda Leon<br>• Y gallu i weithredu cynllun personol<br>• I hyrwyddo gofal plentyn canolog ac egwyddorion<br>• I adeiladu perthnasau positif gyda Leon a'i deulu<br>• I gyrraedd dyletswydd gofal | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • I gyfarfod er mwyn cytuno ar ffyrdd o weithio/deddfwriaeth/polisiau a gweithdrefnau | |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Cofnodion i fod yn fanwl gywir<br>• Cofnodion wedi dyddio ac, yn yr achos hwn, eu hamseru<br>• Cofnodion angen bod yn eglur<br>• Cofnodion i'w cwblhau cyn gynted â phosib ar ol y datgeliad<br>• Cofnodion angen cynnwys union eiriau'r person ifanc<br>• Cofnodion i enwi unigolion yn glir, enwau llawn ac nid llythrennau cyntaf<br>• Cofnodion angen cael eu llofnodi (e-lofnod ddim yn dderbyniol)<br>• Dim jargon neu fratiaith i'w ddefnyddio oni bai'r union eiriau'r person ifanc<br>• Sicrhau bod y cofnodion yn gwahaniaethu rhwng ffaith, opiniwn a gwybodaeth trydydd person<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt a rhoi i fyny at uchafswm o 2 farc.<br><br>Mae polisiau a gweithdrefnau'r lleoliad,<br>• Yn esbonio rôl y swydd a chyfrifoldebau mewn cyswllt â diogelu<br>• Yn darparu cyfyngiadau rôl y swydd mewn cyswllt â diogelu (adnabod tasgau sydd wedi eu cwblhau gan eraill)<br>• Yn darparu diffiniadau ar gyfer cam drin ac esgeuluso<br>• Yn darparu arweiniad ar bwy i gysylltu tu allan y gwasanaeth (chwythu'r chwiban)<br>• Yn ddyletswydd i gofnodi diogelu<br>• I gofnodi gwallau neu esgeulustod/ didwylledd<br>• Yn rhoi arweiniad i Erik am ble i ddarganfod gwybodaeth a chefnogaeth mewn cyswllt â phryderon am gam drin neu niwed posibl<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc. | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • I addasu i ffyrdd gwell o weithio i amddiffyn eraill<br>• I sicrhau chi'n dysgu o gamgymeriadau eraill ac i beidio eu hail-adrodd<br>• I sicrhau bod gweithio aml-asiantaeth yn digwydd fel bo angen<br>• I sicrhau rhannu effeithiol/amserol o wybodaeth<br>• I fod yn ymwybodol o gyfrifoldebau pawb<br>• I gallu adnabod pryderon ar bwynt cynharach<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. | NODWCH. Dylai atebion canolbwyntio ar sgiliau cyfathrebu nid cymorth ymarferol.<br>• Defnyddio sgiliau gwrando gweithredol/caniatau amser i wrando<br>• Defnyddio Makaton i atgyfnerthu cyfathrebu geiriol<br>• Darparu gofod diogel am sgwrsio<br>• Crynhoi ac adborth/ ailadrodd gwybodaeth i wirio dealltwriaeth<br>• I beidio barnu<br>• Cydweddu iaith y corff gyda naws y llais i'r iaith sy'n cael ei ddefnyddio<br>• Defnyddio iaith mae Leon yn ei ddeall<br>• I beidio â defnyddio strwythur brawddegau cymhleth<br>• Rhoi amser i Leon i gyfathrebu yn ei amser ei hun<br>• I fod yn ymwybodol am deimladau/amgylchedd Leon ac addasu yn unol â hynny<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Mae'r cod yn hybu:<br>• Partneriaethau gwaith gyda phobol broffesiynol eraill<br>• Gweithio gyda phobol ifanc i gadw nhw'n ddiogel<br>• Hyrwyddo rhannu gwybodaeth yn ddiogel<br>• Defnyddio pwer yn y berthynas gyda sensitifrwydd<br>• Adnabod a gwrando ar lais y person ifanc<br>• Defnyddio gweithdrefnau i herio, cofnodi neu amlygu ymddygiad o gamdrin<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Defnyddio ffyrdd priodol o gyfathrebu<br>• Ymateb i bryderon Leon<br>• Darparu cyfleoedd i Leon ddatgelu<br>• Wedi gwrando ar Leon<br>• Deall sefyllfa Leon/ a risgiau posibl yn y teulu<br>• Cynnwys Leon yn ei ofal ei hun a gyda gwneud penderfyniadau<br>• Sicrhau bod Leon yn gallu mynegi ei ofnau<br>• Sicrhau bod gan Leon llais (gweithredu fel eiriolwr anffurfiol)<br>• Canolbwyntio ar les Leon yn hytrach na'i deulu ehangach<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 006: 20 marc** | **30 marc** |

## Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Leon

| **Cynllun Marcio – Cwestiwn Set B Leon** | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc)**<br>**Uned 006: Diogelu unigolion** | |
| **Cwestiwn** | **Canllaw ateb** | **Uchafswm marciau** |
| 1. | **Rhowch 1 marc** am bob cyfrifoldeb hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Canfod materion diogelu posibl (arwyddion a symptomau)<br>• Rhoi gwybod am bryderon yn gywir ac ar unwaith i'r unigolyn priodol/ei swyddog uwch<br>• Cofnodi pryderon yn gywir ac ar unwaith<br>• Dilyn gofynion diogelu cenedlaethol a lleol<br>• Ymateb i Leon yn y ffordd briodol (e.e. dweud wrth Leon bod ganddo gyfrifoldeb i roi gwybod amdano)<br>• Rhannu gwybodaeth briodol â chydweithwyr/ 'angen gwybod'<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 2. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Mae Erik yn gwneud y canlynol:<br>• Defnyddio gwrando gweithredol<br>• Rhoi dewisiadau i Leon a rhannu syniadau<br>• Bod yn agored ac yn onest gyda Leon (e.e. dweud wrth Leon na fyddai'n gallu cadw ei gyfrinach)<br>• Cyfathrebu â Leon gan ddefnyddio hoff ffordd Leon (e.e. Makaton)<br>• Gweithredu i amddiffyn Leon<br>• Gwerthfawrogi Leon fel unigolyn<br>• Sylweddoli bod rhywbeth o'i le/gofyn i Leon beth sy'n bod<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 3. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Drwy wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n trafod unrhyw wybodaeth am waith/Leon y tu allan i'r gwaith<br>• Drwy wneud yn siŵr bod sgyrsiau'n digwydd mewn lleoliad priodol<br>• Drwy wneud yn siŵr bod cofnodion llaw ac electronig yn cael eu cadw'n ddiogel | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Drwy atgoffa cydweithwyr o gyfrinachedd/ffiniau proffesiynol<br>• Drwy drafod sefyllfa Leon ag eraill ar sail 'angen gwybod' yn unig<br>• Drwy geisio arweiniad os nad ydynt yn siŵr pa wybodaeth/hyfforddiant i'w rannu<br>• Drwy ddilyn polisïau a gweithdrefnau/ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Rhowch 1 marc** am bob cyfrifoldeb hyd at uchafswm o 3 marc<br><br>• Datgelu unrhyw faterion diogelu a ddatgelir iddynt<br>• Cefnogi llesiant Leon<br>• Cefnogi Leon i ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddo<br>• Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am ddymuniadau a theimladau Leon<br>• Mynd i gyfarfodydd gwneud penderfyniadau gyda sefydliadau / ar ran Leon<br>• Cynnal hawliau cyfreithiol Leon<br>• Darparu gwybodaeth ddiduedd i Leon h.y. ar fformat mae'n gallu ei ddeall<br>• Negodi â gweithwyr cymdeithasol a phobl berthnasol eraill<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 5. | **Rhowch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am sut gallai sefyllfa deuluol Leon gynyddu'r risg o niwed neu gamdriniaeth.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â Leon ac arwyddion posibl o gam-drin.<br>**Rhowch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am sut gallai sefyllfa deuluol Leon gynyddu'r risg o niwed neu gamdriniaeth.<br>Mae'r ymateb yn ceisio cysylltu hyn â Leon ac arwyddion posibl o gam-drin.<br>**Rhowch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am sut gallai sefyllfa deuluol Leon gynyddu'r risg o niwed neu gamdriniaeth.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu hyn â sut gallai fod yn berthnasol i Leon ac arwyddion posibl o gam-drin<br>**Rhowch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am sut gallai sefyllfa deuluol Leon gynyddu'r risg o niwed neu gamdriniaeth. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | Mae'r ymateb yn cysylltu hyn yn glir â sut gallai fod yn berthnasol i Leon ac arwyddion posibl o gam-drin.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Roedd mam Leon yn arfer bod mewn perthynas â rhywun â hanes o gam-drin, sy'n fater amddiffyn plant<br>• Diffyg cefnogaeth gan nad yw'r teulu estynedig yn byw'n lleol<br>• Mae gan fam Leon hanes o beidio diwallu ei anghenion, sydd wedi arwain at ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant<br>• Leon yn dweud y gallai Martin ei ddyrnu - risg posibl o gam-drin corfforol<br>• Erik yn methu â chysylltu a mam Leon, posibilrwydd o bryder am ei llesiant<br>• Gallai'r newid i'r trefniadau gollwng fod yn arwydd o esgeulustod gan fam Leon<br>• Adroddiadau bod mam Leon yn wael ac yn ei gwely yn effeithio ar ddiogelwch Leon | |
| 6. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Leon<br>• Mae rhywun wedi dweud wrtho am gadw pethau'n gyfrinach<br>• Mae arno ofn Martin (e.e. cael ei ddyrnu)<br>• Gallai fod arno ofn ymateb ei fam (e.e. gallai hi fod yn flin/anhapus)<br>• Gallai fod arno ofn y bydd pobl eraill yn dweud y drefn wrtho<br>• Efallai ei fod yn meddwl na wnaiff neb ei gredu<br>• Gallai fod arno ofn y gwnaiff Martin frifo ei fam<br>• Gallai fod arno ofn cael ei symud o'i gartref<br>• Efallai nad yw'n deall ei fod yn cael ei gam-drin<br>• Efallai nad yw'n deall beth allai ddigwydd<br>• Efallai nad yw'n gwybod sut i fynegi ei bryderon<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 7. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Rhaid i'r manylion fod yn gywir/ffeithiol<br>• Rhoi gwybod cyn gynted ag y bo'n bosibl ar ôl y datgeliad<br>• Rhaid i'r adroddiad gynnwys union eiriau'r person ifanc<br>• Ni ddylid defnyddio jargon na slang (heblaw mai dyna oedd union eiriau'r person ifanc)<br>• Gwneud yn siŵr bod y manylion yn gwahaniaethu rhwng ffaith/barn/gwybodaeth trydydd parti | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Gwneud yn siŵr bod yr adroddiad/sgwrs yn gyfrinachol/ yn digwydd mewn man cyfrinachol<br>• Gwneud yn siŵr y rhoddir gwybod yn uniongyrchol i'r unigolyn cywir<br>• Dilyn polisïau a gweithdrefn y sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am bryderon.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>Mae Erik yn gwneud y canlynol:<br>• Canfod bod yna broblem (e.e. mae Leon yn cyrraedd yn hwyr)<br>• Defnyddio'r dull cyfathrebu o ddewis Leon (e.e. Makaton)<br>• Cynnig dewisiadau i Leon (e.e. bwyd a diod)<br>• Parchu dymuniadau Leon pan nad yw eisiau siarad ar unwaith am rywbeth.<br>• Ceisio cysylltu â mam Leon pan mae'n hwyr<br>• Rhoi gwybod i Anna am ei bryderon<br>• Dweud wrth Leon ei fod wedi bod yn ddewr iawn<br>• Bod yn onest gyda Leon am roi gwybod i Anna/gweithiwr cymdeithasol am bryderon<br>• Gweithio gydag Anna i wneud adroddiad diogelu / ceisio arweiniad pellach<br>• Cefnogi Leon i ddatblygu sgiliau bywyd/annibyniaeth (e.e. golchi dillad)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 9. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae'n ddyletswydd gofal i Erik<br>• Mae'n ddyletswydd foesol a moesegol i Erik/mae'n ddisgwyliad<br>• Mae'n dangos gofal plentyn-ganolog da/ymarfer gorau<br>• Mae'n cynnal hawliau dynol Leon<br>• Mae'n hybu llesiant emosiynol Leon<br>• Mae'n hybu amgylchedd gwaith/perthnasoedd cadarnhaol<br>• Fel bod Erik yn dilyn ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt<br>• Fel bod Erik yn meithrin/cynnal ymddiriedaeth â Leon<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 10. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Rhoi gwybod i weithwyr am anghenion a hoff ddewisiadau Leon<br>• Helpu i sicrhau parhad gofal<br>• Rhoi gwybodaeth gyfredol am Leon<br>• Mae'n ofyniad cenedlaethol<br>• Hybu gofal plentyn-ganolog<br>• Canfod unrhyw risgiau posibl<br>• Canfod 'beth sy'n bwysig' i Leon ac ar ei gyfer<br>• Cefnogi'r penderfyniadau a wneir gan wahanol weithwyr proffesiynol<br>• Cofnodi digwyddiadau bywyd / yr effaith ar Leon<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 006: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Leon

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set C Leon | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc)**<br>**Uned 006: Diogelu unigolion** | |
| **Cwestiwn** | **Canllaw ateb** | **Uchafswm marciau** |
| 1. | Rhowch 1 marc am bob cyfrifoldeb hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Dylai Erik wneud y canlynol:<br><br>• Sylwi ar arwyddion posibl o niwed neu gam-drin<br>• Gwneud yn siŵr ei fod yn dilyn ymarfer diogel<br>• Rhoi gwybod am unrhyw bryderon ar unwaith, gan ddilyn y gweithdrefnau cywir<br>• Cofnodi pryderon yn gywir gan ddefnyddio'r weithdrefn gywir<br>• Grymuso pobl ifanc i adnabod eu pryderon a'u datgelu<br>• Bod yn ymwybodol o risgiau a dilyn asesiadau risg<br>• Dilyn y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol<br>• Storio a rhannu gwybodaeth gyfrinachol yn briodol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Drwy ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc i siarad<br>• Drwy ddarparu amgylchedd cartrefol<br>• Drwy ddarparu man tawel i drafod<br>• Drwy ddarparu diwylliant o fod yn agored/ymddiriedaeth/gonestrwydd<br>• Drwy ddefnyddio system gweithiwr allweddol<br>• Anelu am ddilyniant mewn gofal<br>• Cyfarfod pobl ifanc<br>• Drwy ddarparu mynediad at ymwelydd annibynnol<br>• Drwy ddarparu hyfforddiant priodol i weithwyr (e.e. Makaton)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 3. | **Rhowch 1 marc** am bob budd hyd at uchafswm o 3 marc. | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Gwneud yn siŵr bod rhywun yn gwrando ar safbwynt Leon<br>• Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth yn cael ei rhoi mewn ffordd mae Leon yn gallu ei deall<br>• Gwneud yn siŵr bod gan Leon lais<br>• Hybu hawliau Leon<br>• Hybu unigoliaeth Leon a'r hyn sydd ei eisiau arno<br>• Cefnogi Leon i ddeall y broses diogelu<br>• Cefnogi llesiant Leon<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br>• Dilyn polisïau a gweithdrefnau/ gofynion diogelu/rhoi gwybod cenedlaethol a lleol<br>• Dilyn cynllun personol Leon/Rhannu gwybodaeth yn briodol<br>• Adfyfyrio/dysgu ar eu hymarfer eu hunain<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 5. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br>• Helpu gweithwyr i sylwi ar arwyddion o niwed/ cam-drin/ esgeuluso<br>• Atgyfnerthu hyfforddiant diogelu/safonau<br>• Nodi beth aeth o'i le/helpu i wneud yn siŵr nad yw gweithwyr yn ailadrodd yr un camgymeriadau yn y dyfodol<br>• Cefnogi/atgyfnerthu ymarfer gorau<br>• Hybu gwaith amlasiantaethol effeithiol<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 6. | **Rhowch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am y gweithredoedd sy'n lleihau'r risg o niwed neu gael ei gam-drin.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu'r rhain yn benodol â sefyllfa Leon.<br>**Rhowch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am y gweithredoedd sy'n lleihau'r risg o niwed neu gael ei gam-drin.<br>Mae'r ymateb yn ceisio cysylltu'r rhain â sefyllfa Leon.<br>**Rhowch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am y gweithredoedd sy'n lleihau'r risg o niwed neu gael ei gam-drin. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | Mae'r ymateb yn cysylltu'r rhain â sut gallen nhw fod yn berthnasol i sefyllfa Leon.<br>**Rhowch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am y gweithredoedd sy'n lleihau'r risg o niwed neu gael ei gam-drin.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu'r rhain yn glir â sut gallen nhw fod yn berthnasol i sefyllfa Leon.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys.**<br><br>• Mae Anna ac Erik yn rhoi gwybod am bryderon ar unwaith, gan ddilyn gweithdrefnau cywir<br>• Mae Anna'n cefnogi Erik â'r adroddiad diogelu, fel bod y wybodaeth yn glir ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol<br>• Maen nhw'n sicrhau diogelwch Leon ar unwaith drwy fynd ag ef i mewn i'r cartref er gwaethaf y trefniadau gollwng<br>• Roedd Erik fel gweithiwr allweddol yn deall sefyllfa Leon ac felly roedd yn gallu gweld bod rhywbeth o'i le (e.e. trefniadau gollwng gwahanol, llai o ddillad nag arfer ac yn bryderus)<br>• Roedd Erik fel gweithiwr allweddol yn deall newidiadau i gyflwr emosiynol/edrychiad Leon (e.e. pryderus)<br>• Mae Anna wedi darparu hyfforddiant e.e. Makaton ac o ganlyniad mae Erik wedi gallu cyfathrebu / rhannu pryderon<br>• Mae Anna ac Erik wedi darparu amgylchedd lle gall Leon rannu ei bryderon (e.e. Erik yn eistedd gyda Leon wrth iddo fwyta ac yfed) | |
| 7. | **Rhowch 1 marc** am bob deddfwriaeth sy'n cael ei rhoi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Deddf Plant 1989<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Deddf Safonau Gofal 2002<br>• Deddf Mabwysiadu a Phlant 2004<br>• Deddf Galluedd Meddyliol 2005<br>• Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010<br>• Deddf Iechyd Meddwl (1983)<br>• Deddf Cydraddoldeb<br>• Deddf Hawliau Dynol | 2 farc |
| 8. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Defnyddio gwrando gweithredol<br>• Rhoi dewisiadau i Leon a rhannu syniadau | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Bod yn agored ac yn onest gyda Leon (e.e. dweud wrth Leon na fyddai'n gallu cadw ei gyfrinach)<br>• Cyfathrebu â Leon gan ddefnyddio hoff ffordd Leon (e.e. Makaton)<br>• Gweithredu i amddiffyn Leon<br>• Gwerthfawrogi Leon fel unigolyn<br>• Sylweddoli bod rhywbeth o'i le/gofyn i Leon beth sy'n bod<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Cefnogi ei hylendid personol<br>• Annog Leon i fod yn fwy annibynnol (e.e. sgiliau bywyd)<br>• Helpu i ddatblygu hunan-barch / hunanhyder / hunanymwybyddiaeth Leon<br>• Datblygu/cynnal ymddiriedaeth rhwng Leon ac Erik / gweithwyr eraill<br>• Rhoi mwy o gyfle i Leon i ddysgu a datblygu<br>• Rhoi mwy o gyfle i Leon i siarad ag Erik/ mynegi ei bryderon am ei fywyd teuluol/ gwneud datgeliad<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 10. | **Rhowch 1 marc** am bob gweithred, hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Gallai Erik wneud y canlynol:<br>• Tawelu meddwl Leon.<br>• Gofyn i Leon sut gall ei helpu<br>• Dod o hyd i rywun arall / uwch i helpu os oes angen<br>• Defnyddio'r dull(iau) cyfathrebu o ddewis Leon (e.e cyfuniad o Makaton a geiriol)<br>• Mynd â Leon i amgylchedd lle mae Leon yn teimlo'n ddiogel / yn gyfforddus<br>• Rhoi amser i Leon i fynegi ei hun / peidio â'i frysio<br>• Awgrymu gweithgareddau a allai dawelu meddwl Leon (e.e. awgrymu eu bod nhw'n mynd am fwyd)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 006: 20 marc** | **30 marc** |

## Astudiaeth Achos – Iwan

Rydych chi'n mynd i ddarllen astudiaeth achos am bobl ifanc yn y cartref preswyl i blant, Y Traeth.
Dyma'r bobl y byddwch chi'n darllen amdanyn nhw fel rhan o'r astudiaeth achos hon:

| | |
|---|---|
| Iwan | Person ifanc 14 oed sydd yn y cartref preswyl i blant, Y Traeth |
| Megan | Chwaer Iwan |
| Jack | Partner mam Iwan |
| Abdul | Gweithiwr allweddol Iwan |
| Rhys | Person ifanc arall yn y cartref preswyl i blant, Y Traeth, ffrind Iwan |

Dydy'r astudiaeth achos hon ddim yn seiliedig ar sefydliad nac unigolion go iawn.

Mae Iwan yn 14 oed. Yn ystod ei blentyndod cynnar, roedd yn teimlo'n ddiogel ac wedi ei garu, yn byw gyda'i rieni a'i chwaer Megan sy'n 20 oed. Newidiodd hyn pan aeth ei dad i'r carchar sawl blwyddyn yn ôl am sawl achos o drin nwyddau wedi'u dwyn a byrgleriaeth annomestig. Gwnaeth mam Iwan gwrdd â Jack a symudodd ef i mewn atyn nhw. Bu tensiwn erioed rhwng Iwan a Jack a phan symudodd Megan allan flwyddyn yn ôl, aeth pethau o ddrwg i waeth.

Roedd gan Megan ffordd o dawelu'r sefyllfa rhwng Iwan a Jack. Ar ôl iddi symud allan, aeth y dadleuon yn waeth. Roedd Iwan yn absennol o'r ysgol yn aml a phan oedd yn bresennol, roedd ei ymddygiad yn aflonyddgar. Roedd yn cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys yfed ar y stryd a gwneud graffiti. Cafodd Iwan a'i deulu gefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Troseddwyr Ifanc. Fe wnaeth Iwan a'i ffrindiau ddwyn car a bu farw ei ffrind mewn damwain yn y car. Dywedodd mam Iwan nad oedd hi'n gallu ymdopi ag e mwyach. Sawl mis yn ôl symudodd i gartref Y Traeth, cartref preswyl i blant ar gyfer pobl ifanc 13 i 17 oed, sydd 100 milltir oddi wrth ei gartref teuluol. Mae'n cadw mewn cysylltiad â'i fam a'i chwaer. Mae'n dal yn agos at Megan ac mae'n mwynhau cyswllt rheolaidd â hi trwy gyfuniad o ymweliadau a galwadau fideo dan oruchwyliaeth.

Mae gweithwyr Y Traeth wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel, gan ofyn i ymwelwyr arwyddo i mewn ac allan. Mae dewis o fannau cymunedol a mannau tawel a mynediad dan oruchwyliaeth at y rhyngrwyd a ffôn. Mae'r bobl ifanc yn rhan o’r broses o lunio eu cynlluniau personol i sicrhau bod ganddyn nhw ddewis o weithgareddau sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Maen nhw'n cael eu hannog i bersonoli eu hystafell ac mae'r lleoliad wedi ymrwymo i'r Cynnig Rhagweithiol.

Mae Iwan wedi setlo'n dda ond weithiau mae'n gwylltio â'r holl drefn, yn enwedig pan nad yw'n cael mynd ar y rhyngrwyd ar ei ben ei hun. Mae'r gweithwyr yn ymateb yn ddigynnwrf ac yn gyson, gan esbonio pam mae trefn a ffiniau o'r fath yn bodoli. Maen nhw'n rhoi gwybodaeth sy'n briodol i oedran iddo am y gweithdrefnau pryderon a chwynion. Maen nhw hefyd yn rhoi'r dewis iddo gael eiriolwr annibynnol. Mae gan Iwan ei weithiwr allweddol, Abdul, i’w gefnogi. Datblygodd Abdul ymddiriedaeth a chydberthynas ag Iwan drwy gymryd diddordeb yn ei fywyd a gwrando o ddifrif ar yr hyn sydd ganddo i'w ddweud.

Mae gwybodaeth wedi ei harddangos ar yr hysbysfwrdd yn y lleoliad am berthnasoedd diogel, a defnydd diogel o'r rhyngrwyd a ffonau symudol. Fe wnaeth Iwan a phobl ifanc eraill fwynhau cymryd rhan mewn project o'r enw Cadw’n Ddiogel! Roedd y project yn cynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd gyfrifol a pheidio â niweidio eraill e.e. drwy bostio sylwadau diraddiol. Edrychai’r project ar ffyrdd y gellid eu niweidio nhw fel

camfanteisio’n rhywiol ar blant (CSE) a chamfanteisio troseddol ar blant (CCE) e.e. llinellau sirol. Mae'r gweithwyr yn pwysleisio drwy'r amser pa mor bwysig yw adrodd am bryderon diogelu wrth oedolyn dibynadwy, hyd yn oed os oes arnyn nhw ofn.

Mae Iwan yn dod yn ffrindiau agos gyda Rhys sy'n 15 oed ac mae ei dad ef yn y carchar hefyd. Mae Rhys wedi gorfod symud lleoliadau sawl gwaith. Mae'n hoffi cartref Y Traeth ac yn gwerthfawrogi bod ganddo ffrind fel Iwan.

Weithiau dydy Rhys ddim yn mynd i'r ysgol ac mae e allan drwy'r nos ac mae'n rhaid i'r gweithwyr adrodd ei fod ar goll. Mae Rhys yn aml yn gadael yn sydyn heb rybudd. Mae'r gweithwyr yn siarad ag ef er mwyn mynegi eu pryder ond dydyn nhw ddim yn ei atal. Yn ddiweddar, fe gawson nhw hyfforddiant ac fe wnaethon nhw ddysgu o adolygiadau ac adroddiadau ar fethiannau difrifol i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed a chamdriniaeth. Maen nhw'n gwybod am yr ymchwiliad annibynnol i gamfanteisio’n rhywiol ar blant yn Rotherham, a nododd fod cysylltiad rhwng plant mewn gofal yn mynd ar goll a chamfanteisio’n rhywiol ar blant. Mae pryder hefyd am ddelio cyffuriau a gweithgaredd llinellau sirol yn lleol.

Mae Iwan yn gweld Rhys mewn car yn cael ei ollwng ar waelod y stryd gan gwpwl o ddynion. Mae'n gweld Rhys yn cyfnewid arwyddion llaw anghyfarwydd â nhw. Pan mae Iwan yn holi Rhys am y dynion, mae Rhys yn dweud eu bod nhw'n ffrindiau iddo. Mae gan Rhys ddillad a threinyrs newydd llachar ond does ganddo ddim arian. Dydy Rhys byth yn edrych yn lân ac weithiau mae ganddo friwiau a chleisiau, y mae'n dweud ei fod wedi eu cael yn chwarae pêl-droed. Mae gan Rhys logo wedi ei luniadu â beiro ar ei fraich ac mae e'n dweud wrth Iwan mai hwn a'i ddillad yw arwydd ei gang.

Mae'n dangos ffôn i Iwan y mae'r dynion wedi ei roi iddo ac mae e'n dweud wrth Iwan am beidio â dweud wrth neb yn Y Traeth. Mae e'n dweud ei fod yn gwneud cymwynasau â'r dynion ac yn cael gwobrwyon. Mae digon o waith i'w wneud ac mae Rhys yn dweud y bydd yn gallu eu cyflwyno nhw i Iwan os ydy e eisiau. Pan mae Iwan yn gofyn pa fath o gymwynasau, dyweda Rhys ei fod yn teithio o gwmpas yn danfon pecynnau i wahanol ardaloedd. Mae e hefyd yn sôn am wneud 'stwff rhyw' ond mae'n dweud bod dim rhaid i chi wneud y 'stwff rhyw', mae hynny i fyny i chi. Mae Iwan yn dweud y bydd e’n meddwl am y peth.

Mae Iwan yn poeni am Rhys. Mae'n gwybod ei fod yn gallu cysylltu ag un o'r sefydliadau a gafodd eu trafod yn y project ond dydy e ddim yn teimlo'n hyderus i wneud hyn. Felly, mae Iwan yn gofyn i Abdul, os ydy e'n dweud rhywbeth wrtho, a fydd e’n addo ei gadw rhyngddyn nhw? Mae Abdul yn esbonio pam dydy e ddim yn gallu gwneud hynny. Mae Iwan yn tynnu'n ôl o'r sgwrs oherwydd, er ei fod yn hoffi Abdul ac yn ymddiried ynddo, mae Rhys wedi gwneud iddo addo peidio â dweud wrth y gweithwyr.

Mae ar Iwan ofn felly mae'n ymddiried yn Megan pan mae hi'n ymweld ag ef. Dydy Iwan ddim wedi addo i Rhys i beidio â dweud wrth Megan. Mae ei chwaer yn dechrau poeni ac yn dweud wrth Iwan am gadw draw. Mae Megan yn rhoi gwybod i Abdul am sgyrsiau Rhys gydag Iwan. Mae Abdul yn adrodd y sgwrs wrth ei reolwr sy'n gofyn iddo lenwi ffurflen ddatgelu Y Traeth. Mae'r rheolwr yn cymryd camau pellach yn unol â gweithdrefnau diogelu.

## Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Iwan

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set A Iwan | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 006: Diogelu unigolion** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gwybod/dod o hyd i ble maen nhw/eu symudiadau<br>• Gwneud yn siŵr bod ymwelwyr yn arwyddo i mewn ac allan<br>• Dilyn asesiadau risg<br>• Gwrando ar/ymateb i bryderon/datgeliadau<br>• Adrodd am/cofnodi unrhyw bryderon h.y. dilyn gweithdrefnau adrodd<br>• Adrodd am faterion diogelu (e.e. mynd ar goll)<br>• Gwneud yn siŵr bod hyfforddiant diogelu yn gyfoes<br>• Gwybod/adnabod arwyddion posibl o gamdriniaeth<br>• Hybu cyfathrebu/gweithio mewn tîm/rhannu gwybodaeth yn effeithiol<br>• Meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas â phobl ifanc/perthnasoedd cadarnhaol<br>• Bodloni safonau ymarfer (e.e. Cod Ymarfer Proffesiynol)<br>• Peidio â chwalu ffiniau proffesiynol<br>• Gwybod â phwy i gysylltu os yn anhapus ag arferion diogelu'r Cartref (h.y. chwythu'r chwiban)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Rhowch 1 marc** am bob sefyllfa hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Newidiadau teulu/tad yn y carchar, mam gyda phartner newydd a chwaer wedi gadael cartref/problemau ymlyniad<br>• Tensiynau a dadleuon teuluol (e.e. Jack ac Iwan)<br>• Mam wedi rhoi caniatâd i Iwan symud i gartref gofal/gwrthod<br>• Cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol/graffiti<br>• Cymryd rhan mewn gweithgaredd troseddol (e.e. dwyn car)<br>• Yfed ar y stryd/risgiau cysylltiedig<br>• Hanes o absenoldebau heb ganiatâd o'r ysgol<br>• Colli ffrind/trawma a galar | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Oddi wrth ei gartref/cymdogaeth a chyfoedion cyfarwydd<br>• Mae Iwan yn blentyn mewn gofal preswyl/yn derbyn gofal/profiad o ofal<br>• Mae Rhys yn gofyn i Iwan ymuno ag ef/mae Iwan eisiau plesio Rhys/cyfeillgarwch gyda Rhys a'i ffrindiau/pwysau gan gyfoedion<br>• Mae Iwan yn gweld manteision materol ffordd o fyw Rhys<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 3. | **Rhowch 1 marc** am bob arwydd hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gwisgo dillad newydd llachar/dim arian<br>• Dydy Rhys byth yn edrych yn lân<br>• Weithiau mae ganddo friwiau a chleisiau (dweud ei fod wedi eu cael nhw wrth chwarae pêl-droed)<br>• Logo wedi ei luniadu â beiro ar ei fraich<br>• Dydy e ddim yn mynd i'r ysgol/ mae'n colli ysgol weithiau<br>• Mae e allan drwy'r nos/ mae gweithwyr yn gorfod adrodd ei fod ar goll<br>• Mae'n mynd allan ar frys<br>**Gellir derbyn enghreifftiau hefyd nad yw gweithwyr efallai wedi eu gweld yn uniongyrchol**<br>• Cael ei ollwng ar waelod y stryd/ wedi ei weld gyda dau ddyn dieithr<br>• Rhys wedi ei weld yn cyfnewid arwyddion llaw anghyfarwydd â'r dynion<br>• Ffôn gyfrinachol/ gallai Iwan ddweud wrth Megan am ffôn Rhys<br>• Cyfeiriad at 'stwff rhyw'/ gallai Iwan ddweud wrth Megan am y 'stwff rhyw'<br>• Mae Rhys yn gofyn i Iwan gadw cyfrinachau<br>• Mae Iwan yn gofyn i Abdul gadw cyfrinachau<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 4. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Pwysleisio pwysigrwydd adrodd am bryderon<br>• Cael sgyrsiau am ymddygiadau (e.e. colli ysgol)<br>• Hysbysfwrdd am berthnasoedd diogel/cael sgyrsiau am gadw'n ddiogel mewn perthnasoedd | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae'r gweithwyr yn helpu Iwan/pobl ifanc i ddeall pam dylent ddilyn trefn (e.e. mynediad at y rhyngrwyd dan oruchwyliaeth)<br>• Gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw fynediad at lenyddiaeth/posteri/taflenni<br>• Rhoi gwybodaeth am/mynediad at eiriolwr annibynnol<br>• Gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw lais, dewis, rheolaeth o ran penderfyniadau am eu cefnogaeth<br>• Gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn deall adborth gweithdrefnau cwynion/sut i fynegi pryder/rôl a chyfrifoldebau pob gweithiwr proffesiynol<br>• Mentrau/gwaith project cenedlaethol (e.e. am beidio â niweidio eraill)<br>• Sicrhau bod eu hyfforddiant diogelu yn gyfoes (e.e. mynychu hyfforddiant diweddar ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant)<br>• Bod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain o ran diogelu h.y. dyletswydd i roi gwybod<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 5. | **Rhowch 1 marc** am bob darn o wybodaeth, hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Dyddiad/lleoliad/amser mae Megan yn rhoi gwybod<br>• Cofnodi'r sgwrs yng ngeiriau Megan/yn yr iaith mae hi'n ei defnyddio<br>• Beth sy'n cael ei arsylwi h.y emosiynau/iaith y corff/tôn llais Megan<br>• Pa bryd ddigwyddodd y digwyddiadau/sgwrs/sgyrsiau rhwng Rhys ac Iwan<br>• Lleoliad y sgwrs rhwng Iwan a Megan<br>• Pa un a yw Iwan yn ymwybodol bod Megan yn rhoi gwybod i Abdul am y pryderon sydd ganddi.<br>• Manylion cyswllt ar gyfer Megan/unrhyw dystion allweddol eraill / gwirio bod manylion wedi cael eu diweddaru<br>• Llofnod/dyddiad unrhyw gofnod ysgrifenedig<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 6. | **Rhowch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o pam nad yw camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddatgelu.<br>Nid yw'r ymateb yn gwneud cysylltiadau penodol rhwng pam nad yw camdriniaeth yn cael ei datgelu a sefyllfa Rhys. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | **Rhowch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o pam nad yw camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddatgelu.<br>Mae'r ymateb yn ceisio gwneud cysylltiadau â sefyllfa Rhys.<br>**Rhowch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o pam nad yw camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddatgelu.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau â sut gallai peidio â datgelu gyfrannu at sefyllfa Rhys neu effeithio arno.<br>**Rhowch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o pam nad yw camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddatgelu.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau clir a manwl â sut gallai peidio â datgelu gyfrannu at sefyllfa Rhys neu effeithio arno.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Mae Rhys wedi gorfod symud lleoliadau gofal sawl gwaith felly efallai nad yw wedi cael llawer o gyfle i ffurfio perthynas â gweithwyr lle mae'n ymddiried ynddyn nhw<br>• Efallai fod y ffaith bod Rhys wedi gorfod symud i wahanol leoliadau yn golygu bod angen ymdeimlad o berthyn arno a bod y ffordd mae'r dynion/y gang yn mynd ati i feithrin perthynas amhriodol yn cynnig hyn<br>• Mae 'cyfeillgarwch' Rhys gyda'r ddau ddyn a'r ffordd maen nhw'n mynd ati i feithrin perthynas amhriodol yn golygu efallai nad yw'n deall mai'r hyn y mae'n ei brofi yw camfanteisio'n rhywiol ar blentyn<br>• Efallai fod Rhys yn gwadu neu'n gwrthod cydnabod ei fod yn cael ei gamfanteisio'n rhywiol gan y byddai difrifoldeb y sefyllfa yn ei lethu/nid yw'n gallu delio â chydnabod y sefyllfa<br>• Efallai fod Rhys yn teimlo y byddai gwneud datgeliad yn gwneud pethau'n waeth/achosi problemau i'w ffrindiau/pobl ifanc a allai fod ynghlwm hefyd<br>• Efallai fod Rhys wedi cael ei fygwth neu ei ddychryn i beidio â dweud wrth neb felly nid yw am wneud datgeliad<br>• Efallai fod Rhys yn teimlo cywilydd/yn beio ei hun/yn teimlo'n gyfrifol am yr hyn sy'n digwydd iddo gan gredu y dylai allu amddiffyn ei hun rhag pobl/yn teimlo y dylai fod mewn rheolaeth fel dyn ifanc (h.y. stereoteipiau o gwmpas gwrywdod)<br>• Efallai fod Rhys yn ofni canlyniadau gwneud datgeliad (e.e. cael ei symud o ganlyniad i'r datgeliad er ei fod yn hoffi Y Traeth/gorfod bod yn dyst/mynd i'r llys) | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Efallai fod Rhys wedi cael ei gam-drin yn y gorffennol ac wedi gwneud datgeliad ond bod gweithwyr wedi diystyru ei gyhuddiadau<br>• Efallai fod Rhys wedi codi amryw o achosion yn y gorffennol nad ydynt wedi eu cymryd o ddifrif gan weithwyr<br>• Mae Rhys yn hoffi'r statws/diwylliant o fod yn y gang/mwynhau anrhegion/ffrindiau newydd a'i fod eisiau cadw hyn<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Rhowch 1 marc** am bob gwers hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>Dylai helpu gweithwyr i ddeall<br>• Pam mae methiannau'n digwydd yn y lle cyntaf<br>• Pwysigrwydd nad yw'r heddlu/asiantaethau eraill yn beirniadu ymddygiad pobl ifanc yn negyddol<br>• Pwysigrwydd gweithio'n amlasiantaethol/rhannu gwybodaeth/cyfathrebu'n effeithiol<br>• Sut i osgoi gwneud yr un camgymeriadau yn eich ymarfer eich hun<br>• Canlyniadau peidio â chredu/methu ymateb/cymryd camau pan fydd person ifanc yn datgelu<br>• Effaith tymor hir ar iechyd a llesiant pobl ifanc/teulu/gofalwyr<br>• Arwyddion o ymddygiad tramgwyddwyr/meithrin perthynas amhriodol<br>• Arwyddion o niwed a chamdriniaeth/camfanteisio'n rhywiol ar blant/camfanteisio troseddol ar blant/llinellau sirol<br>• Pam gallai rhai pobl ifanc wynebu mwy o risg o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod<br>• Pam mae person ifanc yn mynd ar goll yn achos pryder difrifol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 8. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Ymateb i/deall/adnabod iaith y corff a chyfathrebu di-eiriau<br>• Bod yn ymwybodol o/ymateb i iaith y corff a chyfathrebu di-eiriau<br>• Defnyddio tôn y llais/lefel sain priodol<br>• Defnyddio cyswllt llygad fel y bo'n briodol | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Dangos empathi/helpu Iwan i deimlo ei fod yn cael ei ddeall/bod ei ddicter yn cael ei ddeall<br>• Defnyddio dull nad yw'n feirniadol/nid yw Iwan yn teimlo ei fod yn cael ei feirniadu am gwestiynu/herio trefn a chanlyniadau'r lleoliad<br>• Sgiliau gwrando gweithredol/gwrando ac egluro yn ôl i Iwan<br>• Cydnabod yr hyn sy'n gwylltio Iwan/rhoi amser a lle iddo i ofyn cwestiynau<br>• Defnyddio iaith sy'n briodol i oedran/diwylliant<br>• Defnyddio iaith glir/rhoi negeseuon cywir a gonest<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Rhowch 1 marc** am bob digwyddiad hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Aeth ei dad i'r carchar.<br>• Fe wnaeth ei fam gwrdd â phartner newydd/mae'n byw gyda'r partner newydd<br>• Symudodd ei chwaer/Megan allan o'r tŷ<br>• Bu farw ffrind Iwan (e.e. fe wnaethon nhw ddwyn car a buon nhw mewn damwain yn y car)<br>• Cymryd rhan mewn gweithgaredd troseddol<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Troseddwyr Ifanc<br>• Dywedodd mam Iwan nad oedd hi'n gallu ymdopi ag ef mwyach/nad oedd hi am iddo fyw gartref/perthynas yn chwalu<br>• Symudodd Iwan i gartref Y Traeth/daeth yn blentyn sy'n derbyn gofal<br>• Mae Iwan wedi cael ei symud i fyw milltiroedd i ffwrdd oddi wrth ei gartref teuluol/cymdogaeth/ffrindiau<br>• Mae Iwan yn gorfod symud ysgol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 10. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Tebygol o ennyn diddordeb/canolbwyntio sylw/nid ydynt yn gweld y project yn ddiflas<br>• Gallai wella gwybodaeth am gadw'n ddiogel/diwylliant gang/camfanteisio'n rhywiol ar blant/camfanteisio troseddol ar blant<br>• Dylanwadu ar benderfyniadau/ymddygiadau/gweithredoedd yn y dyfodol<br>• Cynnig dewisiadau eraill yn lle cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n niweidio/cymryd rhan mewn gweithgarwch llinellau sirol | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cefnogi creadigrwydd<br>• Cefnogi'r cyfle i weithio gydag eraill/gwaith tîm<br>• Gallu cynyddu gwydnwch/lleihau risg<br>• Cefnogi ymrwymiad i wneud darn o waith/cwblhau darn o waith<br>• Hybu hunan-barch a hunanhyder/mae pobl ifanc yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 006: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Iwan

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set B Iwan | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 006: Diogelu unigolion** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mynegi diddordeb go iawn ym mywydau pobl ifanc/annog plant i siarad (e.e. maen nhw'n gwneud amser i siarad)<br>• Meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas (e.e. mae Abdul yn cefnogi Iwan)<br>• Gwrando gweithredol (e.e. mae Abdul yn gwrando o ddifrif ar yr hyn sydd gan Iwan i'w ddweud/mae'r gweithwyr yn gwrando o ddifrif ar yr hyn sy'n gwylltio Rhys)<br>• Mae'r gweithwyr yn mynegi empathi (e.e. cydnabod bod Iwan weithiau'n cael ei wylltio gan drefn y lleoliad)<br>• Mae'r gweithwyr yn cymryd amser i esbonio i Iwan pam mae trefn yn bodoli<br>• Caiff hawliau pobl ifanc eu hybu a'u parchu (e.e. mynediad at weithdrefnau pryderon a chwynion y sefydliad yn cael ei gyfleu mewn ffordd sy'n briodol i oedran)<br>• Mae gan y bobl ifanc ddewis, llais a rheolaeth (e.e. mynediad at eiriolwr annibynnol)<br>• Darparu amgylchedd diogel<br>• Mae dull y gweithwyr yn ddigynnwrf ac yn gyson/maen nhw'n gweithio drwy broblemau gyda'i gilydd mewn ymateb i ddicter Iwan am drefn<br>• Y defnydd lleiaf posibl o ddulliau cyfyngol (e.e. nid yw'r gweithwyr yn atal Rhys yn gorfforol pan fydd yn gadael y cartref)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Rhowch 1 marc** am bob cyfrifoldeb hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Dylai Abdul roi gwybod i Megan am y weithdrefn adrodd/bod ganddo ddyletswydd i adrodd<br>• Ar unwaith/cyn gynted â phosibl, rhoi adroddiad llafar am wybodaeth Megan i'w reolwr/uwch aelod arall o'r staff<br>• Ysgrifennu nodiadau/cofnodi manylion allweddol | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cael manylion cyswllt Megan/sicrhau bod y manylion cyswllt yn gyfoes<br>• Peidio â chynnwys barn yn y nodiadau/adroddiad/ cadw at y ffeithiau<br>• Rhannu gwybodaeth ar sail angen gwybod<br>• Cwblhau dogfennaeth yn ôl y gofyn/arwyddo a dyddio unrhyw gyfathrebu ysgrifenedig<br>• Dilyn gweithdrefnau adrodd<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 3. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Rhoi cyngor/gwybodaeth ddiduedd i gefnogi penderfyniadau gwybodus/camau gweithredu gwahanol<br>• Cefnogi pobl ifanc i fynegi eu teimladau a'u dymuniadau<br>• Cefnogi/paratoi pobl ifanc cyn mynychu cyfarfodydd<br>• Mynychu cyfarfodydd sy'n berthnasol i'r person ifanc<br>• Gofyn cwestiynau/siarad ar ran pobl ifanc yn ôl yr angen/gofyn<br>• Cynnal hawliau pobl ifanc/gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael eu trin yn deg yn ystod y broses o wneud penderfyniadau/ gwneud yn siŵr bod rhywun yn gwrando ar eu safbwyntiau<br>• Esbonio gweithdrefnau prosesau gwneud penderfyniadau<br>• Cefnogi pobl ifanc sydd â phryder/cwyn<br>• Helpu pobl ifanc i adrodd am gamdriniaeth/gwneud datgeliad<br>• Cefnogi pobl ifanc i herio penderfyniadau sydd wedi'u gwneud amdanyn nhw/ar eu cyfer nhw<br>• Cysylltu/trafod â gweithwyr proffesiynol eraill ar ran pobl ifanc/yn unol â'u dymuniadau<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 4. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br>**Peidiwch â derbyn** ymatebion y cyfeirir atyn nhw yn y project Cadw'n Ddiogel.<br><br>• Cyfeirio at sefydliadau/gwybodaeth berthnasol<br>• Cytuno ar ymddygiadau derbyniol wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd<br>• Dangos diddordeb/trafod risgiau posibl o ran technolegau ar-lein/y gwefannau maen nhw'n hoffi | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | mynd arnyn nhw/pam maen nhw'n hoffi mynd arnyn nhw<br>• Cefnogi pobl ifanc i adnabod achosion o fanipiwleiddio/ymddygiad gorfodol neu fygythiol<br>• Dweud wrth bobl ifanc sut i adrodd am bryderon/wrth bwy i adrodd amdanyn nhw<br>• Holi pobl ifanc am unrhyw bryderon a allai fod ganddyn nhw am eu gweithgarwch ar-lein<br>• Sôn am/dangos sut gellir defnyddio gosodiadau preifatrwydd i'w helpu i gadw'n ddiogel/rheoli'r hyn sy'n cael ei rannu ag eraill<br>• Trafod beth sy'n amhriodol i'w rannu ar-lein/sôn am enghreifftiau o ffotograffau, fideos, sylwadau a gwybodaeth bersonol i beidio â'u rhannu<br>• Sôn am sut gallan nhw niweidio eraill h.y. drwy bostio neu lwytho sylw/ffotograff/fideo sarhaus i fyny<br>• Pwysleisio pwysigrwydd peidio â chymryd yn ganiataol mai rhywun yw pwy maen nhw'n dweud ydyn nhw ar-lein (h.y. *catfishing*)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 5. | **Rhowch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o sefyllfaoedd sy'n cynyddu'r risg o niwed neu gamdriniaeth.<br>Nid yw'r ymateb yn gwneud cysylltiadau penodol o ran pam gallai sefyllfa Iwan gynyddu'r risg ohono'n cael ei ddenu at gamfanteisio troseddol ar blant.<br>**Rhowch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sefyllfaoedd sy'n cynyddu'r risg o niwed neu gamdriniaeth.<br>Mae'r ymatebion yn ceisio dangos cysylltiadau o ran pam gallai sefyllfa Iwan gynyddu'r risg ohono'n cael ei ddenu at gamfanteisio troseddol ar blant.<br>**Rhowch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sefyllfaoedd sy'n cynyddu'r risg o niwed neu gamdriniaeth.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau o ran sut gallai'r sefyllfaoedd hyn gyfrannu at y risg y bydd Iwan yn cael ei ddenu at gamfanteisio troseddol ar blant.<br>**Rhowch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sefyllfaoedd sy'n cynyddu'r risg o niwed neu gamdriniaeth.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau clir a manwl o ran sut gallai'r sefyllfaoedd hyn gyfrannu at y risg y bydd Iwan yn cael ei ddenu at gamfanteisio troseddol ar blant.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:** | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Dydy Iwan ddim yn byw gyda'i deulu mwyach/mae chwilio am berthnasoedd newydd yn ei roi mewn perygl o dramgwyddwyr/sefyllfa o feithrin perthynas amhriodol<br>• Gan fod mam Iwan wedi dweud na allai ymdopi ag ef mwyach efallai ei fod yn teimlo wedi'i wrthod<br>• Dewisodd mam Iwan ei phartner Jack drosto, gan arwain at hunan-barch isel, gan gynyddu'r risg ohono'n cael ei ddenu at gamfanteisio troseddol ar blant<br>• Mae gan Iwan hanes o gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol y gallai ei ailadrodd<br>• Mae gan Iwan hanes o yfed ar y stryd/mae bod yn feddw yn ei roi mewn sefyllfa o fod yn agored i niwed os yw'n ailadrodd hyn<br>• Gall y teimladau o alar o golli ei ffrind/euogrwydd/unigrwydd effeithio ar ymddygiad/barn h.y. dewis ffrindiau newydd/agored i fanipiwleiddio<br>• Mae Iwan mewn cartref preswyl i blant ac mae plant a phobl ifanc mewn gofal yn un o'r grwpiau targed i dramgwyddwyr meithrin perthynas amhriodol/camfanteisio troseddol ar blant/llinellau sirol<br>• Mae Iwan yn ynysig/ mae cartref Y Traeth 100 milltir oddi wrth gartref teulu Iwan, gan wneud mynediad at ei hen fywyd/ysgol/teulu/ffrindiau yn anodd<br>• Mae Rhys ac Iwan yn ffrindiau agos ac felly efallai fod Iwan eisiau plesio Rhys/bod gyda Rhys/bod yn gwneud yr un pethau â Rhys<br>• Mae Iwan yn 14 oed ac eisiau bod yn annibynnol/eisiau mynegi ei hunaniaeth/cyfeillgarwch gyda'r dynion/oedolion ac mae cyfle i ennill incwm yn cefnogi hyn<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 6. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Cynnal ffiniau proffesiynol clir<br>• Cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel/peidio â rhannu gwybodaeth bersonol<br>• Cefnogi pobl ifanc i beidio â chynhyrfu pan maen nhw'n poeni am rywbeth/delio â dicter yn briodol/osgoi sefyllfaoedd sy'n dwysáu<br>• Dim ond defnyddio arferion cyfyngol yn unol â'r cynllun personol/defnyddio arferion cyfyngol cyn lleied â phosibl (e.e. nid yw'r gweithwyr yn atal Rhys pan mae'n gadael yn sydyn) | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cofnodi ac adrodd am unrhyw bryderon diogelu<br>• Gwneud yn siŵr bod hyfforddiant diogelu yn gyfoes<br>• Trin gweithwyr a phobl ifanc ag urddas a pharch<br>• Chwythu'r chwiban/gwybod â phwy i gysylltu os yn anhapus ag arferion diogelu'r cartref<br>• Gwneud yn siŵr bod eu cyfrifoldebau nhw eu hunain dros gadw cofnodion yn gyfoes/yn cael eu cynnal<br>• Bod yn fodel rôl cadarnhaol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mae'r gweithwyr yn gwybod pam mae'n rhaid iddyn nhw adrodd bod Rhys ar goll<br>• Gall y gweithwyr siarad â Rhys am eu pryderon/peryglon colli ysgol<br>• Mae'r gweithwyr yn deall pwysigrwydd cyfathrebu ag asiantaethau perthnasol<br>• Gall gweithwyr gymryd camau i geisio lleihau'r risg o Rhys yn mynd ar goll (e.e. annog Rhys i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddo)<br>• Gall gweithwyr siarad â Rhys am fod allan drwy'r nos/y risg o gamfanteisio ar blant<br>• Gall gweithwyr fonitro/chwilio am batrymau o ran Rhys yn mynd ar goll/pa mor aml mae'n mynd ar goll.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 8. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Mae pobl ifanc yn cael eu hannog i bersonoli eu hystafelloedd<br>• Mae'r gweithwyr yn gwneud amser i siarad â'r bobl ifanc<br>• Mae'r gweithwyr yn gweithredu/dilyn y Cynnig Rhagweithiol<br>• Mae'r gweithwyr yn cymryd amser i esbonio i Iwan pam mae gan y lleoliad drefn a ffiniau<br>• Mae'r gweithwyr yn ymateb yn ddigynnwrf ac yn gyson i Iwan o ran mynediad at y rhyngrwyd dan oruchwyliaeth<br>• Mae Abdul yn cymryd diddordeb ym mywyd Iwan/yn gwrando o ddifrif ar yr hyn sydd ganddo i'w ddweud<br>• Mae'r gweithwyr yn annog pobl ifanc i gadw eu hunain a phobl eraill yn ddiogel/project diogelu<br>• Mae'r gweithwyr yn pwysleisio pwysigrwydd adrodd pryderon diogelu wrth oedolion | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae Abdul yn parchu penderfyniadau Iwan i dynnu'n ôl o wneud ei ddatgeliad<br>• Mae'r gweithwyr yn mynegi pryder/dydy'r gweithwyr ddim yn rhwystro Rhys rhag gadael yr adeilad<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Fel eu bod nhw'n fwy tebygol o gymryd diddordeb brwd yn/ymgysylltu â/darllen/gwylio'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi<br>• Fel eu bod nhw'n deall y wybodaeth sy'n cael ei rhoi<br>• Fel eu bod nhw'n deall diffiniadau/beth yw ystyr niwed/camdriniaeth/esgeulustod<br>• Fel eu bod nhw'n gallu rhoi'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu ar waith/cadw eu hunain yn ddiogel/gwneud dewisiadau ar weithredoedd ac ymddygiad<br>• Fel eu bod nhw'n gwybod beth y mae angen iddyn nhw ei wneud os ydyn nhw'n profi neu'n wynebu risg o niwed/camdriniaeth/esgeulustod.<br>• Fel eu bod nhw'n gwybod at bwy y gallan nhw droi/gofyn am gymorth os ydyn nhw'n profi neu'n wynebu risg o niwed/camdriniaeth/esgeulustod/ gwneud datgeliad<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 10. | **Rhowch 1 marc** am bob newid hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• 'Cyfeillgarwch' amhriodol/rhyngweithio â dynion/gweithwyr ddim yn ymwybodol o 'gyfeillgarwch' â dau ddyn<br>• Cyfeillgarwch newydd ag Iwan/cyfeillgarwch cadarnhaol i Rhys<br>• Ymdeimlad newydd o hunaniaeth (e.e. defnyddio arwyddion llaw anghyfarwydd/logo wedi ei luniadu â phen ar ei fraich/gwisgo dillad a threinyrs newydd)<br>• Newidiadau mewn gofal personol (e.e. byth yn edrych yn lân)<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau peryglus (e.e. weithiau mae ganddo anafiadau/aros allan drwy'r nos)<br>• Newidiadau i drefn/ymddygiad (e.e. weithiau'n colli ysgol/gadael Y Traeth heb rybudd)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 006: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Iwan

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set C Iwan | | |
|---|---|---|
| | **Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)**<br>**Uned 006: Diogelu unigolion** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Hybu amgylchedd diogel (e.e. gofyn i ymwelwyr arwyddo i mewn ac allan)<br>• Meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas (e.e. mae Iwan yn ymddiried yn Abdul)<br>• Maen nhw'n ymateb yn ddigynnwrf ac yn gyson i Iwan pan fydd e'n gwylltio<br>• Rhoi gwybodaeth am gadw'n ddiogel/diogelu<br>• Pwysleisio pwysigrwydd adrodd am bryderon (e.e. siarad ag oedolyn y gellir ymddiried ynddo)<br>• Adrodd bod Rhys ar goll<br>• Siarad â Rhys pan fydd yn gadael yn sydyn<br>• Mae Abdul yn adrodd am bryderon Megan<br>• Mae'r rheolwr yn cymryd camau/dilyn gweithdrefnau diogelu<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Rhaid i'r manylion fod yn gywir<br>• Rhaid i'r manylion fod yn ffeithiol<br>• Rhaid cynnwys yr holl ffeithiau allweddol<br>• Rhaid i adroddiadau gael eu dyddio a'u harwyddo<br>• Rhaid i adroddiadau fod yn ddarllenadwy/rhaid dilyn y gofynion o ran gosodiadau e.e. beiro ddu<br>• Rhaid cynnwys union eiriau'r person/tystion<br>• Ni ddylid defnyddio jargon na slang (heblaw mai dyna oedd union eiriau'r tystion/person ifanc)<br>• Gwneud yn siŵr bod y manylion yn gwahaniaethu rhwng ffaith/barn/gwybodaeth trydydd parti<br>• Cadw cyfrinachedd bob amser/storio'n gyfrinachol/yn ddiogel<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 3. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc. | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Gallai leihau'r risg y bydd Iwan yn aildroseddu<br>• Gallai leihau'r risg y bydd Iwan yn niweidio eraill (e.e. mae Iwan weithiau'n gwylltio oherwydd trefn y lleoliad)<br>• Mae Iwan yn fwy tebygol o gymryd diddordeb mewn gwybodaeth/gweithgareddau sydd â'r bwriad o'i gadw'n ddiogel (e.e. y project)<br>• Hybu ymdeimlad o berthyn yng nghartref Y Traeth<br>• Mae Iwan yn llai tebygol o dderbyn gwahoddiad Rhys<br>• Mae Iwan yn fwy tebygol o fynegi ei bryderon<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Rhowch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae'r gweithwyr yn delio â dicter Iwan mewn modd digynnwrf/cyson<br>• Cydbwysedd rhwng mannau cymunedol a mannau tawel<br>• Dewis o weithgareddau diddorol ac atyniadol<br>• Amser i siarad â'r gweithwyr<br>• Wedi ymrwymo i'r Cynnig Rhagweithiol<br>• Mae'r gweithwyr yn rhoi gwybodaeth i Iwan am y weithdrefn/gweithdrefnau pryderon a chwynion<br>• Mae'r gweithwyr yn rhoi gwybodaeth i Iwan am eiriolwr annibynnol<br>• Mae gan Iwan berthynas dda ag Abdul<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 5. | **Rhowch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Efallai nad yw'n cydnabod bod ymddygiad y dynion yn niweidiol<br>• Efallai ei fod yn teimlo cywilydd oherwydd stereoteipiau o ran bod yn wryw/teimlo na ddylai fod wedi gadael i hyn ddigwydd iddo<br>• Meddwl efallai na fydd pobl yn ei gredu/bydd ei gysylltiad â throseddu yn mynd yn ei erbyn<br>• Hanes o ddatgelu/pobl ddim yn ei gredu<br>• Ofn bygythiadau/ôl-effeithiau gan y gang/mae bygythiad i'w fywyd ei hun ac i fywydau pobl eraill<br>• Ofn mynd i'r llys/cysylltiad yr heddlu/bod yn dyst<br>• Wedi datblygu ymdeimlad o berthyn i'r gang/eisiau ffitio i mewn yn rhywle (e.e. arwyddion llaw anghyfarwydd, logo wedi ei luniadu â beiro ar ei fraich/arwydd y gang) | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Does ganddo ddim llawer o ymlyniadau cryf cadarnhaol eraill/efallai nad oes ganddo rywun i droi ato (e.e. tad yn y carchar/sawl lleoliad gofal)<br>• Mae'r dynion/gang yn rhoi hygrededd iddo ymysg ei gyfoedion/datblygu ei ymdeimlad o hunaniaeth<br>• Rhoi ymdeimlad o annibyniaeth iddo (e.e. yn cael dillad)<br>• Rhoi dewis arall i Rhys yn lle'r ysgol / diffyg diddordeb mewn astudiaeth academaidd/yn ei ysgol newydd<br>• Ofn gorfod symud lleoliadau eto<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 6. | **Rhowch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o pam gallai rhai unigolion wynebu mwy o risg o niwed neu gamdriniaeth.<br>Nid yw'r ymateb yn gwneud cysylltiadau penodol o ran sut mae hyn yn berthnasol i bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi preswyl i blant.<br>**Rhowch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o pam gallai rhai unigolion wynebu mwy o risg o niwed neu gamdriniaeth.<br>Mae'r ymateb yn ceisio gwneud rhai cysylltiadau o ran sut mae hyn yn berthnasol i bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi preswyl i blant.<br>**Rhowch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o pam gallai rhai unigolion wynebu mwy o risg o niwed neu gamdriniaeth.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau o ran sut mae hyn yn cyfrannu at ffactorau risg pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi preswyl i blant.<br>**Rhowch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o pam gallai rhai unigolion wynebu mwy o risg o niwed neu gamdriniaeth.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau clir a manwl o ran sut mae hyn yn cyfrannu at ffactorau risg pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi preswyl i blant.<br>**Disgwylir ymatebion sy'n berthnasol i blant/pobl ifanc yn gyffredinol, fodd bynnag, gellir derbyn enghreifftiau sy'n berthnasol i Rhys/Iwan i gefnogi'r ymateb**<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Mae tramgwyddwyr/pobl sy'n meithrin perthnasoedd amhriodol yn targedu pobl ifanc mewn gofal yn fwriadol am eu bod nhw'n byw oddi wrth eu cartref teuluol/wedi cael sawl lleoliad<br>• Mae pobl ifanc yn gallu bod yn fwy agored i gael eu manipiwleiddio/eu rheoli gan dramgwyddwyr/pobl sy'n meithrin perthnasoedd amhriodol/troseddwyr | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | oherwydd ymlyniad gwael â'u rhieni/gofalwyr/teulu ansefydlog<br>• Mae'n bosibl bod pobl ifanc eisoes wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd troseddol sy'n golygu eu bod nhw'n poeni nad yw pobl yn eu credu/nad ydynt yn gredadwy<br>• Gall pobl ifanc fuddsoddi mwy yn eu cyfeillgarwch/grwpiau cyfoedion fel modelau rôl oherwydd eu bod nhw wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu<br>• Efallai fod pobl ifanc yn teimlo wedi'u gwrthod a bod ganddyn nhw hunan-barch isel, ac felly maen nhw'n fwy agored i niwed a chamdriniaeth<br>• Gall tramgwyddwyr/gangiau gynnig ymdeimlad o berthyn i bobl ifanc/gwireddu eu dyhead i ffitio i mewn (e.e. logos/arwyddion llaw)<br>• Efallai fod rhai pobl ifanc wedi cael eu cam-drin yn y gorffennol, gan wynebu mwy o risg ohono'n digwydd eto<br>• Gall cefndiroedd teuluol/diwylliant/profiad niweidiol yn ystod plentyndod (e.e. rhieni yn y carchar) wneud pobl ifanc yn fwy agored i niwed<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o gam-fanteisio h.y. ei ddiffiniad/enghreifftiau ohono<br>• Siarad â phobl ifanc am sut i ddelio ag ef/lleihau risgiau<br>• Cefnogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon/diddorol<br>• Defnyddio dulliau plentyn-ganolog/cefnogi llesiant<br>• Cyfeirio at asiantaethau h.y. yr heddlu/gwasanaethau gwirfoddol/ gwahodd siaradwyr<br>• Dilyn polisïau a gweithdrefnau ar ddefnydd diogel o'r rhyngrwyd<br>• Gwybodaeth leol/bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal/arwyddion o weithgarwch gangiau<br>• Gwneud yn siŵr bod ymwelwyr yn arwyddo i mewn ac allan/monitro ymwelwyr<br>• Cynnal/meithrin perthnasoedd cadarnhaol/ennyn ymddiriedaeth<br>• Nodi unrhyw newidiadau yn ymddygiad pobl ifanc<br>• Gwneud yn siŵr bod y cartref yn groesawgar/annog ymdeimlad o berthyn<br>• Dilyn gweithdrefn adrodd a chofnodi (e.e. pan mae Rhys yn mynd ar goll) | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. | **Rhowch 1 marc** am bob ffactor hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Mae'r lleoliad yn cynnig dewis o fannau cymunedol a mannau tawel sydd ar gael<br>• Mae pobl ifanc yn cael eu hannog i bersonoli eu hystafelloedd<br>• Wedi ymrwymo i'r Cynnig Rhagweithiol<br>• Gwrando gweithredol gan weithwyr (e.e. mewn ymateb i ddicter Iwan)<br>• Esboniadau o drefn a ffiniau<br>• Rhoi gwybodaeth am y weithdrefn pryderon a chwynion<br>• Dewis i gael eiriolwr annibynnol<br>• Cymryd rhan yn y project Cadw'n Ddiogel!<br>• Mae'r gweithwyr yn mynegi pryder/dydy'r gweithwyr ddim yn atal Rhys rhag gadael yr adeilad<br>• Mae'r gweithwyr yn pwysleisio pwysigrwydd adrodd pryderon diogelu wrth oedolion<br>• Mae Abdul yn parchu penderfyniadau Iwan (e.e. mae'n tynnu'n ôl o wneud ei ddatgeliad)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 9. | **Rhowch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Siarad â Rhys am ei hoffterau/cefndir/yr hyn sy'n bwysig iddo.<br>• Cymryd diddordeb yn ei fywyd/gwrando o ddifrif ar yr hyn sydd ganddo i'w ddweud<br>• Meithrin perthnasoedd cadarnhaol/meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas<br>• Hybu dulliau cysurlon/diamod/ymddygiad cadarnhaol<br>• Ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon/gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddo<br>• Hybu/defnyddio dull nad yw'n feirniadol/ peidio â beirniadu/gwneud sylwadau negyddol<br>• Mynegi pryder am ei anafiadau/dangos tosturi<br>• Bod yno fel presenoldeb cysurlon/peidio â bod yn rhy fusneslyd/ (gadael i Rhys fynd at weithwyr os/pan fydd e’n teimlo'n barod i siarad).<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 10. | **Rhowch 1 marc** am bob ffactor hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd saff a diogel<br>• Mae'r lleoliad yn darparu protocolau diogelu clir i gadw Iwan yn ddiogel<br>• Mae'r lleoliad yn cefnogi Iwan i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon (e.e. project)<br>• Mae'r lleoliad yn rhoi'r dewis i Iwan gael mynediad at eiriolwr annibynnol<br>• Mae'r lleoliad yn cefnogi Iwan i gadw cysylltiad rheolaidd â'i chwaer, Megan<br>• Mae'r gweithwyr yn meithrin perthynas gadarnhaol gydag Iwan/ mae ganddo ymddiriedaeth a chydberthynas ag Abdul<br>• Mae'r gweithwyr yn cefnogi Iwan i fod â gwell dealltwriaeth o drefn a ffiniau Y Traeth<br>• Mae'r gweithwyr yn rhoi amser a lle i Iwan fynegi ei hun / rhoi llais a rheolaeth iddo<br>• Mae'r gweithwyr yn defnyddio dulliau cadarnhaol tuag at Iwan/ymateb yn ddigynnwrf a chyson iddo<br>• Mae Iwan wedi derbyn y weithdrefn pryderon a chwynion<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| | **Cyfanswm uned 002: 10 marc, uned 006: 20 marc** | **30 marc** |